Mai 2022

# Adolygiad o Hybiau Menter Gwasanaethau Cymorth Entrepreneuraidd Llywodraeth Cymru

Adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru

Awdur: Nia Bryer

Gwiriad Ansawdd: Heledd Bebb a Robert Chapman

Browerdd, Heol yr Ysgol,
Llanarthne, Sir Gâr

07792 609821
nia@ob3research.co.uk

99, Fairwater Grove West
Llandaf, Caerdydd

07815 772242
heledd@ob3research.co.uk

# Cynnwys

**Cynnwys** 2

**Geirfa** 3

**Crynodeb Gweithredol** 4

**1. Cyflwyniad** 13

**2. Methodoleg** 16

**3. Adolygiad o bolisïau** 18

**4. Adolygiad o hybiau menter eraill a mannau gwaith eraill a rennir** 26

**5. Hybiau Menter Busnes Cymru** 47

**6. Gweithredu a chyflawni** 59

**7. Adborth ar wasanaethau'r Hybiau Menter** 68

**8. Casgliadau a syniadau ar gyfer y dyfodol** 81

**Tabl 4.1: Hybiau cydweithio a hybiau menter eraill yng Nghymru** 40

**Tabl 5.1: DPA Hybiau Menter** 50

**Tabl 5.2: Cyflawniadau'r Hybiau Menter ar ddiwedd mis Mawrth 2022** 51

**Tabl 5.3: Mynychwyr gweminar yr Hybiau Menter (Ebrill 2020 – Rhagfyr 2021)** 53

**Tabl 5.4: Proffil demograffig defnyddwyr yr Hybiau Menter (ar draws pedwar lleoliad, ac eithrio Hwb Menter Wrecsam)** 54

**Tabl 5.5: Gwariant yr Hybiau Menter hyd yma yn erbyn y gyllideb (Medi 2018 – Medi 2022)** 56

**Ffigur 7.1: Natur gwasanaethau'r Hybiau Menter a ddefnyddiwyd** 70

**Tabl 7.1: Adborth gan ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ar leoliad tri hwb a'r cyfleusterau sydd ar gael ynddynt** 72

**Ffigur 7.2: Barn ynglŷn ag ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau'r Hybiau Menter** 75

**Ffigur 7.3: Y gwahaniaeth a wnaed gan Hybiau Menter** 77

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Geirfa

| | |
|---|---|
| BBaCh | Busnesau Bach a Chanolig |
| CBC | Cwmni Buddiannau Cymunedol |
| CECAS | Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Gweithredu ar yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd |
| DPA | Dangosyddion Perfformiad Allweddol |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| ERDF | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop |
| EYST | Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| FSB | Ffederasiwn Busnesau Bach |
| GEM | Monitor Entrepreneuriaeth y Byd |
| ICE | Canolfan Arloesi Menter |
| MIT | Sefydliad Technoleg Massachusetts |
| SAB | Sefydliad Addysg Bellach |
| SAU | Sefydliad Addysg Uwch |
| TEA | Cyfanswm Entrepreneuriaeth Cyfnod Cynnar |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido pum Hwb Menter Busnes Cymru i ddarparu rhaglen o wasanaethau cymorth entrepreneuraidd i ddarpar entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar ar sail ranbarthol. Sefydlwyd yr Hwb Menter cyntaf drwy wasanaeth Busnes Cymru yn Wrecsam fel cynllun peilot yn 2017 a sefydlwyd y pedwar arall ym mis Medi 2018 yn dilyn proses dendro gystadleuol. Caiff pob un o'r pum Hwb Menter eu hariannu tan fis Medi 2022. Dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) i dri o'r pum Hwb Menter, ac mae dau yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig. Mae'r pum hwb fel a ganlyn:

- Hwb Menter Ynys Môn a ddarperir gan Menter Môn yn M-Sparc, Gaerwen yn ogystal â chwe lleoliad lloeren a lleoliadau dros dro eraill ar draws gogledd Cymru[1]
- Hwb Menter Caerfyrddin a ddarperir gan Business in Focus yn Yr Egin, sydd wedi'i leoli ar gyrion tref Caerfyrddin[2] ac yn fwy diweddar drwy ddau leoliad lloeren mewn Gofod a Rennir yng nghanol trefi Caerfyrddin a Hwlffordd
- Hwb Menter y Drenewydd a ddarperir gan Business in Focus yn adeilad Pryce Jones yn y Drenewydd[3]
- Hwb Menter Caerffili a ddarperir gan Ganolfan Arloesi Menter Cymru (ICE) yn Nhŷ Britannia ym Mharc Busnes Caerffili[4]
- Hwb Menter Wrecsam a reolir gan Town Square Spaces ar ran Business in Focus fel rhan o'u contract gyda Busnes Cymru yng nghanol dinas Wrecsam[5].

## Nodau ac amcanion yr adolygiad

Penodwyd Ymchwil OB3, ar y cyd ag RC$^2$ (Robert Chapman & Company Ltd) gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o Hybiau Menter Busnes Cymru.

Nod yr adolygiad oedd ystyried rôl yr Hybiau Menter o ran diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar er mwyn helpu i lywio darpariaeth yn y dyfodol. Y bwriad oedd y byddai'r adolygiad yn:

- ystyried effaith yr Hybiau Menter gan gynnwys nodi cryfderau a chyfleoedd
- nodi unrhyw effaith ar hyder a llesiant entrepreneuriaid, yn ôl nodweddion gwarchodedig

[1] Hafan — Hwb Menter (hwbmenter.cymru)
[2] Hwb Caerfyrddin (hwbsmenterffocws.cymru)
[3] Hwb y Drenewydd (hwbsmenterffocws.cymru)
[4] Canolfan Arloesi i Fusnesau Newydd yn Ne Cymru | ICE Cymru
[5] Hwb Menter Wrecsam | Busnes Cymru (llyw.cymru)

- nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar
- asesu effaith cyfleoedd economaidd newidiol a datblygiadau digidol ar entrepreneuriaid y dyfodol a busnesau cyfnod cynnar
- pennu gallu'r Rhaglen i gefnogi'r anghenion hyn sy'n dod i'r amlwg ochr yn ochr â mentrau'r sector preifat, y trydydd sector a mentrau eraill y Llywodraeth
- amlygu'r meysydd hynny o angen sy'n dod i'r amlwg nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd gan fodel cyflawni'r Hybiau
- ailasesu'r sail resymegol dros ymyrryd a chynnig argymhellion ar gyfer sut y gallai gwasanaethau cymorth busnes fodloni blaenoriaethau'r economi a'r Rhaglen Lywodraethu newydd ar gyfer 2021-2026.

## Dull

Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Chwefror a mis Mai 2022 ac roedd yn cynnwys:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a mireinio'r rhaglen waith
- adolygiad desg o ddogfennau polisi a dogfennau rhaglen diweddar, yn ogystal ag arferion gorau a thueddiadau'n ymwneud â hybiau menter a mannau gwaith a rennir
- drafftio offerynnau ymchwil a hysbysiad preifatrwydd
- dosbarthu arolwg ar-lein a derbyn cyfanswm o 171 o ymatebion gan ddefnyddwyr yr Hybiau Menter
- ymweld â phob Hwb Menter gan gyfweld â phum aelod o staff ac 14 o ddefnyddwyr wyneb yn wyneb
- arsylwi amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithwir ac wyneb-yn-wyneb
- cyfweld â 15 o randdeiliaid a derbyn cyfraniadau ysgrifenedig gan bum sefydliad
- cyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a pharatoi adroddiad.

## Canfyddiadau allweddol

Canfu'r adolygiad y canlynol o ran darpariaeth ac effaith Hybiau Menter:

**Mae Hybiau Menter wedi gweithio'n dda mewn achosion ble roedd yr holl ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd ar waith.**

- Mae cyflwyno pum Hwb Menter ledled Cymru wedi bod yn ymarfer defnyddiol i adnabod beth sy’n gweithio’n dda ac o dan ba amgylchiadau.
- Y ffactorau llwyddiant allweddol sy’n gysylltiedig â Hybiau Menter llwyddiannus yw lleoliad, cyfleusterau, a rôl ymgysylltydd cymunedol. Un o gryfderau nodedig y gwasanaeth yw rôl, brwdfrydedd ac ansawdd rheolwyr yr Hybiau Menter a’u timau sy’n bywiogi eu gofod ac yn sicrhau bod cymorth personol wedi’i deilwra ar gael i gleientiaid.
- Gwelir yr holl ffactorau llwyddiant allweddol hyn mewn tri o'r pum Hwb Menter ac maent yn cynnig, i raddau amrywiol, y cyfleusterau priodol sydd eu hangen ar ddefnyddwyr. Mae’r tri hwb hyn mewn lleoliadau priodol ac yn darparu amgylchedd addas i ddefnyddwyr weithio ynddo.
- Bu llai o alw am ddau o leoliadau’r Hybiau Menter, sef yr un yn yr Egin yng Nghaerfyrddin a'r un yn adeilad Pryce Jones yn y Drenewydd, yn rhannol oherwydd y pandemig COVID-19 ond hefyd oherwydd ffactorau fel eu cyfleusterau a’u lleoliad.

**Mae Hybiau Menter wedi chwarae rhan bwysig o ran ymgysylltu ag entrepreneuriaid na fyddent o reidrwydd wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru ac maent wedi gwneud cyfraniad ystyrlon at eu taith tuag at ddechrau busnes.**

- Mae'r Hybiau Menter wedi ymgysylltu’n llwyddiannus â charfan ehangach o ddarpar entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar na fyddent fel arall wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru. Mae pob lleoliad wedi hyrwyddo ei wasanaethau ac wedi ymgysylltu â'i gynulleidfa darged mewn modd creadigol sydd wedi'i deilwra.
- Mae brand y darparwr neu’r lleoliad yn aml yn fwy adnabyddus na brand yr Hwb Menter.
- Mae’r newid i ddarpariaeth ddigidol, a ysgogwyd yn bennaf gan effaith y pandemig, wedi galluogi Hybiau Menter i gyrraedd dalgylch daearyddol ehangach ac mae'r cyrsiau digidol a ddarperir i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes wedi cael croeso brwd.
- Mae cleientiaid Hybiau Menter sy’n defnyddio’r cyfleusterau yn bersonol yn parhau i fod yn weddol leol i bob lleoliad ac mae angen cadw hyn mewn cof wrth gyllido unrhyw ddarpariaeth ffisegol debyg yn y dyfodol.
- Mae defnyddwyr yn gwerthfawrogi’r cymorth o ansawdd uchel sydd wedi'i deilwra ac yn cydnabod gwerth lleoliad yr hwb fel lle i gyfarfod a rhwydweithio ag entrepreneuriaid eraill.
- Mae’r mannau ffisegol a’r cymorth a ddarperir gan Hybiau Menter yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynyddu hyder darpar entrepreneuriaid, gwella eu llesiant, a chynyddu eu

gallu i ddechrau busnes. Mae'r cymorth sydd ar gael drwy Hybiau Menter hefyd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i sgiliau a gwybodaeth entrepreneuriaid cyfnod cynnar.

**Mae i ba raddau y mae Hybiau Menter wedi cyflawni'r amcanion a ariannwyd yn amrywio, ac mae'r perfformiad cyffredinol yn erbyn y DPA a ariannwyd yn wannach na'r disgwyl.**

- Mae Hybiau Menter wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â thros 20,000 o fynychwyr. Mae perfformiad yn erbyn y DPA a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn is na'r disgwyl ac adeg drafftio'r adroddiad hwn, dim ond hanner eu targed ar gyfer busnesau newydd y mae'r Hybiau wedi'i gyrraedd hyd yma. Mae perfformiad yn erbyn y DPA a ariannwyd yn amrywio'n sylweddol ar draws lleoliadau unigol ac mae'r pandemig yn ogystal â ffactorau lleol eraill wedi effeithio ar hynny.
- Nid yw'r DPA a ariannwyd wedi adlewyrchu ehangder y gwaith a wneir gan Hybiau Menter ac mae dadl dros fabwysiadu set ehangach a mwy priodol o ddangosyddion yn y dyfodol.

**Mae'r Hybiau Menter wedi ychwanegu gwerth at yr ecosystem cymorth busnes, ond nid yw hyn o reidrwydd wedi arwain at fwy o lif o gleientiaid ar gyfer darparwyr prif ffrwd.**

- Mae Hybiau Menter wedi ychwanegu gwerth at ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru drwy wneud gwaith allgymorth a hwyluso cysylltiadau â busnesau lleol a grwpiau cymunedol.
- Mae rheolwyr hybiau wedi gweithredu fel cyfrwng pwysig rhwng y gymuned cymorth busnes a'u cynulleidfa darged.
- Dim ond niferoedd bach o gleientiaid yr Hybiau Menter sy'n cael eu cyfeirio at ddarparwyr prif ffrwd Busnes Cymru gan fod yn well gan gleientiaid gael cymorth busnes drwy eu Hwb Menter.
- Mae Hybiau Menter wedi gweithio'n dda gydag ystod eang o sefydliadau partner. Mae pa mor agos yn ddaearyddol yw'r sefydliad partner a'r hwb ei hun yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar yr ymgysylltiad.
- Er bod Hybiau Menter yn gweithio'n agos gyda'u SAB lleol, dim ond mewn dau achos y ceir cydweithio ystyrlon â SAU.

Mae canfyddiadau allweddol yr adolygiad o ran y dyfodol fel a ganlyn:

**Mae'r cyflenwad a'r galw ar draws y dirwedd ehangach yn parhau i esblygu gan ei gwneud yn anodd nodi meysydd o fethiant yn y farchnad.**

- Yn ddiweddar, bu cynnydd amlwg yn argaeledd mannau gwaith a rennir a chanolfannau deori eraill ledled Cymru.
- Dim ond mewn meysydd lle mae'r farchnad yn methu lle nad yw'r sector preifat neu sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, addysg uwch a'r trydydd sector yn weithredol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn cefnogi ac yn cyllido Hybiau Menter. Mae nodi meysydd o fethiant yn y farchnad yn y dyfodol agos yn heriol gan fod y dirwedd cyflenwi yn esblygu'n barhaus ac nid yw'n hysbys eto sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gefnogi mannau tebyg.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid y mae wedi'i ddyrannu ar gyfer Hybiau Menter mewn ffordd fwy hyblyg am y tro yn hytrach na'i ymrwymo i unrhyw leoliadau penodol drwy gefnogi mannau gwaith eraill a rennir ac ysgogi cydweithio rhyngddynt hwy a Busnes Cymru. Dylid cyfeirio cyllid yn y dyfodol at staff, yn hytrach na gofod.
- Mae cefnogi hybiau mewn ardaloedd lle nad oes digon o alw am ofod cydweithio yn arwain at fannau lle ceir diffyg 'bwrlwm' i gefnogi cymuned o entrepreneuriaid.
- Mae llawer o ffactorau'n dal i fod yn anhysbys ynghylch sut y bydd y galw am fannau cydweithio yn cynyddu dros amser ac a fydd busnesau'n croesawu model hybrid yn yr hirdymor, ac felly mae angen ymchwil barhaus i fapio ardaloedd ble nad oes darpariaeth.

**Mae angen blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gwasanaethau sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian a'r elw mwyaf ar fuddsoddiad.**

- Mae lefelau cyllido is yn y dyfodol yn golygu y dylid blaenoriaethu adnoddau er mwyn darparu cymorth sy'n ychwanegu'r gwerth mwyaf at gymorth busnes prif ffrwd. Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd drwy'r astudiaeth hon, byddai hyn yn ymwneud ag adnoddau staff er mwyn sicrhau y gellir parhau i ymgysylltu â phartneriaid, gweithgareddau allgymorth, rhwydweithio a chymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes.

**Mae gan Hybiau Menter y potensial i chwarae rhan bwysig o ran helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithio o bell, adfywio canol trefi a chadw pobl ifanc dalentog.**

- Mae Hybiau Menter mewn sefyllfa dda i gyfrannu at weithredu strategaeth gweithio o bell Llywodraeth Cymru gan fod y lleoliadau hyn yn darparu mannau gwaith arbenigol a rennir ar gyfer cymuned benodol o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, dylai Hybiau Menter ochel rhag dod yn fannau gwaith a rennir sy'n fannau mwy cyffredinol gan y gallai hynny gyfaddawdu eu pwrpas sylfaenol.

- Mae Hybiau Menter hefyd mewn sefyllfa dda i gyflawni blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu megis yr agenda lleihau carbon, drwy ddarparu cymorth i entrepreneuriaid goleddu'r mater hwn, a chefnogi canol trefi i ddod yn fwy ystwyth. Gallai hybiau'r dyfodol chwarae rhan bwysig yn y broses o ddefnyddio eiddo gwag ar y stryd fawr a byddem yn argymell bod unrhyw gyfleoedd newydd a allai gael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gwneud defnydd o eiddo gwag ar y stryd fawr.
- Mae gan Hybiau Menter rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran helpu Cymru i ddod yn lle mwy deniadol i bobl ifanc fyw a gweithio ynddo, ac mae'r ffaith bod nifer o'r Hybiau presennol yn cael eu hystyried yn fannau apelgar i bobl ifanc yn arwydd bod ganddynt rôl i'w chwarae mewn gwella'r elfennau cymdeithasol a diwylliannol sydd gan leoedd i'w cynnig a lleihau'r 'draen dawn'[6].

**Mae lle i sicrhau mwy o gydlyniant rhwng unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol a'r ecosystem cymorth busnes ehangach.**

- Mae Hybiau Menter wedi sefydlu cysylltiadau da â'r ecosystem cymorth busnes ehangach ond mae lle i wella'r rhain yn y dyfodol i sicrhau mwy o gyfatebiaeth â darpariaeth prif ffrwd.
- Mae rhai o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Hybiau Menter, megis cyrsiau digidol i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, wedi bod yn debyg i'r hyn sydd ar gael drwy Busnes Cymru, er ei fod wedi'i becynnu mewn ffordd wahanol a'i hyrwyddo i gynulleidfa wahanol.
- Mae dadl dros fabwysiadu ystod ehangach o DPA sy'n adlewyrchu natur darpariaeth yr Hybiau Menter yn well, yn enwedig o ran ymgysylltu â chleientiaid a phartneriaid, hwyluso rhwydweithiau busnes a'r cymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes.

**Mae angen model darpariaeth hybrid sy'n mabwysiadu darpariaeth ddigidol yn ogystal â darpariaeth bersonol yn y dyfodol.**

- Mae angen elfennau ffisegol yr Hybiau Menter (h.y., mynediad i ofod cydweithio, lle i rwydweithio ag entrepreneuriaid eraill) yn ogystal â'r gwasanaethau eraill y maent yn eu darparu (h.y. cymorth busnes, cyrsiau i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes a digwyddiadau rhwydweithio).

[6] IWA View: No Country for Young Folks: Looking for the Full Picture of the Welsh 'Brain Drain' - Sefydliad Materion Cymreig

- Dylai'r gwasanaethau eraill hyn fod ar gael yn bersonol yn ogystal ag yn rhithwir, gan fod gan ddefnyddwyr gwahanol hoffterau gwahanol o ran eu dull ymgysylltu.

## Argymhellion

Mae'r adroddiad yn argymell y canlynol:

i. dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio unrhyw gyllid y mae'n ei ddyrannu i Hybiau Menter yn y dyfodol mewn ffordd fwy hyblyg yn hytrach na'i ymrwymo i leoliadau penodol. Yn y dyfodol, dylid cyfeirio'r cyllid tuag at staff, yn hytrach na gofod, i sicrhau ei fod yn darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf am arian
ii. dylid defnyddio cyllid yn y dyfodol i gefnogi darpariaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan ddefnyddwyr, gan gynnwys allgymorth ac ymgysylltu cymunedol, rhwydweithio, a chymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes
iii. yn y dyfodol, dylid defnyddio'r cyllid i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran gweithio o bell, adfywio canol trefi a chadw pobl ifanc dalentog
iv. dim ond mewn meysydd lle mae'r farchnad yn methu y dylai Llywodraeth Cymru gyllido Hybiau Menter newydd. Er y gall fod yn heriol nodi meysydd o fethiant yn y farchnad o ystyried natur esblygol y dirwedd gyflenwi ac ansicrwydd ynghylch sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru, serch hynny, fonitro'r ddarpariaeth a'r galw er mwyn sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn y dyfodol yn cael eu targedu'n gywir tuag at feysydd lle mae'r farchnad yn parhau i fethu
v. dylid darparu gwell cymhellion ar gyfer unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol, gan gynnwys drwy DPA, i sicrhau bod cleientiaid sy'n dymuno cael eu hatgyfeirio o gam cyntaf y daith i ddarpariaeth Busnes Cymru yn pontio'n ddidrafferth i'r ddarpariaeth honno
vi. yn y dyfodol, dylai DPA adlewyrchu'n well natur darpariaeth bresennol yr Hybiau Menter, yn enwedig o ran ymgysylltu â chleientiaid a phartneriaid, hwyluso rhwydweithiau busnes a'r cymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes
vii. dylai Llywodraeth Cymru annog cydleoli unrhyw ddarpariaeth a ariennir yn y dyfodol a darpariaeth Busnes Cymru, a gwneud mwy o ddefnydd o fannau deori a mannau gwaith a rennir sydd ar gael ledled Cymru
viii. dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o gydweithio rhwng y ddarpariaeth ddeori a SAU yn y dyfodol
ix. yn y dyfodol, dylai unrhyw ddarpariaeth ddigidol i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fod ar gael ledled Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 1. Cyflwyniad

1.1. Penodwyd Ymchwil OB3, mewn cydweithrediad ag RC[2] (Robert Chapman & Company Ltd) gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'i Hybiau Menter, sef ei gwasanaethau cymorth i entrepreneuriaid. Yr enw gweithredol arnynt yw Hybiau Menter Busnes Cymru[7] ac mae pump ar waith ledled Cymru yn Ynys Môn, Caerffili, Caerfyrddin, y Drenewydd, a Wrecsam. Mae'r rhwydwaith wedi bod yn ei le ers 2018.

1.2. Nod yr adolygiad oedd ystyried rôl yr Hybiau Menter o ran diwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar er mwyn helpu i lywio darpariaeth yn y dyfodol. Roedd disgwyl i'r adolygiad:

- ystyried effaith yr Hybiau Menter gan gynnwys nodi cryfderau a chyfleoedd
- nodi unrhyw effaith ar hyder a llesiant entrepreneuriaid, yn ôl nodweddion gwarchodedig, wrth gymharu model yr Hybiau â gwasanaethau cymorth busnes eraill
- nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar ar lefel leol a rhanbarthol ledled Cymru
- asesu effaith cyfleoedd economaidd newidiol a datblygiadau digidol ar entrepreneuriaid y dyfodol a busnesau cyfnod cynnar
- pennu gallu'r Rhaglen i gefnogi'r anghenion hyn sy'n dod i'r amlwg ochr yn ochr â mentrau'r sector preifat, y trydydd sector a mentrau eraill y Llywodraeth
- amlygu'r meysydd hynny o angen sy'n dod i'r amlwg nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd gan fodel cyflawni'r Hybiau
- ailasesu'r sail resymegol dros ymyrryd a chynnig argymhellion ar gyfer sut y gallai gwasanaethau cymorth busnes fodloni blaenoriaethau'r economi a'r Rhaglen Lywodraethu newydd ar gyfer 2021-2026.

1.3. Cafodd amcanion y gwerthusiad eu grwpio'n dri maes:

*Effaith a Chyflawni*

- adolygu'r amcanion a osodwyd ar gyfer Hybiau Menter ac ystyried a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol ac a oes modd gwella gwasanaethau a theithiau cleientiaid yn y dyfodol
- ymchwilio i'r gwerth ychwanegol anuniongyrchol a ddarperir gan y rhwydwaith Hybiau y tu hwnt i'r canlyniadau gwreiddiol a ragwelwyd

[7] Cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn fel 'Hybiau Menter'

- ymchwilio i gyfraniad yr Hybiau Menter i'r ecosystem cymorth ehangach ochr yn ochr â chynigion eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat (e.e. Busnes Cymru, Cymorth gan Awdurdodau Lleol, banciau)
- adolygu pa mor effeithiol y bu'r gwasanaeth o ran cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â chynhwysiant gan nodi unrhyw lwyddiant o ran cynyddu cyfranogiad gan grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (sef oedran, anabledd, rhyw / rhywedd, a hil).

*Modelau Cyflawni yn y Dyfodol*

- ystyried y ffordd orau o wella ymgysylltiad ag entrepreneuriaid a'r rhai sy'n chwilio am wasanaethau cymorth busnes cyfnod cynnar beth bynnag fo'r amgylchiadau
- nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg ymysg entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar ar lefel leol a rhanbarthol ledled Cymru
- ystyried sut orau i gefnogi'r anghenion hynny sy'n dod i'r amlwg
- cynnal adolygiad cyflym o arferion gorau mewn hybiau cymorth busnes / mannau gwaith a rennir, a datblygiadau digidol - gan nodi tystiolaeth o unrhyw dueddiadau neu batrymau ehangach i gynnig model(au) ar gyfer cyflawni rhaglenni yn y dyfodol.

*Rhesymeg dros ddarparu cymorth/Rôl y Llywodraeth*

- ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi entrepreneuriaid i ddatblygu sgiliau a galluoedd mentrus ar sail leol a rhanbarthol
- ystyried budd y model hwb yng nghyd-destun cymorth busnes ehangach Llywodraeth Cymru nawr ac yn y dyfodol
- ystyried a oes sail resymegol barhaus i gyllido Hybiau Menter.

**Strwythur yr adroddiad**

1.4. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Pennod 2 yn crynhoi'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr adolygiad hwn
- Ym Mhennod 3 rhoddir trosolwg o'r cyd-destun polisi y mae Hybiau Menter wedi gweithredu ynddo
- Mae Pennod 4 yn amlinellu arferion gorau ac yn ystyried rhai o'r tueddiadau ehangach sy'n digwydd ar draws hybiau cymorth busnes a mannau gwaith a rennir, gan gynnwys yng Nghymru

- Ym Mhennod 5 rhoddir trosolwg o’r Hybiau Menter a’u datblygiad, ac ystyrir eu perfformiad yn erbyn targedau a ariennir
- Mae Pennod 6 yn ystyried gweithrediad yr Hybiau Menter, gan gynnwys sut y maent wedi gweithio gyda gwahanol sefydliadau partner
- Ym Mhennod 7 trafodir yr adborth ar y gwasanaethau sydd ar gael gan yr Hybiau Menter, gan gynnwys y gwahaniaeth a wnaed i ddefnyddwyr
- Mae Pennod 8 yn cyflwyno'r casgliadau a'r syniadau ar gyfer y dyfodol i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

## 2. Methodoleg

2.1. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng mis Chwefror a mis Mai 2022 ac roedd yn cynnwys:

- cyfnod cychwynnol a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda’r cleient a pharatoi adroddiad cychwynnol yn manylu ar y rhaglen waith i’w dilyn
- cynnal adolygiad desg o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru, adroddiadau perthnasol, a dogfennau ar lefel rhaglen
- cynnal adolygiad cyflym o arferion gorau a thueddiadau’n ymwneud â hybiau menter, mannau gwaith a rennir, a datblygiadau digidol
- datblygu offerynnau ymchwil, i gynnwys canllawiau trafod ac arolwg dwyieithog dros y we o ddefnyddwyr Hybiau Menter, a hysbysiad preifatrwydd fel sail i gam ymchwil cynradd y gwaith maes
- dosbarthu'r arolwg ar-lein i ddefnyddwyr drwy gylchlythyrau'r Hybiau Menter a negeseuon e-bost uniongyrchol a derbyn cyfanswm o 171 o ymatebion
- ymweld â phob un o’r pum Hwb Menter i weld eu trefniant a'u gofodau'n uniongyrchol; a chyfweld â phum aelod o staff ac 14 o ddefnyddwyr yr Hybiau wyneb yn wyneb
- arsylwi amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithwir a phersonol gan gynnwys cwrs dechrau busnes rhithwir y Clwb 5-9[8], digwyddiad 'RhwydGerdded'[9], cyflwyniadau gan siaradwyr gwadd a sesiynau rhwydweithio cyffredinol
- cyfweld â chyfanswm o 15 o randdeiliaid gan gynnwys dau aelod o staff Llywodraeth Cymru, tri chynrychiolydd awdurdod lleol sydd â Hwb Menter yn eu hardal, tri aelod o Fwrdd Busnes Cymru, dau ddarparwr Busnes Cymru, a chynrychiolwyr o hybiau menter eraill ledled Cymru
- derbyn cyfraniadau ysgrifenedig gan bum sefydliad, gan gynnwys pedwar awdurdod lleol nad oes ganddynt Hwb Menter yn eu hardal.

2.2. Mae proffil y rhai a gwblhaodd arolwg dros y we i ddefnyddwyr Hybiau Menter fel a ganlyn:

- cwblhaodd y mwyafrif yr arolwg yn Saesneg (165 neu 96%) a chwblhaodd chwech (4%) yr arolwg yn Gymraeg

[8] Cwrs ar-lein 8-9 wythnos ar ôl oriau (a gynhelir unwaith yr wythnos) yw'r Clwb 5-9 a'i nod yw helpu unigolion drwy gamau cynnar sefydlu menter.
[9] Digwyddiad cerdded anffurfiol i'r rhai sydd â diddordeb mewn dod i adnabod entrepreneuriaid lleol eraill yn y rhanbarth

- o Hybiau Menter Caerffili (79 neu 46%), y Drenewydd (56 neu 33%) a Chaerfyrddin (24 neu 14%) y daeth mwyafrif helaeth yr ymatebwyr. Ychydig iawn o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd wedi ymwneud â Hybiau Menter Ynys Môn (pump neu 3%) neu Wrecsam (un defnyddiwr). Nid oedd nifer bach (6 neu 3.5%) yn siŵr pa Hwb Menter a oedd wedi eu cefnogi.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.3. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth rhannu data, roedd y tîm ymchwil yn dibynnu ar Hybiau Menter unigol i ddosbarthu dolen yr arolwg ar ein rhan drwy wahoddiadau ar e-bost a chylchlythyrau electronig. Deillia canfyddiadau'r arolwg yn bennaf o ddefnyddwyr tri Hwb Menter ac o'r herwydd rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn. Mae'r farn gyfyngedig a gasglwyd gan ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg a gefnogwyd gan Hybiau Menter Ynys Môn neu Wrecsam hefyd yn ei gwneud yn anodd iawn cynnig sylwadau penodol ac awgrymiadau manwl ar gyfer gwella'r cyfleusterau sydd ar gael yn y safleoedd hyn. Serch hynny, mae safbwyntiau ansoddol gan nifer bach o ddefnyddwyr a gyfwelwyd yn ystod ein hymweliadau â'r ddau hwb wedi'u hystyried fel rhan o'n casgliadau ehangach a'n hargymhellion am waith yr Hybiau Menter ar lefel ehangach.

# 3. Adolygiad o bolisïau

3.1. Mae'r bennod hon yn amlinellu adolygiad o ddogfennau polisi allweddol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r Hybiau Menter, yn ogystal â datblygiadau allweddol eraill.

**Y Rhaglen Lywodraethu**

3.2. Ymrwymodd Symud Cymru Ymlaen, Rhaglen Lywodraethu 2016-21, i hyrwyddo hybiau technoleg mewn trefi a dinasoedd lle ceir colegau a phrifysgolion. Ymrwymodd hefyd i dreialu'r prosiect Swyddi Gwell yn Nes at Adref a gynlluniwyd i greu hybiau cyflogaeth a hyfforddiant yn benodol mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd uchel.[10].

3.3. Mae’r Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf (2021-2026) a’r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn nodi cyfres o ymrwymiadau ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Fel rhan o’i hymrwymiad i adeiladu economi sy’n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno rhaglen a fydd yn galluogi canol trefi i ddod yn fwy ystwyth ac yn helpu busnesau i gydweithio a chynyddu eu harlwy digidol yn ogystal â chyrraedd targed o 30% ar gyfer gweithio o bell[11].

**Ffyniant i Bawb**

3.4. Yn ei chynllun gweithredu ar yr economi, Ffyniant i Bawb, a gyhoeddwyd yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i Gontract Economaidd a model rhanbarthol o ddatblygu economaidd gyda’r nod o ddarparu cyfleoedd ym mhob rhan o Gymru i dyfu busnesau cynhyrchiol, cystadleuol[12]. Roedd hefyd yn cynnwys nod o gefnogi pobl i ddatblygu’r cydnerthedd, y sgiliau a’r creadigrwydd i addasu i fyd gwaith sy’n newid[13]. Nod y cynllun oedd annog a galluogi diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru gyda Maes Gweithredu i 'sicrhau mwy o fusnesau newydd, sector BBaChau[14] ffyniannus a mentrau sy’n arloesi’[15]. Ymrwymodd i ‘sicrhau bod modd i entrepreneuriaid fanteisio’n ddidrafferth ar gymorth i gychwyn, tyfu a chynnal eu busnesau’ drwy wella cymorth gan ganolfannau deori a chanolfan arloesi i gwmnïau newydd yng Nghymru[16].

[10] Llywodraeth Cymru (2016), Symud Cymru Ymlaen tud.5
[11] Llywodraeth Cymru (2021), Rhaglen Lywodraethu, Diweddariad, tud. 4
[12] Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi. 19
[13] Ibid., tud.34
[14] Busnesau Bach a Chanolig
[15] Ibid., tud.38
[16] Ibid., tud.38

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

3.5. Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**[17] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol – y saith nod llesiant, ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus penodol eraill.

3.6. Ceir saith nod llesiant, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- cymunedau cydlynol, a
- diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

**Y genhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi**

3.7. Nododd Llywodraeth Cymru ei chenhadaeth ar gyfer economi fwy llewyrchus, mwy cyfartal a gwyrddach yn 2021[18] fel rhan o'i ddull o helpu'r economi i adfer yn sgil y difrod a wnaed gan y pandemig COVID-19. Gan ddefnyddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r ddogfen yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer 'economi llesiant sy'n ysgogi ffyniant, sy'n amgylcheddol gadarn, ac sy'n helpu pawb i wireddu eu potensial.'[19] Mae datblygu diwylliant entrepreneuraidd a chreu mwy o fusnesau newydd yn greiddiol i nod Llywodraeth Cymru o greu economi fwy ffyniannus. Disgwylir y bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar bum llusern:

- atgyfnerthu'r economi sylfaenol
- ymrwymiad COVID i ddiogelu a galluogi sgiliau a swyddi

[17] 42329 Canllaw Hanfodion WBFG (llyw.cymru)
[18] Y genhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi | LLYW.CYMRU
[19] Ibid., tud.6

- cyflymu ymaddasu ar gyfer adfer a ffyniant yn y dyfodol
- magneteiddio buddsoddiadau mewn adferiad gwyrdd
- ategu'r ymdrech i sicrhau gwerth cymdeithasol.

3.8. Fel rhan o’i chenhadaeth, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddatblygu hybiau cydweithio rhanbarthol yng nghanol trefi, gan fuddsoddi yn y seilwaith digidol i gefnogi Hybiau gwaith aml-le, ac ymchwilio i gyfleoedd i ddysgu a gweithio o bell gan ddileu’r angen i fyw neu deithio i hybiau economaidd.

**Gweithio’n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru**

3.9. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi sut y bydd gweithio o bell yn cael ei annog ledled Cymru[20]. Mae’r strategaeth yn nodi uchelgais i 30% o weithlu Cymru weithio gartref neu’n agos at eu cartrefi yn rheolaidd dros dymor presennol y Senedd. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hon, mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i 'hyrwyddo model hybrid ar gyfer y gweithle fel swyddfa, cartref a chanolfannau lleol er mwyn galluogi pobl i fyw a gweithio yn eu cymunedau lleol'. Mae’n rhagweld y bydd mwy o weithio o bell yn helpu i gyflawni:

- llesiant amgylcheddol megis llai o deithio'n gysylltiedig â gwaith a mwy o ddefnydd o ffyrdd cynaliadwy o deithio
- llesiant economaidd megis mwy o gyfleoedd gwaith mewn cymunedau gwledig, mwy o gynhyrchiant a mwy o ymwelwyr i strydoedd mawr a chanol trefi
- llesiant diwylliannol drwy feithrin diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu.

3.10. Cafodd y strategaeth ei llywio gan arolwg ymgysylltu â’r cyhoedd[21] a gynhaliwyd yn gynnar yn 2021, a oedd yn ceisio asesu lefel y galw am ganolfannau gwaith lleol ledled Cymru. Roedd yr ymarfer yn caniatáu i bobl nodi, drwy fap rhyngweithiol, ble yr hoffent gael hwb lleol a ddefnyddiwyd wedyn i greu map g o feysydd o ddiddordeb ar gyfer gweithio'n lleol. Er bod yr ymchwil wedi’i llywio gan farn nifer fawr o ymatebwyr, sef 1,841, mae’r canfyddiadau o werth cymharol gyfyngedig ar gyfer gwaith Hybiau Menter, o ystyried mai dim ond 2% o’r cyfranwyr a oedd yn hunangyflogedig a bod y mwyafrif (62%) yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Serch hynny, canfu’r ymchwil fod yr ymatebwyr:

- yn bositif o ran eu hagwedd tuag at hybiau gweithio o bell

[20] Gweithio'n ddoethach: strategaeth gweithio o bell i Gymru | LLYW.CYMRU
[21] Ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n gweithio o bell: Hybiau gwaith lleol [HTML] | LLYW.CYMRU

- yn ystyried patrymau gwaith hybrid yn ddewis poblogaidd a deniadol
- yn anfodlon talu am ddefnyddio hwb gweithio o bell
- angen cyfleusterau ymarferol megis band eang, system archebu ar-lein, desgiau poeth, ystafelloedd cyfarfod, cyfleusterau coffi a chawodydd da a mannau sy'n gyfeillgar i gŵn.

3.11. Fel rhan o'r broses o weithredu'r strategaeth, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyflwyno mannau gwaith lleol fel Hybiau peilot i 'brofi'r awydd am weithio'n agos i'r cartref ac i weld pa mor ymarferol yw hynny'. Mae dau ofod peilot o'r fath wedi'u hariannu hyd yma yn Costigan yn y Rhyl, Sir Ddinbych, ac yn Gofod a Rennir yn Hwlffordd, Sir Benfro.

3.12. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu datblygu gwasanaeth pwrpasol a fydd yn galluogi defnyddwyr i archebu hwb lleol ar gyfer desgiau poeth neu fannau cyfarfod yn ôl yr angen. Mae gwybodaeth sylfaenol (e.e., data cyswllt) eisoes ar gael ar gyfer tua 29 o hybiau gweithio o bell ar wefan Llywodraeth Cymru ar draws 16 o ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau sy'n cynnal tri o brif Hybiau Menter Busnes Cymru (Ynys Môn, Caerffili, a'r Drenewydd) yn ogystal â rhai o'u lleoliadau lloeren.

**Adroddiadau Gwybodaeth Economaidd Cymru Banc Datblygu Cymru**[22]

3.13. Mae data'n awgrymu bod nifer y busnesau newydd sy'n dechrau yng Nghymru ar gynnydd. Canfu trydydd adroddiad blynyddol diweddaraf Gwybodaeth Economaidd Cymru ar gyfer 2020/21[23] fod nifer y busnesau newydd yng Nghymru wedi perfformio'n well na'r holl ardaloedd eraill yn y DU rhwng chwarter cyntaf 2020 a chwarter cyntaf 2021. Yn ystod y cyfnod hwn o flwyddyn, cynyddodd busnesau newydd yng Nghymru 31 y cant o 3,500 yn Ch1 2020 i 4,560 yn Ch1 2021. Roedd hyn yn cymharu â chynnydd o 14 y cant ledled y DU.

**Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM UK) Cymru[24]**

3.14. Mae data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Fonitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM) yn awgrymu mai cyfanswm yr entrepreneuriaeth cyfnod cynnar (TEA) yng Nghymru yn 2020 oedd 6.5 y cant, a oedd yn debyg i gyfradd 2019 ond ychydig yn is na'r cyfartaledd o 7.5 y cant ar gyfer y DU gyfan. Entrepreneuriaid Cymru oedd â'r cymhelliad cryfaf i ddechrau

[22] Dirnad Economi Cymru | Banc Datblygu Cymru
[23] WEL EIW Adroddiad blynyddol 20_21.pdf (developmentbank.wales)
[24] Adroddiadau Monitor Entrepreneuriaeth y Byd (GEM UK) Cymru | LLYW.CYMRU

busnes oherwydd prinder swyddi. Roedd y TEA ar gyfer menywod yn 5.6 y cant o gymharu â dynion lle y gwelwyd cyfradd o 7.5 y cant, y canfuwyd eu bod yn debyg i gyfraddau'r DU. Gostyngodd cyfradd TEA menywod yng Nghymru o'r lefel uchaf erioed o 7 y cant yn 2019 ond mae'n dal i fod yn uwch na'r gyfradd o 3 y cant a adroddwyd gan GEM yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn 2002. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn lefel yr entrepreneuriaeth ymysg ieuenctid yng Nghymru dros amser ers i ymchwil GEM ddechrau ac ar hyn o bryd mae'n 10.1 y cant yn 2020 (o gymharu â dim ond 2 y cant yn 2002).

**Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru – Ffordd Ymlaen i Gymru[25]**

3.15. Arweiniodd adolygiad gan banel annibynnol a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru o sut i ddarparu mwy o gymorth sy'n canolbwyntio ar rywedd i ferched entrepreneuraidd yng Nghymru at gyhoeddi cyfres o argymhellion i'r gymuned cymorth busnes yng Nghymru fwrw ymlaen â nhw. Canfu'r adolygiad, er bod arferion da ledled Cymru, y gellid cymryd camau pellach i deilwra cymorth i ddiwallu anghenion merched yn well. Roedd ei argymhellion yn cynnwys:

- gwella ymgysylltiad â darpar entrepreneuriaid benywaidd i ddeall eu rhwystrau unigol yn well
- teilwra gwasanaethau cymorth busnes i ddiwallu anghenion penodol entrepreneuriaid benywaidd
- cynyddu argaeledd cynghorwyr busnes benywaidd a mentoriaid benywaidd
- gwella mynediad at ffynonellau gwybodaeth cymorth busnes
- darparu cyfleoedd rhwydweithio rhwng entrepreneuriaid benywaidd a'r gymuned fusnes ehangach
- datblygu canllaw arfer da ar gyfer sefydliadau cymorth busnes.

**Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru – Canllaw Arfer Da i unedau deori a chanolfannau gweithio ar y cyd[26]**

3.16. Arweiniodd mabwysiadu un argymhelliad a gynigiwyd gan 'Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru' at baratoi canllaw arfer da, a gyhoeddwyd gan Busnes

[25] https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/cefnogi-merched-entrepreneuraidd-yng-nghymru-ffordd-ymlaen-i-gymru%20PDF.pdf (llyw.cymru)

[26] https://businesswales.gov.wales/sites/main/files/documents/WGSEW_Good%20Practice%20Guide%2024pp%20WELSH_V5.pdf

Cymru gyda mewnbwn gan Hybiau Menter, i ddarparu canllawiau ymarferol ac awgrymiadau i sefydliadau cymorth busnes ar y ffordd orau o ymgysylltu â merched sy'n sefydlu ac yn rhedeg eu busnes eu hunain. Roedd y canllaw yn cynnwys cyngor ac awgrymiadau ymarferol ar sut y gallai sefydliadau cymorth fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio mwy ar rywedd ar gyfer rheoli mannau deori a hybiau cydweithio, yn ogystal â darparu cyfleoedd rhwydweithio, mentora a chyngor busnes. Mae'r canllaw yn nodi y canfuwyd bod gan fusnesau newydd a busnesau sy'n tyfu o fewn hwb menter gyfradd oroesi sydd 16 y cant yn uwch dros dair blynedd, o gymharu â'r cyfartaledd, ac felly mae'n bwysig sicrhau bod yr hybiau hyn yn meddu ar y gallu i gefnogi twf busnesau sy'n cael eu sefydlu gan ferched a dynion fel ei gilydd. Yn aml, mae angen mannau tawelach ar fenywod i weithio ynddynt, a chyfeiriwyd hefyd at hyblygrwydd a lleoliad ffisegol (gyda'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus dda a lleoedd i barcio ar adegau pan fydd plant yn cael eu hebrwng i'r ysgol a bod yn agos at amwynderau) fel ystyriaethau pwysig. Mae'r canllaw hefyd yn cydnabod bod menywod yn gweld llwyddiant busnes drwy ystod ehangach o fesurau na throsiant busnes yn unig, ac yn canolbwyntio ar fesurau eraill fel creu cyflogaeth ac ansawdd cynnyrch. Mae menywod hefyd yn elwa ar gyfleoedd rhwydweithio, gyda rhwydweithiau menywod yn unig yn aml yn darparu amgylchedd diogel, yn enwedig ar gyfer entrepreneuriaid cyfnod cynnar, i ddatblygu hyder yn eu syniadau busnes.

**Gwerthusiad canol tymor o wasanaethau cymorth busnes yng Nghymru**

3.17. Mae gwerthusiad canol tymor o raglenni Busnes Cymru a Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn a gyhoeddwyd yn 2018[27] yn cynnig dau argymhelliad sy'n berthnasol i'r Hybiau Menter, ac sydd o bosibl yn cyfiawnhau eu cyflwyno. Roedd y gwerthusiad yn argymell:

- bod angen cynyddu ymwybyddiaeth brand Busnes Cymru ymhlith busnesau newydd er mwyn gwella ymgysylltiad
- bod angen mwy o gymorth un-i-un ar gyfer busnesau Lefel 2, oherwydd ystyriwyd bod gan y rhain sylfaen ariannol fwy sefydlog i dyfu

3.18. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad yn nodi'n benodol yr angen i gyflwyno hybiau menter ar draws darpariaeth Busnes Cymru.

**Anghenion cymorth busnes yn y dyfodol yng Nghymru**

[27] Gwerthusiad canol tymor o wasanaethau cymorth busnes yng Nghymru (llyw.cymru)

3.19. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yn awgrymu mai'r tri maes cymorth busnes mwyaf a fyddai'n fuddiol i fusnesau bach yn y dyfodol yw mynediad at sgiliau, adferiad o COVID-19 a chymorth i dyfu. Mae ei adroddiad Building Businesses[28] yn cynnig sawl argymhelliad sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn o Hybiau Menter:

- Dylai gwerth am arian symud y tu hwnt i dargedau creu swyddi syml tuag at sgwrs economaidd ehangach sy'n cynnwys targedau datgarboneiddio ac enillion o ran cynhyrchiant
- Dylid diogelu seilwaith cymorth busnes craidd a'i roi ar sylfaen statudol gyda chyllid craidd amlflwyddyn
- Dylai Busnes Cymru barhau i fod yn bwynt mynediad allweddol ac yn siop un stop ar gyfer perchnogion busnes
- Dylai unrhyw system newydd wneud defnydd da o arbenigedd a gwybodaeth leol sydd wedi'u hymgorffori mewn sefydliadau.

**Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU**

3.20. Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn un o gonglfeini agenda Ffyniant Bro llywodraeth y DU a fydd yn darparu cymorth ariannol ar lefel leol ledled Cymru i ddisodli cyllid presennol yr UE. Bwriad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw cyflawni pedwar amcan allweddol:

- Rhoi hwb i gynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy ddatblygu'r sector preifat, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent ar ei hôl hi
- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent ar eu gwannaf
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent wedi'u colli
- Grymuso arweinwyr a chymunedau lleol, yn enwedig yn y mannau hynny sydd heb arweinwyr lleol.

3.21. O dan y flaenoriaeth cefnogi busnesau lleol, disgwylir i'r gronfa gael ei defnyddio i gefnogi busnesau newydd yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio, a all gynnwys cynlluniau ar gyfer sefydlu a chefnogi hybiau deori a mannau gwaith a

[28] https://www.fsb.org.uk/resource-report/building-business.html

rennir. Disgwylir i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau buddsoddi erbyn mis Awst 2022 ac felly adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae diffyg manylion am natur y ddarpariaeth cymorth busnes y bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ei chyllido.

# 4. Adolygiad o hybiau menter eraill a mannau gwaith eraill a rennir

4.1. Mae’r bennod hon yn nodi rhai o’r tueddiadau ehangach sy’n digwydd ar draws hybiau menter, deoryddion sbarduno a mannau gwaith a rennir, gan gynnwys y rhai yng Nghymru. Mae hefyd yn ystyried rhywfaint o’r dystiolaeth sydd ar gael am effaith hybiau menter a mannau gwaith a rennir ar ddefnyddwyr.

4.2. Cyn troi i ystyried y canfyddiadau hyn, mae’n ddefnyddiol rhoi trosolwg a diffiniad o’r modelau gwahanol hyn:

**Hybiau Menter**: cyfeirir at y rhain hefyd fel deoryddion, sydd fel arfer yn cynnig cyfleusterau ar y safle i fusnesau cyfnod cynnar a busnesau newydd. Mae defnyddwyr fel arfer yn manteisio ar ddarpariaeth ar sail anghystadleuol ac yn elwa ar ystod o wasanaethau ad-hoc gan gynnwys mynediad i fannau gweithio a chymorth busnes gan staff yr hwb.

**Sbardunwyr**: mae’r rhain yn ffenomen mwy diweddar na hybiau menter ac fel arfer maent yn ymwneud â dewis carfan benodol o entrepreneuriaid cyfnod cynnar, ar sail gystadleuol, gylchol, i gymryd rhan mewn rhaglen gymorth ddwys. Mae defnyddwyr fel arfer yn ymgysylltu â sbardunwyr am gyfnod byr penodol.

**Gofod cydweithio neu fannau gwaith a rennir**: mae'r rhain fel arfer yn fannau gwaith sy'n seiliedig ar aelodaeth lle mae grwpiau amrywiol o entrepreneuriaid a gweithwyr anhraddodiadol eraill yn cydweithio mewn gofod cymunedol a rennir. Er ei fod yn gymharol newydd, mae nifer y gofodau cydweithio sydd ar gael ledled y byd wedi cynyddu’n aruthrol dros y degawd diwethaf o 160 yn 2008 i dros 13,800 o fannau cydweithio erbyn 2017[29] a disgwylir i hyn gynyddu ymhellach i dros 40,000 erbyn 2024[30].

4.3. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu mai pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy’n gweithio’n llawnamser ar eu menter, yw’r defnyddwyr mwyaf o’r mannau hyn ac mai nhw fyddai'n elwa fwyaf ohonynt.

**Y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd hybiau menter**

[29] Kean Institute of Private Enterprise (March 2019) Coworking spaces: working alone, together [Coworking_04042019.pdf (unc.edu)]
[30] [Number Of Coworking Spaces Worldwide To Double Within The Next 4 Years - Allwork.Space]

4.4. Canfu adolygiad lefel macro a gynhaliwyd gan y What Works Centre[31], o ran cymorth deori i fusnesau newydd:

- ei fod yn gallu cynyddu cyflogaeth a gwerthiannau'r busnesau sy'n cymryd rhan
- ei fod yn helpu busnesau i sefydlu'n gyflymach, ystyried ansawdd eu syniad busnes a'u hannog i roi'r gorau i syniadau gwael yn gyflym, yn hytrach na pharhau â nhw nes bod y syniad yn methu'n 'naturiol'
- nad oedd yr amser a dreuliwyd mewn deorydd wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar oroesiad busnesau
- bod y dystiolaeth ar effaith gwahanol fodelau busnes canolfannau deori yn amhendant
- y gall cyfranogiad prifysgol a'r byd academaidd helpu i wella canlyniadau busnes
- y gall y math o ddeorydd a chymorth effeithio ar oroesiad busnes, er bod y dystiolaeth yn gyfyngedig. Canfuwyd bod deoryddion sector-benodol yn cynhyrchu gwell cyfraddau goroesi busnes.

4.5. Gan gyfeirio at y dystiolaeth, mae'r adroddiad yn nodi nifer o ystyriaethau. Mae'r materion a ganlyn yn berthnasol i'r adolygiad hwn:

- dylid datblygu modelau deori i weddu i economïau lleol ac yn arbennig natur gystadleuol yr amgylchedd y maent yn gweithredu ynddo
- prin yw'r dystiolaeth am yr effaith y gall gwahanol fathau o gymorth (e.e. digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddiant) ei chael
- nid oes tystiolaeth gref y naill ffordd na'r llall y dylid gadael deoryddion i'r sector preifat, a dylai ymyrraeth y sector cyhoeddus fod wedi'i hanelu at feysydd lle mae'r farchnad yn methu'n sylweddol
- mae cysylltiad a defnyddio ymchwil prifysgol fel rhan o gymorth deori yn ymddangos yn fwy defnyddiol na chynnwys academyddion unigol.

**Y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd mannau gwaith a rennir**

4.6. Canfu ymchwil gan y Kean Institute of Private Enterprise[32] fod manteision mannau cydweithio yn ymwneud ag:

[31] Business Advice Toolkit: Incubators | What Works Centre for Local Economic Growth (whatworksgrowth.org)
[32] Kean Institute of Private Enterprise (March 2019) Coworking spaces: working alone, together Coworking_04042019.pdf (unc.edu)

- effeithlonrwydd: er bod cost y gofod yn uwch na gofod swyddfa traddodiadol, mae defnyddwyr yn prynu mwy na gofod ac mae hwylustod y gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael ei werthfawrogi
- hyblygrwydd: mae gofod cydweithio yn darparu prydlesi hyblyg a threfniadau gweithio hyblyg
- dilysrwydd: mae gofod cydweithio yn helpu mentrau newydd i ymddangos yn fwy neu'n fwy dilys nag y maent mewn gwirionedd, o gymharu â gweithio gartref.

4.7. Canfuwyd bod manteision y gymuned gydweithio yn bwysig. Yn wir, canfu'r ymchwil nad y gofod ei hun yw'r prif reswm y mae pobl yn dewis gweithio mewn gofod cydweithio, ond yn hytrach y gymuned yn y gofod ac mae'n cynnwys:

- cysylltiadau: mae gofod cydweithio yn cynnig cyfle i rwydweithio ac mae'r rhyngweithio'n aml yn arwain at gleientiaid, gweithwyr a buddsoddwyr newydd ac ati
- atebion: mae llawer o entrepreneuriaid yn dibynnu ar gymorth gan aelodau eraill o'r gymuned i ddatrys problemau ac i ateb cwestiynau
- egni a chymhelliant: mae bod yng nghanol entrepreneuriaid eraill yn rhoi egni a chymhelliant i bobl, ac mae 'naws' y gofod yn bwysig
- cefnogaeth gymdeithasol: gall gwaith entrepreneuraidd fod yn ynysig ac yn unig ac mae'r cyfeillgarwch a ddatblygir yn bwysig o ran gwneud gwaith yn fwy pleserus.

4.8. Nodwyd set debyg o fanteision sy'n gysylltiedig â chael mynediad at fannau gwaith a rennir gan waith ymchwil diweddar a wnaed gan The Melting Pot[33]. Amlygodd yr ymchwil chwe mantais a brofwyd gan ddefnyddwyr mannau gwaith a rennir:

- gwelliant mewn llesiant
- teimlo'n llai ynysig
- cyfleoedd ar gyfer cydweithio
- mynediad at rwydwaith eang
- datblygiad proffesiynol a chyfleoedd dysgu
- rhyngweithio anffurfiol a chyfleoedd cymdeithasol.

**Effaith y pandemig COVID-19 ar ddyfodol byd gwaith a'r swyddfa**

[33] The-Future-of-the-Office-Report-by-The-Melting-Pot.pdf (themeltingpotedinburgh.org.uk)

4.9. Mae astudiaethau amrywiol wedi ystyried effaith y pandemig ar ddyfodol gwaith a’r defnydd o fannau gwaith ffisegol, ac mae’n bwysig ystyried effaith y tueddiadau hyn ar y galw a’r defnydd o hybiau menter ledled Cymru. Amcangyfrifir y gallai rhyw 20 i 25 y cant o weithwyr mewn economïau datblygedig weithio o bell dri diwrnod neu fwy yr wythnos ar sail hirdymor yn y dyfodol ond mae i ba raddau y mae gweithio o bell yma i aros yn ansicr.[34]. Er y credir bellach bod yr honiadau o ‘farwolaeth y swyddfa’ a fynegwyd yn gynnar yn ystod y pandemig wedi'u gorliwio, mae’n debygol y bydd newid parhaol i drefniadau gweithio hybrid[35]. Mae’r newid hwn yn debygol o arwain at ddatblygu trefniadau cydweithio mwy lleol, gyda gweithwyr cartref yn chwilio am ffyrdd o oresgyn yr ynysigrwydd cymdeithasol sy’n gysylltiedig â gweithio gartref, yn ogystal â newid yn y galw am deithio, gweithgaredd hamdden, lletygarwch a gwariant manwerthu.

4.10. Mae un astudiaeth[36] yn nodi prif oblygiadau newid parhaol tuag at weithio o bell yn dilyn COVID-19 fel a ganlyn:

- mae'r rhan fwyaf o bobl yn chwilio am ddatrysiad lleol o ran eu man gwaith gan eu bod yn llai parod i gymudo'n bell, ac mae trefniadau cydweithio anffurfiol yn aml yn llenwi'r bwlch hwn. Hyd yn hyn, nid yw gofod cydweithio wedi'i gyflwyno eto i ardaloedd mwy maestrefol
- mae defnyddwyr yn ystyried bod mannau gweithio anffurfiol a rennir yn fwy buddiol na mannau ffurfiol, a bydd hyn yn effeithio ar lunio polisïau a buddsoddiadau yn y dyfodol
- mae offer digidol yn chwarae rhan gefnogol yn hytrach na rôl sylfaenol mewn cydweithio, er bod gweithwyr llawrydd ac entrepreneuriaid yn fwy tebygol o fod yn frwd ynghylch mabwysiadu offer digidol sy'n hwyluso agweddau cymdeithasol a chymunedol ar gydweithio
- efallai bod agweddau ac ymddygiad y gymuned o ddefnyddwyr yn bwysicach na’r cyfleusterau sydd ar gael mewn mannau gwaith a rennir, er bod angen amwynderau sylfaenol fel ceginau, ardaloedd bwyta a swyddfeydd o ansawdd da

[34] The future of work after COVID-19 | McKinsey tud.5
[35] https://www.emerald.com/insight/1463-578X.htm
[36] https://www.emerald.com/insight/1463-578X.htm

- gallai lleoliadau nad ydynt yn ganolfannau trefol sydd â gorgyflenwad o ofod llai mawreddog ond sy'n cyflawni ei ddiben greu cyfle i gyflwyno modelau newydd o fannau cydweithio yn y dyfodol.

4.11. Mae rhai o’r ystyriaethau allweddol ar gyfer hybiau menter yn cynnwys y canlynol:

- mae gweithio o bell a chyfarfodydd rhithwir yn debygol o barhau, a bydd hyn yn effeithio ar ganolfannau trefol ac anghenion llety busnesau. Gall y galw am ofod mewn canolfannau trefol mwy ostwng o blaid gofod lleol mewn maestrefi a chanolfannau llai
- gall busnesau ymateb drwy ailystyried ble a sut y mae gwaith yn cael ei wneud a dod o hyd i ffyrdd newydd o gyflogi gweithwyr drwy dasgau yn hytrach nag ar gyfer swyddi cyfan
- mae’r galw am alwedigaethau â chyflogau uchel yn debygol o gynyddu tra bod galwedigaethau â chyflogau isel yn debygol o ostwng gan olygu bod angen i fwy o weithwyr newid galwedigaeth er mwyn bodloni'r galw
- gallai llunwyr polisïau ganolbwyntio ar ehangu seilwaith digidol a chefnogi gweithwyr sy’n pontio o un alwedigaeth i'r llall.[37]

4.12. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan y Melting Pot, sy’n darparu gofod cydweithio yn yr Alban, yn ymchwilio i sut y mae COVID-19 wedi newid y ffordd y mae pobl yn defnyddio mannau gwaith ac yn ystyried ei effaith ar y sector arloesi cymdeithasol yn yr Alban. Mae llawer o’i ganfyddiadau’n berthnasol i’r materion sy’n wynebu Hybiau Menter yng Nghymru:

- mae'r pandemig wedi ymuno â thechnoleg fel un o'r prif ffactorau sy'n tarfu ar y defnydd o ofod swyddfa
- mae gweithio o bell wedi arwain at dimau mwy gwasgaredig, blaenoriaethu gweithio o bell fel mesur hirdymor a symud allan o swyddfeydd neu symud i swyddfeydd llai.
- o ran tueddiadau yn y dyfodol, mae'n debygol mai dim ond yn rhan amser y bydd y rhan fwyaf o bobl eisiau dychwelyd i’r swyddfa, mae cwmnïau’n bwriadu cwtogi ar ofod swyddfa ac mae sefydliadau’n cefnogi newid yn barhaol i drefniadau gweithio mwy hyblyg

[37] The future of work after COVID-19 | McKinsey tud.5

- bydd mwy o alw am fannau gwaith hyblyg wrth i'r economi adfer o'r pandemig ac mae'r galw'n debygol o ddod gan sefydliadau a mentrau mwy wrth iddynt geisio datganoli a newid i dimau sy'n gweithio o bell.
- bydd swyddfeydd yn y dyfodol yn canolbwyntio mwy ar ofod ar gyfer y gymuned, cydweithio ac arloesi a bydd newid pwyslais o bresenoldeb i'r canlyniadau a gyflawnir
- mae ymchwil yn awgrymu bod pobl eisiau mwy o ymreolaeth dros pryd a ble y maen nhw'n gweithio, a bod trefniadau gweithio hyblyg yn helpu i gynyddu cynhyrchiant a gwella llesiant a boddhad pobl gyda'u gwaith
- mae angen gwahanol fathau o ofod ar fannau gwaith oddi cartref, o ystafelloedd preifat ar gyfer galwadau fideo i fannau a rennir ar gyfer cydweithio ac arloesi
- 'nid yw pobl eisiau dod i swyddfa i eistedd wrth yr un ddesg bob dydd mwyach, maen nhw eisiau mannau gwaith amlswyddogaeth ac ymdeimlad o gymuned'.

4.13. Mae tystiolaeth hefyd bod cyflogwyr yn ailwampio eu swyddfeydd er mwyn diwallu anghenion patrymau gwaith hybrid yn well:

'Mae dyddiau'r strwythurau cymdeithasol a ffisegol anhyblyg yr oedd llawer o gwmnïau'n credu eu bod yn hanfodol i amgylchedd gwaith cynhyrchiol wedi hen ddiflannu. Yr hyn sydd wedi cymryd ei le yw dyluniadau mwy hyblyg, ac ardaloedd cymunedol sydd wedi'u bwriadu i feithrin gwaith tîm, creadigrwydd ac ymdeimlad o gysylltiad a gollwyd yn ystod y pandemig'[38].

4.14. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd amgylcheddau gwaith yn esblygu i ganolbwyntio ar:

- ofod at ddibenion cymdeithasol a chydweithio a llai o ddesgiau i alluogi pobl i gwrdd â chydweithwyr o bryd i'w gilydd gan gadw'r hyblygrwydd i weithio o gartref
- tasgau pwrpasol megis gwaith cydweithredol, cyfarfodydd a sesiynau trafod syniadau yn hytrach na phobl yn gweithio ar eu pen eu hunain wrth ddesg
- dodrefn amlbwrpas y gellir eu symud i wneud lle ar gyfer trefniadau cydweithio yn ogystal â chreu ardaloedd tawelach ar gyfer tasgau penodol
- iechyd a llesiant y defnyddiwr drwy greu lleoliad cadarnhaol ac adferol i weithio ynddo, gyda phwyslais ar ymarfer corff a mynediad at natur[39].

[38] Hybrid work: What the office could look like now - BBC Worklife
[39] Hybrid work: What the office could look like now - BBC Worklife

**Mannau gwaith eraill a rennir a hybiau cymorth busnes eraill: arfer da**

4.15. Mae adolygiad pen desg o fannau gwaith a rennir a hybiau cymorth busnes ledled y DU ac Iwerddon yn awgrymu, o ran arfer cyffredin ac arferion da, bod hybiau'n cynnig y canlynol yn gyffredinol:

- amrywiol gynigion arbennig o ran aelodaeth: mae'r rhain yn cynnwys aelodaeth flynyddol neu fisol neu docynnau diwrnod. Mae sawl hwb yn cynnig tocynnau diwrnod cychwynnol am ddim neu docynnau diwrnod rheolaidd am ddim e.e., sesiynau am ddim ar ddydd Gwener, ac mae un hwb yn cynnig bargen aelodaeth lolfa lle y gall aelodau gael mynediad at amgylchedd gwaith hamddenol yn hytrach na desg/gofod swyddfa.
- mynediad i wahanol fathau o fannau gweithio boed hynny'n ofod swyddfa penodedig, desgiau poeth, mannau gweithio preifat, a mannau gweithio cymunedol. Mewn rhai achosion, mae hybiau'n cynnig mynediad i aelodau i swyddfeydd a rennir lle y gallant ddefnyddio gofod pwrpasol am yn ail ag aelod arall. Mewn achosion eraill, e.e. Mindspace[40], caiff trefniadau hybrid eu mabwysiadu sy'n galluogi busnesau i dalu am y gofod swyddfa sydd ei angen arnynt gan ganiatáu iddynt ddefnyddio swyddfa gweithiwr arall am yn ail yn ôl yr angen
- trefniadau hyblyg i aelodau, gyda mynediad hawdd i mewn ac allan o gyfleusterau
- trefniadau hollgynhwysol: lle mae'r ffi fisol sefydlog a delir yn cwmpasu'r holl wasanaethau gan gynnwys defnydd cyfyngedig o ystafelloedd cyfarfod
- caffi ac (yn achlysurol) bar ar y safle
- mynediad i fannau/ystafelloedd cyfarfod anffurfiol a ffurfiol yn ogystal â gofod ar gyfer digwyddiadau sy'n addas ar gyfer rhwydweithio neu ddigwyddiadau lansio
- ystod eang o fanteision sy'n gysylltiedig ag aelodaeth: gan gynnwys clybiau brecwast wythnosol, digwyddiadau cymdeithasol, cyfleoedd rhwydweithio, cardiau campfa a chardiau dosbarthiadau ffitrwydd. Mae rhai hefyd yn cynnig manteision ad-hoc fel cacen, coffi neu ddiod o gwrw wythnosol am ddim
- amgylcheddau gwaith creadigol, ysbrydoledig sydd wedi'u dylunio'n dda
- cymorth cofleidiol i fusnesau ac entrepreneuriaid newydd: gan gynnwys sgyrsiau gan siaradwyr gwadd, a chymorth a chyngor busnes

[40] Hafan - Mindspace

- cymorth swyddfa rhithwir: gan gynnwys ymdrin â phost, anfon post ymlaen, cyfeiriad cofrestredig ar gyfer Tŷ'r Cwmnïau, rhifau ffôn lleol a lleoliad niwtral[41].

4.16. Canfu'r adolygiad desg hefyd rai enghreifftiau o hybiau cydweithio menter a oedd yn cynnig gwasanaethau a darpariaeth fwy unigryw. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- gofod creu: er enghraifft, mae gan hwb cydweithio DoES yn Lerpwl[42] weithdy gydag argraffwyr 3D, peiriannau torri laser, argraffydd arddurnoli, gwasg boeth, torwyr finyl, mainc electroneg, peiriannau gwnïo a gwau
- trefniadau cydweithio sy'n gyfeillgar i blant: cyflwynwyd hyn yn DoES Lerpwl yn ddiweddar. Nid yw'n gweithredu ar sail talu ffi fel crèche ond yn hytrach mae cynllun peilot yn cael ei gyflwyno lle y gall rhieni ddod â'u plant i'r hwb ble y ceir mwy o gydgyfrifoldeb i ofalu amdanynt.
- dwmbwr dambar (helter-skelter) tri llawr newydd yng nghanolfan fenter Electric Works yn Sheffield[43] sy'n honni mai dyma'r llithren fwyaf mewn unrhyw adeilad swyddfa yn y DU!

**Astudiaethau achos o hybiau menter eraill a mannau gwaith a rennir**

4.17. Cyflwynir yr enghreifftiau canlynol fel astudiaethau achos unigol gan eu bod yn dangos themâu neu bwyntiau penodol.

***Enghreifftiau o hybiau menter cydweithio sy'n seiliedig ar sectorau***

4.18. Awgryma'r adolygiad desg fod hybiau menter sy'n canolbwyntio ar sector penodol yn tueddu i gefnogi mentrau sy'n gweithredu ar draws y sectorau creadigol, digidol, technoleg a chyfryngau e.e. mae'r techcube yng Nghaeredin[44] yn canolbwyntio ar dechnoleg a'r celfyddydau. Canfu ein hymchwil hefyd un enghraifft o hwb menter amgylcheddol a sefydlwyd yn ddiweddar.

**Baltic Creative, Lerpwl[45]**

Gofod masnachol ar gyfer **diwydiannau creadigol a digidol** yw hwn sy'n cefnogi busnesau newydd, microfusnesau, BBaCh, gweithwyr llawrydd ac entrepreneuriaid. Mae'n cael ei redeg gan Gwmni Buddiannau Cymunedol (CBC)

[41] Er enghraifft, fel sydd ar gael yn Avenue HQ: Virtual Business Services - Avenue HQ (avenue-hq.com)
[42] DoES Liverpool - Coworking, Events and Makerspace
[43] helter skelter | electric works (electric-works.net)
[44] Techcube
[45] Baltic Creative CIC - Creative And Digital Spaces In Liverpool (baltic-creative.com)

a gafodd gyllid grant ERDF a NWDA i adnewyddu 18 o warysau mewn ardal lled-adfeiliedig yn Lerpwl sy'n cael ei galw'n driongl Baltig. Yn ôl ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019[46], lle roedd yn dathlu 10 mlynedd o fasnachu, dywedwyd bod y 118,000 troedfedd sgwâr o ofod sydd ar gael wedi cefnogi dros 180 o gwmnïau sy'n cyflogi mwy na 600 o staff. Mae mannau ar draws adeiladau amrywiol yn cynnwys stiwdios ar gyfer artistiaid a gwneuthurwyr, caffis a bariau ar y safle, mannau cyfarfod a rhwydweithio. Mae llwyddiant y CBC wedi golygu ei fod wedi ehangu i ardaloedd eraill ar draws Rhanbarth Dinas Lerpwl i ddarparu gofod ar gyfer y diwydiant creadigol a digidol. Roedd Adroddiad Blynyddol 2019 yn nodi uchelgais i ddyblu ei ôl troed i 250,000 troedfedd sgwâr erbyn 2024.

Mae'r ffactorau llwyddiant hollbwysig ar gyfer Baltic Creative fel a ganlyn:

- y ffaith bod y sector creadigol a'r sector digidol yn cyd berchen ar yr eiddo
- galw mawr gan denantiaid presennol sy'n dymuno tyfu a meddiannu gofod mwy a thenantiaid newydd sy'n dymuno manteisio ar ofod
- ailfuddsoddi parhaus yn yr ôl troed presennol, gan gynnwys mwy o led band o ran band eang a gwaith adnewyddu
- cyfraddau cadw uchel ymhlith tenantiaid (tua 10 y cant o denantiaid sy'n gadael bob blwyddyn)
- darparu rhaglen iechyd a llesiant fel llogi beiciau am ddim, mynediad i glwb rhedeg a digwyddiadau cymdeithasol
- darparu rhaglenni cymorth busnes mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

**Hwb Menter Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Gweithredu ar yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd (CECAS)**

Mae'r CECAS wedi'i lleoli yng Ngorllewin Cork, Iwerddon ac fe'i sefydlwyd yn gymharol ddiweddar i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Ei nod yw denu ac arddangos sefydliadau academaidd a masnachol i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng bioamrywiaeth a gwella'r economi gylchol. Mae'n bwriadu datblygu gwahanol hybiau gweithgaredd. Bydd un o'r hybiau hyn yn **hwb menter amgylcheddol a bioamrywiaeth** a'r bwriad yw y bydd CECAS yn

[46] BALTIC-CREATIVE-Master-version-for-web-compressed-2-10-year-Report-210-x-210-1.pdf

ymgysylltu â busnesau, diwydiant ac entrepreneuriaid amgylcheddol ac yn trefnu digwyddiadau, arddangosfeydd a darlithoedd.

### *Enghraifft o hybiau menter cydweithio a arweinir gan brifysgol*

**The Engine Shed, Bryste**[47]

Hwb a arweinir gan Brifysgol Bryste mewn cydweithrediad â Chyngor Dinas Bryste a Phartneriaeth Menter Leol Gorllewin Lloegr yw The Engine Shed ac mae wedi'i leoli yn Ardal Fenter Temple Quarter ar gyfer busnesau, entrepreneuriaid, academyddion ac arloeswyr cymdeithasol. Mae'n cynnig mannau cyfarfod ar gyfer digwyddiadau a swyddfeydd a desgiau i weithio ohonynt. Gall mannau ar gyfer digwyddiadau gynnwys cyfarfodydd preifat, digwyddiadau rhwydweithio a digwyddiadau lansio cynnyrch. Ceir lolfa sy'n cynnig cymysgedd o fythau, byrddau, soffas a phodiau i weithio ohonynt. Ceir mynediad ar sail aelodaeth flynyddol neu ar sail talu-wrth-fynd (£20 y dydd). Mae'r Engine Shed yn defnyddio'r gwarged y mae'n ei gynhyrchu o'r adeilad i gyflawni prosiectau sy'n ymwneud â thwf, cynhwysiant ac arloesedd. Mae'r rhain yn cynnwys gwyliau technoleg, gwaith gydag ysgolion, a chymorth ar gyfer cyfarfodydd sy'n seiliedig ar arloesi.
Mae The Boxworks, sy'n rhan o'r Engine Shed ac sy'n cael ei gynnal gan Forward Space[48], yn cynnwys ugain o gynwysyddion llongau sy'n darparu gofod i fusnesau technoleg, busnesau'r cyfryngau a busnesau creadigol. Mae'r rhain yn addas ar gyfer hyd at chwech o bobl ac yn cael eu prydlesu'n fisol am £1,000 y mis.

### *Enghraifft o hwb menter cydweithio sy'n croesawu cynaliadwyedd*

**Runway East**

Gan weithredu ar draws chwe lleoliad yn Llundain a Bryste, dyma un hwb menter sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae wrthi'n datblygu

[47] Homepage - Engine Shed (engine-shed.co.uk)
[48] Home - Forward Space. Maent hefyd yn darparu gofod cydweithio arall ar draws Bryste, Gwlad yr Haf a Chaerwysg

strategaeth lawn a fydd yn cael ei hategu gan adroddiad effaith blynyddol. Yn y cyfamser, mae wedi cyflwyno newidiadau allweddol yn ddiweddar gan gynnwys:

- ynni a gwastraff: y defnydd o thermostatau clyfar a synwyryddion presenoldeb i leihau’r defnydd o ynni, compostio gwastraff bwyd a defnyddio ynni adnewyddadwy
- adeiladau newydd: yn ystod y gwaith gosod, ailgylchu'r holl ddeunyddiau gwastraff adeiladu os oedd hynny'n bosibl, ffafrio deunyddiau wedi'u hailgylchu mewn gosodiadau a gwaredu deunyddiau gwastraff peryglus mewn ffordd gyfrifol
- gwasanaethau safle: defnyddio cynhyrchion glanhau nad ydynt yn wenwynig, cynyddu cyfleusterau storio beiciau i annog pobl i feicio a lleihau'r defnydd o blastig untro ar y safle

Mae hefyd yn nodi'r mesurau y mae wedi'u cymryd i gefnogi cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cefnogi busnesau lleol: drwy ffafrio cyflenwyr lleol a lleiafrifol, cyfrannu'r holl elw o werthiannau bwyd a diod ar y safle i elusennau lleol a darparu mannau am ddim i elusennau lleol a grwpiau cymunedol gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd am ddim
- cynhwysiant: toiledau niwtral o ran rhywedd, proses recrwitio ddall er mwyn lleihau rhagfarn a man penodol y gellir ei archebu am ddim i weddïo ac ar gyfer anghenion mamolaeth
- cyflogwyr da: amrywiaeth o fanteision i gyflogeion, diwrnodau iechyd meddwl a chymorth iechyd meddwl, talu cyflog byw ac amser i ffwrdd â thâl er mwyn i gyflogeion wirfoddoli.

### *Enghraifft o hwb menter cydweithio i fenywod*

**The Tribe - man gwaith i fenywod, Dyfnaint[49]**

The Tribe yw'r unig ofod cydweithio pwrpasol ar gyfer entrepreneuriaid benywaidd a ganfuwyd gan ein hymchwil. Man cymunedol bach yn Totnes, Dyfnaint, yw hwn. Fe’i sefydlwyd gan ddylunydd mewnol, Stacey Sheppard, a oedd yn cydnabod pwysigrwydd gweithle ysbrydoledig a chyfforddus er mwyn cynyddu cynhyrchiant a

[49] Our Space - The Tribe (thetribecoworking.co.uk)

hapusrwydd yn y gwaith. Yn ogystal â'r cyfleusterau cydweithio nodweddiadol, mae hefyd yn cynnig tariff hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno am bris gostyngol i'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y gofod rhwng 9.30am a 3pm.

Yn ystod y pandemig, sefydlodd yr hwb The Tribe Online. Grŵp preifat y codir tâl amdano yw hwn, sy'n caniatáu i aelodau ryngweithio a chefnogi ei gilydd yn rhithwir, drwy Facebook a Zoom. Trefnwyd galwadau zoom grŵp rheolaidd i rannu cyflawniadau, trafod heriau, a thaflu syniadau. Gwahoddwyd siaradwyr gwadd i rannu eu gwybodaeth a'u profiad. Cynhaliwyd sesiynau cydweithio rhithwir hefyd lle yr ymunodd menywod am sesiwn waith 90-munud i rannu'r hyn y maent yn gweithio arno, mynd i ffwrdd a'i wneud, a rhoi diweddariad ar gynnydd ar y diwedd. Cyflwynwyd clwb llyfrau ar-lein yn ystod y pandemig i helpu i fynd i'r afael ag ynysu.

Mae The Tribe hefyd yn cynnig sesiynau cymorth busnes y codir tâl amdanynt sy'n cwmpasu agweddau megis dechrau busnes, tyfu busnes, marchnata, cysylltiadau cyhoeddus ac ati.

### *Hwb menter cydweithio gyda ffocws ar gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith*

**Colony, Manceinion**[50]

Rhwydwaith o fannau gwaith hyblyg ym Manceinion yw Colony ar gyfer pobl greadigol, entrepreneuriaid, gweithwyr llawrydd, busnesau newydd a chwmnïau sefydledig. Gall cleientiaid gael mynediad i ofod swyddfa preifat, gofod cydweithio ar sail tocyn diwrnod neu aelodaeth a llogi ystafelloedd cyfarfod. Gall cleientiaid gael mynediad at ddesg bwrpasol, desg yn ôl yr angen gyda'r opsiwn i ddefnyddio unrhyw un o dri lleoliad Colony neu docyn diwrnod ar gyfraddau gwahanol. Mae gan ddefnyddwyr fynediad i'r gweithle 24-7 ac maent hefyd yn elwa o dderbynfa â gwasanaeth, cyfleusterau trin post, seminarau a digwyddiadau.

[50] Colony – Central Manchester coworking desk space & offices (colonyco.work)

Mae cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn rhan bwysig o Colony a gall yr aelodau fanteisio ar ddosbarthiadau ioga a myfyrio, sesiynau blasu jin neu ddigwyddiadau lle ceir arddangosfeydd gan werthwyr bwyd lleol.

### *Hwb menter cydweithio ar gyfer mentrau cymdeithasol*

**The Melting Pot, Caeredin**[51]

Canolfan ar gyfer arloesi cymdeithasol yw hon ac mae'n honni ei bod yn un o'r cymunedau cydweithio hynaf yn y byd. Mae’n cynnig atebion hyblyg a chreadigol i weithwyr llawrydd, gweithwyr o bell, busnesau bach, a sefydliadau mawr sy’n gweithredu yn y trydydd sector. Mae'n darparu cyfleusterau cydweithio hyblyg a desgiau poeth yn ogystal â threfniadau llogi desgiau sefydlog. Mae hefyd yn trefnu digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio a gall yr aelodau logi'r gofod ar gyfer eu digwyddiadau grŵp eu hunain, megis digwyddiadau lansio. Mae'n trefnu digwyddiadau fel cinio i aelodau, diodydd ar ddydd Gwener a sesiynau 'dangos a dweud' i aelodau. Yn ogystal â'r gwasanaethau y telir amdanynt, mae hefyd yn cynnig diwrnodau agored ar gydweithio am ddim.

Mae gwasanaethau swyddfa rhithwir y ganolfan yn cynnwys:

- gwasanaeth sganio i e-bost ar gyfer unrhyw bost a dderbynnir
- cyfeiriad post gyda blwch post personol
- man dosbarthu a chasglu diogel a chanolog ar gyfer y post
- llinell ffôn sefydlog gyda gwasanaethau i anfon galwadau ymlaen a negeseuon personol.

### *Enghreifftiau o hybiau menter cydweithio gwledig*

**The Ludgate Hub yng Ngorllewin Cork, Iwerddon**[52]

Mae The Ludgate Hub yng Ngorllewin Cork yn cefnogi busnesau, busnesau newydd, entrepreneuriaid, pobl greadigol ac artistiaid. Mae'n gweithredu ar sail aelodaeth ac yn darparu gofod cydweithio, ystafelloedd swyddfa preifat, cyfleusterau desgiau poeth, yn ogystal â mannau cyfarfod a rhwydweithio.

[51] Coworking, Venue Hire, Virtual Offices in Edinburgh | The Melting Pot (themeltingpotedinburgh.org.uk)
[52] https://www.ludgate.ie/

Mae'n disgrifio ei hun fel 'ecosystem i fusnesau newydd' ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflwyno rhaglen gychwynnol gynhwysfawr sy'n cynnwys cyngor, hyfforddiant, a mynediad am ddim i ofod. Mae rhai o agweddau mwy arloesol y model yn cynnwys:

- model intern a rennir: prosiect peilot yw hwn sy'n galluogi busnesau sydd wedi'u lleoli yn y ganolfan i gael mynediad at fyfyriwr intern a rennir, a thrwy hynny ddarparu ystod ehangach o brofiad i ddeiliad y swydd, a chaniatáu i'r busnes ehangu'n raddol. Mae deiliad y swydd yn cael ei gefnogi gan gydlynydd yr hwb hefyd
- awr mentor: mae'r hwb yn cydlynu rhaglen fentora ar gyfer busnesau newydd a busnesau cyfnod cynnar
- cyfres o ddigwyddiadau hybu: sy'n cael eu cynnal unwaith bob chwe wythnos ac yn cynnwys digwyddiadau a gyflwynir gan siaradwyr gwadd ar themâu fel digideiddio eich busnes a marchnata. Mae'r cyflwyniadau hyn wedi cael eu recordio ac maent ar gael ar wefan yr hwb.

Mae The Ludgate Hub hefyd wedi gosod ei hun fel ffynhonnell wybodaeth i bobl sy'n ystyried adleoli i'r ardal wledig yn ne-orllewin arfordir Iwerddon ac mae'n darparu gwybodaeth fanwl am fyw yng ngorllewin Cork (e.e. prisiau tai a rhent, addysg, diwylliant, y celfyddydau, a gweithgareddau/diddordebau). Mae'n gweithio gyda Grow Remote, grŵp cymunedol dielw sy'n hyrwyddo gweithio o bell yn Iwerddon ac yn hyrwyddo cyfleoedd gwaith sydd ar gael yn yr ardal ar ei wefan.

**The Clay Factory, Dyfnaint**[53]

Mae The Clay Factory yn cael ei rhedeg gan elusen o'r enw RedPod Enterprises sydd wedi trawsnewid gwaith clai tsieni yn ofod amlddefnydd sy'n llogi desgiau ar sail ad hoc, ac mae'n cynnig swyddfeydd hunangynhwysol, ystafelloedd cyfarfod, unedau diwydiannol bach a mawr a mannau hyfforddi. Mae'r hwb gwaith yn darparu mannau gwaith hyblyg a moesegol gyda thelerau sy'n ei gwneud hawdd i

ymuno / gadael. Mae hefyd yn cynnig pecyn misol i bobl sydd am ddefnyddio'r cyfleusterau yn achlysurol. Gan ddisgrifio eu cynnig fel 'dewis ffynci amgen i'r rhai sy'n dymuno dianc o weithio gartref' mae'r Clay Factory wedi cyflwyno cytiau traeth yn ddiweddar fel gofod i bobl sy'n dymuno cael desg boeth, gan eu bod yn darparu amgylchedd mwy preifat ar gyfer galwadau Teams/Zoom.

**Mapio hybiau menter eraill a mannau gwaith eraill a rennir ledled Cymru**

4.19. Yn ogystal â'r pum hwb sy'n rhan o'r gwerthusiad hwn, nododd ein hadolygiad nifer o hybiau busnes a mannau gwaith eraill a rennir ledled Cymru, y mae rhai ohonynt hefyd yn cynnig cymorth tebyg i'r hyn sydd ar gael drwy Hybiau Menter Busnes Cymru. Mae'r rhestr yn Nhabl 4.1 yn seiliedig ar wybodaeth a nodir ar wefan Llywodraeth Cymru am ofod cydweithio yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd drwy ein hadolygiad. Mae'r rhestr yn ddefnyddiol i nodi ardaloedd sydd o bosibl eisoes yn cael eu gwasanaethu gan ofod ffisegol (boed hynny o'r sector preifat neu gyhoeddus) yn ogystal ag ardaloedd daearyddol lle mae'r farchnad yn methu. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag nad yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr ac nad yw'n adlewyrchu unrhyw fannau newydd a allai fod wedi'u sefydlu ers mis Mai 2022.

4.20. Mae'r tabl yn dangos bod pedwar cyfrannwr sector preifat allweddol (yn arbennig Town Square Spaces, Indycube, Business in Focus a Tramshed Tech) yn darparu 'rhwydwaith' o ofodau cydweithio ledled Cymru. Mae darparwyr eraill yn tueddu i fod yn fwy lleol, yn yr ystyr eu bod yn canolbwyntio ar un safle cydweithio a/neu'n gysylltiedig ag AU neu sefydliad ariannol.

**Tabl 4.1: Hybiau cydweithio a hybiau menter eraill yng Nghymru**

| Enw a lleoliad | Crynodeb byr |
|---|---|
| **Town Square Spaces**<br>• Cwrt, Llanisien, Caerdydd<br>• Costigan, Y Rhyl, Sir Ddinbych | Hwb menter yn Llanisien yw Cwrt[54] a lansiwyd ym mis Mawrth 2022 ac sy'n darparu swyddfeydd, mannau cydweithio, cymorth busnes a chymuned ar gyfer entrepreneuriaid, gweithwyr llawrydd, a busnesau newydd. Mae Costigan[55] yn y Rhyl yn darparu mannau |

[54] Coworking Space In Cardiff | Office & Hot Desking | Cwrt Coworking
[55] Home | Costigan's Coworking Space | Rhyl (costigansrhyl.co.uk)

| | |
|---|---|
| • Bae Abertawe (yn cael ei gynllunio)<br>• [Hwb Menter Wrecsam] | cydweithio tebyg, cymorth busnes a rhwydwaith cymunedol ar gyfer entrepreneuriaid, gweithwyr llawrydd, busnesau newydd a busnesau sy’n tyfu. Rheolir y ddau gan Reolwr Cymunedol penodedig. Mae amrywiaeth o opsiynau aelodaeth ar gael o docyn diwrnod (£20/diwrnod) i ddesg benodiedig (£249/mis). Mae rhaglen clwb Dechrau Busnes wythnosol hefyd yn cael ei chyflwyno ac mae ar gael yn bersonol ac ar-lein.<br>Gall unigolion sy’n gymwys ar gyfer bwrsariaeth Llywodraeth Cymru ddefnyddio gofod Costigan yn rhad ac am ddim am gyfnod o dri mis. Mae Costigan wedi derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy ei chronfa gweithredu Strategaeth Gweithio o Bell.<br>Caiff pob un o leoliadau Town Square Spaces ei ariannu drwy fodelau gwahanol: caiff Cwrt ei ariannu’n breifat tra bod Costigan yn cael cymorth gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae Town Square Spaces hefyd yn rheoli gofod cydweithio ledled Lloegr yn Bicester, Bognor Regis, Caer, a Barnstable. Mae hefyd wedi'i gontractio gan Business in Focus i reoli'r Hwb Menter yn Wrecsam. |
| **Indycube**<br>• Abertawe<br>• Caerdydd<br>• Casnewydd<br>• Doc Penfro (Sir Benfro) | Wedi’i lansio yn 2017, menter gydweithredol sy’n gweithredu ledled y DU yw Indycube. Ar hyn o bryd mae ganddo dri man gwaith hyblyg yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd ac mae ar fin agor pedwerydd yn Noc Penfro[56]. Mae tri phecyn aelodaeth gwahanol ar gael sef aelodaeth ran-amser (sy'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad at bum diwrnod desg y mis); pecyn 10 diwrnod desg y mis a phecyn amser llawn (gan ganiatáu dyddiau desg diderfyn y mis). Mae Indycube hefyd yn |

[56] Home (indycube.community)

| | |
|---|---|
| | darparu gofod desg ar-alwad drwy drefniant talu wrth fynd. Mae Indycube yn disgrifio'i hun fel rhwydwaith sy'n tyfu'n gyflym i weithwyr llawrydd a'r hunangyflogedig sydd â'r nod o wella gwaith o bell drwy adeiladu mannau gwaith cymunedol. Mae'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu buddsoddiad ariannol, hyfforddiant, mentora a throsglwyddo gwybodaeth anffurfiol. |
| **Hub Cymru**<br>• 15 o leoedd ar draws pum ardal awdurdod lleol | Prosiect peilot a gefnogir gan Indycube ac a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru yw Hub Cymru[57] a'i nod yw datblygu mannau gweithio o bell sy'n addas ar gyfer gweithwyr yn y sector preifat a chyhoeddus, gweithwyr llawrydd a gweithwyr hunangyflogedig o bell. Cyflwynwyd y peilot i ddechrau ar draws wardiau gwledig Abertawe ac roedd yn cynnwys ailwampio mannau masnachol a chymunedol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol ar gyfer gweithio o bell. Ers hynny mae'r prosiect wedi ehangu'n ddaearyddol ac mae'n cefnogi mannau gweithio o bell mewn chwe chanolfan gymunedol ar draws siroedd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Sir Fynwy[58] yn ogystal â naw lleoliad llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr. |
| **Gofod a Rennir**<br>• Caerfyrddin<br>• Hwlffordd<br>• Y Drenewydd[59] | Mae Business in Focus yn cynnal y tri Gofod a Rennir hyn[60] ar draws canolbarth a gorllewin Cymru. Maent yn darparu gofod cydweithio, yn profi mannau masnachu, mannau cyfarfod, swyddfa rithwir a chymorth i fusnesau newydd. Gall y rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, busnesau newydd a sefydliadau sefydledig ddefnyddio'r mannau hyn. Gellir cael mynediad i'r ddau ofod a rennir am ffi o £12 y dydd a gellir cael mynediad i'r gofod yn |

[57] HUB.CYMRU - Lleoliadau
[58] Dim ond man cyfarfod a chynadledda y mae'r lle yn Y Fenni, Sir Fynwy yn ei ddarparu
[59] Yr un man â Hwb Menter y Drenewydd yw Gofod a Rennir y Drenewydd ac mae Gofod a Rennir Caerfyrddin a Hwlffordd yn cael eu defnyddio fel swyddfeydd lloeren ar gyfer Hwb Menter Caerfyrddin
[60] Gofod a Rennir - Business In Focus

| | |
|---|---|
| | Hwlffordd hefyd am docyn hanner diwrnod am £8 y dydd. Codir ffi ychwanegol am ystafelloedd cyfarfod. |
| **Hwb rhaglen Accelerator NatWest,** Caerdydd | Rhaglen chwe mis wedi'i hariannu'n llawn[61] i entrepreneuriaid sydd eisiau tyfu a chynyddu eu busnes yw rhaglen Entrepreneur Accelerator Natwest. Rhaid i entrepreneuriaid wneud cais i'r rhaglen drwy broses ymgeisio gystadleuol. Rhaid i entrepreneuriaid fodloni un o bum maen prawf cymhwyster i wneud cais:<br>• twf uchel – o leiaf £8,000 o drosiant misol neu £50,000 o fuddsoddiad wedi'i sicrhau<br>• busnes sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd<br>• wedi'i arwain gan bwrpas - y busnesau hynny sy'n canolbwyntio ar fwy nag elw e.e., yn canolbwyntio ar effaith gymunedol, cyfrifoldeb cymdeithasol, cynaliadwyedd<br>• busnes yn y sector technoleg ariannol<br>• busnes yn y sector bwyd a/neu ddiodydd.<br>Gall entrepreneuriaid hefyd dreulio hyd at 18 mis[62] yn yr hwb Accelerator yng Nghaerdydd sy'n amgylchedd bywiog, cydweithredol sy'n darparu desgiau, mynediad i'r ecosystem leol o arbenigedd (fel arbenigwyr cyllid neu sector) a mynediad i nifer o ddigwyddiadau, gweithdai wedi'u harwain gan arbenigwyr a chyfleoedd rhwydweithio. Mae'r hwb hefyd yn caniatáu mynediad at entrepreneuriaid eraill i gael cymorth a hyfforddiant un-i-un. |
| **Tramshed Tech**<br>• Caerdydd<br>• Casnewydd | Sefydlwyd Tramshed Tech[63] yn 2016 ac mae'n darparu mannau cydweithredol i fusnesau gyfarfod a gweithio ynddynt. Ar hyn o bryd mae ar gael mewn dau leoliad, sef |

[61] Ar agor i bawb
[62] Cwsmeriaid NatWest yn unig
[63] Tramshed Tech | The Home of Startups in Wales

| | |
|---|---|
| • Y Barri<br>• Abertawe | Grangetown yng Nghaerdydd a Marchnad Casnewydd ac mae'n bwriadu agor pedwar lleoliad arall a'r rheini yng Nghaerdydd, Casnewydd, y Barri ac Abertawe. Mae'n cynnig amrywiaeth o becynnau aelodaeth gan gynnwys tocynnau diwrnod, tocynnau rhan-amser a thocynnau llawn amser am ffioedd gwahanol. Mae aelodau'n elwa o fynediad i ddesgiau, digwyddiadau cymdeithasol, sied feiciau, siop goffi, cyfleusterau argraffu a chyfarfodydd cymunedol. Darperir cymorth i fusnesau newydd, gan gynnwys rhaglen academi dechrau busnes 12 wythnos, yn ogystal â chymorth i ehangu a thyfu busnesau. |
| **Eagle Labs Barclays**, Caerdydd | Mae tîm Eagle Labs Barclays yn gweithredu yn Tramshed Tech, Caerdydd[64] i gefnogi entrepreneuriaid a busnesau lleol i sefydlu a thyfu. Mae'r cymorth sydd ar gael drwy raglen Eagle Labs yn cynnwys mannau deori a gweithio, mynediad at fentoriaid a hyfforddwyr, digwyddiadau ac ystod o raglenni ar gyfer menywod, cyn-filwyr, pobl LHDT+ ac arweinwyr busnes ethnig amrywiol. |
| **The Sustainable Studio**, Caerdydd | Sefydlwyd y Sustainable Studio yn 2016[65] ac mae'n gasgliad o wneuthurwyr, artistiaid a busnesau newydd creadigol wedi'u lleoli mewn warws diwydiannol ar Curran Road (a arferai fod yn ffatri arfau rhyfel) sydd wedi'i hailwampio i ddarparu gofod ar gyfer perfformiadau, arddangosfeydd, a sesiynau fideo. Mae'n cynnwys dros 20 o stiwdios fforddiadwy, siop gyfnewid gymunedol, gorsaf ail-lenwi a man cymunedol. Mae'r holl stiwdios wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau wedi'u hadfer ac mae'r holl ddodrefn a ffitiadau yn ail-law. |
| **Hybiau Gwaith Llesiant**, ar draws Cymoedd y De | Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cefnogi sefydlu hybiau gwaith llesiant[66] ar draws rhai o |

[64] Cardiff Eagle Lab | Barclays Eagle Labs (uk.barclays)
[65] HOME | coworking (thesustainablestudio.com)
[66] Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | |
|---|---|
| | safleoedd y Canolfannau Darganfod. Un hwb o'r fath sydd ar waith yw Parc Gwledig Llyn Llech Owain yn Sir Gaerfyrddin. |
| **The Alacrity Foundation** | Mae The Alacrity Foundation[67] yn cyflwyno cwrs entrepreneuriaeth 15 mis ar gyfer entrepreneuriaid graddedig sy'n rhoi hyfforddiant busnes ymarferol iddynt a sgiliau i ddechrau busnes. Mae entrepreneuriaid hefyd yn cael eu paru â mentoriaid ac yn cael profiad o bŵt-camps technoleg i greu'r genhedlaeth nesaf o gwmnïau technoleg. Ariennir y rhaglen yn rhannol gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei chefnogi gan brifysgolion. |
| **Stiwdio Sefydlu**, Prifysgol De Cymru | Mae Prifysgol De Cymru yn darparu gofod stiwdio i fusnesau newydd[68], ym Mhontypridd a Chaerdydd. Mae graddedigion Prifysgol De Cymru yn cael aelodaeth am ddim am hyd at dair blynedd ar ôl graddio a gallant gael mynediad i ofod cydweithio llawn amser neu ar sail galw heibio. Gall y rhai nad ydynt yn raddedigion ddefnyddio'r un cyfleusterau drwy dalu ffi o £10 y dydd. |
| **Hwb Aber**<br>Aberystwyth | Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael yn gyhoeddus am yr hwb busnes hwn, ac eithrio ei fod yn bwriadu agor yn fuan[69]. **Error! Hyperlink reference not valid.** |
| **Mannau Masnachu / Desgiau**<br>Ceredigion | Mae Antur Cymru yn bwriadu cynnal cynllun peilot blwyddyn o'r cyfleusterau hyn yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth. |

4.21. Y pwyntiau allweddol a wnaed gan gyfranwyr i'r adolygiad hwn am y lleoedd eraill hyn sydd ar gael yng Nghymru oedd:

[67] Entrepreneurship Course - Startup Education from Alacrity UK (alacrityfoundation.co.uk)
[68] USW Startup (entrepreneurship.wales)
[69] https://hwbaber.com/?msclkid=90298a8bb9b711ec94112cade63758a7

- bu twf diweddar yn argaeledd hybiau menter yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus ledled Cymru yn ddiweddar a fydd yn effeithio ar sut y dylid defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol
- er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod darpar ddefnyddwyr yn croesawu’r cysyniad o gael mynediad i ofod a rennir, nid yw hyn o reidrwydd wedi troi’n alw gwirioneddol. Mae darparwyr yn y sector preifat yn cael anhawster i lenwi’r lleoedd presennol ac mae perygl y gallai Llywodraeth Cymru fod yn cyllido rhywfaint o ddarpariaeth sy'n cystadlu'n uniongyrchol â datblygiadau newydd.

## 5. Hybiau Menter Busnes Cymru

5.1. Mae'r bennod hon yn nodi canfyddiadau'r adolygiad o ran datblygiad Hybiau Menter Busnes Cymru (Hybiau Menter), yr hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni a'u perfformiad yn erbyn targedau a ariennir. Mae'n seiliedig ar ddogfennau ar lefel rhaglen a gwaith maes gyda staff yr Hybiau Menter a rhanddeiliaid eraill.

**Cefndir**

5.2. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido amrywiaeth o wasanaethau cymorth busnes i ysbrydoli a chefnogi entrepreneuriaid i ddechrau a thyfu eu busnesau eu hunain, o dan faner Busnes Cymru. Mae Hybiau Menter yn un o gonglfeini pwysig gwasanaeth Busnes Cymru sydd wedi'i fwriadu i ddarparu un pwynt cyswllt i fusnesau ac entrepreneuriaid ledled Cymru ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth busnes.

5.3. Mae pum Hwb Menter wedi cael eu hariannu drwy wasanaeth Busnes Cymru ac roedd disgwyl iddynt ddarparu rhaglen o wasanaethau cymorth entrepreneuraidd i ddarpar entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar ar sail ranbarthol. Dyfarnwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) pedward o'r pum Hwb Menter, a chafodd un (Hwb Menter Drenewydd) gyllid gan Lywodraeth Cymru yn unig.

5.4. Cynigiwyd y cysyniad o Hwb Menter am y tro cyntaf yn 2017, pan ariannodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot yn Wrecsam i sefydlu hwb i ddarparu gofod a chymorth i entrepreneuriaid newydd ar draws gogledd-ddwyrain Cymru. Ariannwyd y prosiect peilot hwn drwy gontract cyflawni presennol Busnes Cymru, gyda Business in Focus yn ddarparwr Busnes Cymru a wnaeth is-gontractio'r gwaith o sefydlu Hwb Menter Wrecsam fel man deori ar gyfer entrepreneuriaid a busnesau newydd i Town Square Spaces.

5.5. Gan adeiladu ar y cynllun peilot hwn, gwahoddodd Llywodraeth Cymru ddarparwyr posibl i dendro am y gwaith o ddarparu pedair canolfan ranbarthol arall ar draws gogledd-orllewin Cymru, canolbarth Cymru, de-orllewin Cymru a de-ddwyrain Cymru. Disgwyliwyd y byddai'r Hybiau Menter hyn yn llenwi bwlch yn y ddarpariaeth cymorth busnes nad oedd yn cael ei ddiwallu gan ddarparwyr eraill ar y pryd. Disgwyliwyd y byddai'r Hybiau Menter yn darparu gwasanaethau cymorth entrepreneuraidd arloesol ar gyfer y rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes a busnesau cyfnod cynnar yn ogystal â darparu gofod creadigol, cydweithredol i entrepreneuriaid rannu, datblygu a gwireddu eu syniadau. Roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddarparwyr gyflawni'r rhaglen o un lleoliad

ffisegol, o gyfuniad o safle allweddol a lleoliadau lloeren, neu o safle allweddol gyda rhaglen o wasanaethau rhithwir. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i ddarparwyr ddarparu ystod o wasanaethau cymorth megis mentora, angylion busnes, dosbarthiadau ar ôl gwaith, cymorthfeydd busnes, hacathonau, rhwydweithio, digwyddiadau gwneud cynnig, cynadleddau, gweithdai, ac atebion arloesol eraill.

5.6. Yn dilyn proses dendro gystadleuol dyfarnwyd cyllid i bedwar Hwb Menter. Roedd yr hybiau hyn fel a ganlyn:

- Hwb Menter Ynys Môn a ddarperir gan Menter Môn yn M-Sparc, Gaerwen yn ogystal ag wyth lleoliad lloeren a lleoliadau dros dro eraill ar draws gogledd Cymru[70]
- Hwb Menter Caerfyrddin a ddarperir gan Business in Focus yn Yr Egin, sydd wedi'i leoli ar gyrion tref Caerfyrddin[71] ac yn fwy diweddar drwy ddau leoliad lloeren mewn Gofod a Rennir yng nghanol trefi Caerfyrddin a Hwlffordd
- Hwb Menter y Drenewydd a ddarperir gan Business in Focus yn adeilad Pryce Jones yn y Drenewydd[72]
- Hwb Menter Caerffili a ddarperir gan Ganolfan Arloesi Menter Cymru yn Nhŷ Britannia ar Barc Busnes Caerffili[73].

5.7. Yn ogystal â hynny, ehangwyd y trefniant presennol a oedd ar waith drwy wasanaeth Busnes Cymru ar gyfer yr Hwb Menter yn Wrecsam[74]. Parhaodd Town Square Spaces i gyflwyno'r ddarpariaeth ar ran Business in Focus yng nghanol dinas Wrecsam[75].

5.8. O ystyried bod gan ddarparwyr rywfaint o hyblygrwydd o ran sut y byddent yn darparu gwasanaethau, rhoddodd rhai, megis Hwb Menter Ynys Môn, fwy o bwyslais ar gyflawni drwy swyddfeydd lloeren tra bod eraill, megis Hwb Menter Caerffili, yn canolbwyntio mwy ar un lleoliad.

**Nodau ac amcanion**

5.9. Roedd disgwyl i Hybiau Menter gyflawni cyfres o amcanion craidd:

- darparu cymorth i ddarpar entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar ar sail leol a rhanbarthol

---

[70] Hafan — Hwb Menter (hwbmenter.cymru)
[71] Hwb Caerfyrddin (hwbsmenterffocws.cymru)
[72] Hwb y Drenewydd (hwbsmenterffocws.cymru)
[73] Canolfan Arloesi i Fusnesau Newydd yn Ne Cymru | ICE Cymru
[74] Hybiau Menter | Busnes Cymru (llyw.cymru)
[75] Hwb Menter Wrecsam | Busnes Cymru (llyw.cymru)

- cynyddu cyrhaeddiad a hygyrchedd y rhaglen o wasanaethau cymorth i entrepreneuriaid o un lleoliad ffisegol neu o gyfuniad o safle allweddol â lleoliad lloeren a gwasanaethau rhithwir
- datblygu a darparu gwasanaethau cymorth entrepreneuraidd y tu allan i oriau gwaith safonol
- darparu gwasanaethau cymorth entrepreneuraidd i feddianwyr rhan-amser a/neu amser llawn ac ystyried a ellir defnyddio’r ganolfan fel adnodd galw heibio
- sicrhau bod gwasanaethau cymorth i entrepreneuriaid yn ategu’r cymorth presennol sy’n cael ei gynnig, yn cyd-fynd ag ef ac yn ychwanegu gwerth ato yn hytrach na’i ddisodli neu ei ddyblygu
- darparu gwybodaeth ragweithiol a gwasanaethau cyfeirio i entrepreneuriaid sy'n defnyddi'r hwb ac i unigolion a busnesau nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau cymorth i entrepreneuriaid neu sy’n aflwyddiannus yn eu cais am gymorth o'r fath
- dod o hyd i ofod amgen neu ofod i symud ymlaen iddo ar gyfer cam nesaf taith fusnes entrepreneur pan ddaw’r rhaglen o wasanaethau cymorth i entrepreneuriaid i ben
- ymgysylltu â blaenoriaethau priodol sy’n dod i’r amlwg sy’n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu ar yr Economi newydd Llywodraeth Cymru (y Rhaglen Lywodraethu bellach).

5.10. Roedd disgwyl hefyd i’r Hybiau Menter chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo'r mudiad Creu Sbarc a gweithio gyda Chwmni Buddiannau Cymunedol Creu Sbarc i ysgogi ymgysylltiad.

5.11. Roedd cefnogaeth eang ymhlith cyfranwyr yr adolygiad hwn i gyflwyno cysyniad yr Hybiau Menter a chredwyd bod angen pendant am y ddarpariaeth. Yn gyffredinol, roedd y cyfranwyr o’r farn bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi cyflwyno Hybiau Menter mewn meysydd o fethiant yn y farchnad ond nodwyd bod yr adnoddau sydd ar gael yn golygu nad oedd yn bosibl rhoi sylw cynhwysfawr i’r holl feysydd lle roedd methiant yn y farchnad. Er enghraifft, nodwyd yn gyson nad oedd Hwb Menter wedi’i sefydlu yn nhrefi’r Cymoedd i fynd i’r afael â’r diffyg yno. Roedd y cyfranwyr hefyd o’r farn bod lleoli dau Hwb Menter yn M-Sparc ac ICE Cymru wedi galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth ychwanegol o’r cyllid, o ystyried bod y rhain eisoes yn bodoli ac yn gallu bwrw ati'n gyflym.

5.12. Roedd y cyfranwyr yn deall bod yr Hybiau Menter yn disgwyl cyflawni dwy swyddogaeth allweddol. Yn y lle cyntaf, disgwyliwyd y byddai'r Hybiau'n sicrhau bod amgylcheddau priodol ar gael ar gyfer cydweithio, rhwydweithio a sgyrsiau serendipaidd. Disgrifiwyd hyn yn aml fel hwyluso 'cymunedau o entrepreneuriaid.' Yn ail, disgwyliwyd y byddai'r Hybiau'n darparu cymorth unigol ac wedi'i deilwra i bobl sy'n dymuno dechrau a rhedeg eu busnes eu hunain. Cyfeiriodd rhai cyfranwyr at hyn fel darparu 'ecosystem gofleidiol ar gyfer yr unigolyn'.

5.13. Pwysleisiodd y staff cyflawni yn arbennig fod cylch gwaith yr Hybiau Menter yn llawer ehangach na darparu gofod cydweithio, yn yr ystyr bod ganddynt gylch gwaith pwysig i greu’r amgylchedd cywir ar gyfer busnesau newydd a dod â phobl ynghyd i rannu cyfleoedd ac i rwydweithio. Roedd lleoliadau cydweithio yn aml yn cael eu disgrifio fel 'gofod' tra bod Hybiau Menter yn fwy o 'ecosystem' neu 'gymuned'.

**Perfformiad yn erbyn targedau cyllido**

5.14. Roedd yn ofynnol i bob Hwb Menter gyflawni yn erbyn naw Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o’r broses dendro, fel yr amlinellir yn Nhabl 5.1.

**Tabl 5.1: DPA Hybiau Menter**

| | DPA | Hwb Menter targedau |
|---|---|---|
| 1 | Unigolion sy'n cael cymorth | 225 |
| 2 | Nifer y mentrau newydd sy'n cael cymorth | 150 |
| 3 | Cynnydd mewn cyflogaeth mewn menter â chymorth | 225 |
| 4 | Cynnydd mewn cyflogaeth ar gyfer swyddi sy'n ennill cyflog uwch na chyfartaledd Cymru | 25% |
| 5 | Unigolion sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau ymgysylltu cymunedol lleol yn flynyddol | 500+ y flwyddyn |
| 6 | Buddsoddi mewn mentrau | £1,000,000 |
| 7 | Mentrau yn dangos ffyrdd arloesol o weithio | 50% |
| 8 | Mentrau sy'n masnachu y tu allan i Gymru | 25% |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | Nifer yr astudiaethau achos unigol a busnes | 25 y flwyddyn, gan gynyddu 50% o flwyddyn i flwyddyn |

5.15. Mae'r tri DPA cyntaf hyn yn ddangosyddion ERDF ac wedi'u diffinio gan ganllawiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).[76]. Roedd yn ofynnol hefyd i Hybiau Menter gofnodi rhyw, ethnigrwydd ac anabledd yr unigolion a oedd yn cael cymorth a dangos tystiolaeth o swydd newydd drwy gontract cyflogaeth. Roedd disgwyl i ganolfannau gofnodi rhyw deiliad y swydd a grëwyd a band cyflog y swydd honno.

5.16. Nodir adolygiad o allbynnau a gyflawnwyd gan yr Hybiau Menter yn erbyn pump o'u DPA craidd[77] yn Nhabl 5.2. Mae'n dangos perfformiad da yn erbyn y targed unigolion a gynorthwyir ond perfformiad gwannach yn erbyn targedau eraill a ariennir.

**Tabl 5.2: Cyflawniadau'r Hybiau Menter ar ddiwedd mis Mawrth 2022**

| DPA | | Caerfyrddin | Y Drenewydd | Caerffili | Ynys Môn | Wrecsam [78] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Unigolion sy'n cael cymorth | 140 | 167 | 258 | 224 | 191 |
| 2 | Busnesau newydd sy'n cael cymorth | 55 | 63 | 50 | 128 | 94 |
| 3 | Cynnydd mewn cyflogaeth[79] | 179[80] | 79 | 106 | 162 | 132 |
| 5 | Buddsoddi mewn mentrau | £105,165 | £165,850 | £571,188 | £1,729,279 | £2,364,230 |
| 6 | Swyddi uwchlaw cyfartaledd Cymru[81] | 160 | 11 | 21 | 25 | Dd/b [82] |

[76] http://gov.wales/docs/wefo/publications/1604040-indicators-priority2.pdf
[77] Mae'r data'n cael eu casglu gan Lywodraeth Cymru o'i system rheoli cleientiaid BAS. Daw'r data ar gyfer y DPA craidd sy'n weddill o adroddiadau cynnydd misol yr Hybiau Menter a chânt eu hystyried yn ddiweddarach.
[78] Roedd gan Hwb Menter Wrecsam, fel menter beilot, allbynnau cytundebol gwahanol i'r pedwar Hwb Menter arall felly nid yw'n bosibl cymharu perfformiad.
[79] Wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf
[80] Gwaith yr Hwb mewn ffair swyddi sy'n gyfrifol am y ffigurau uchel ar gyfer cynnydd mewn cyflogaeth a swyddi uwchlaw cyfartaledd Cymru yn Hwb Menter Caerfyrddin.
[81] Wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf
[82] Nid oedd hwn yn DPA ar gyfer Hwb Menter Wrecsam

| DPA | | Targed cyffredinol cyfunol | Targed cyfunol a gyflawnwyd hyd yma | Wedi'i gyflawni hyd yma fel % o'r targed cyffredinol |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Unigolion sy'n cael cymorth | 1125 | 980 | 87% |
| 2 | Busnesau newydd sy'n cael cymorth | 750 | 390 | 52% |
| 3 | Cynnydd mewn cyflogaeth[83] | 1125 | 658 | 58% |
| 5 | Buddsoddi mewn mentrau | £5,000,000 | £4,935,712 | 99% |
| 6 | Swyddi uwchlaw cyfartaledd Cymru[84] | 25% | 217 | 36% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Ebrill 2022)

5.17. Mae’r pum Hwb Menter wedi cefnogi 980 o unigolion[85] dros gyfnod o 42 mis rhwng mis Medi 2018 a mis Mawrth 2022 a chyflawnwyd 87% o’u targed cyffredinol hyd yma. Gyda'i gilydd, mae angen iddynt gefnogi 145 o unigolion eraill dros gyfnod o chwe mis. Mae hyn yn debygol o fod yn gyraeddadwy er ei bod yn annhebygol y bydd dau hwb, sef Caerfyrddin, a’r Drenewydd, yn cyrraedd eu targedau ymgysylltu unigol. Mae dau Hwb Menter (Hybiau Menter Caerffili ac Ynys Môn) wedi cefnogi nifer fwy o unigolion na’r tri arall. Gellir esbonio hyn yn rhannol gan y ffaith bod cyfleusterau yn y lleoliadau hyn eisoes yn eu lle ac felly gallent fwrw ati'n gyflymach na'r tri arall, a oedd angen cyfnod i ymsefydlu.

5.18. Gyda’i gilydd, mae390o fentrau newydd wedi’u creu gyda chymorth yr Hybiau Menter dros yr un cyfnod, gyda Hwb Menter Ynys Môn yn perfformio gryn dipyn yn well na’r pedwar arall. O ystyried mai dim ond hanner ffordd tuag at gyrraedd y targed hwn y mae'r hybiau, mae’n annhebygol y bydd y DPA hwn yn cael ei gyflawni erbyn mis Medi 2022.

5.19. Mae cyfanswm o 658 o swyddi newydd wedi cael eu cefnogi gan yr Hybiau Menter, gyda Hybiau Menter Caerfyrddin ac Ynys Môn yn cyfrif am dros hanner y rhain.

5.20. Ers dyfodiad y pandemig COVID-19, mae Hybiau Menter hefyd yn adrodd ar nifer y bobl sydd wedi mynychu eu sesiynau rhithwir. Mae adolygiad o fynychwyr gweminarau ar draws y pum Hwb Menter rhwng mis Ebrill 2020 a mis Rhagfyr 2021 yn dangos bod cyfanswm o 20,150 o fynychwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau a gynhaliwyd gan bedwar o’r Hybiau Menter. Mae Tabl 5.3 yn nodi nifer y mynychiadau fesul hwb. Ar

[83] Wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf
[84] Wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf
[85] Wedi'i ddiffinio fel rhai sydd wedi derbyn o leiaf chwe awr o gymorth.

gyfartaledd, mae tua 960 o fynychwyr wedi cymryd rhan bob mis mewn gweminarau a gynhaliwyd ar draws y pedwar hwb sy'n awgrymu cyrhaeddiad helaeth o ran eu cymunedau.

**Tabl 5.3: Mynychwyr gweminar yr Hybiau Menter (Ebrill 2020 – Rhagfyr 2021)[86]**

| Hwb Menter | Mynychwyr gweminarau |
|---|---:|
| Ynys Môn | 3,172 |
| Y Drenewydd | 2,361 |
| Caerffili | 2,459 |
| Caerfyrddin | 1,865 |
| Cyfanswm | 20,150 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Chwefror 2022)

5.21. O ran perfformiad yn erbyn y DPA a ariannwyd, derbyniwyd yn gyffredinol bod nifer o Hybiau Menter wedi'i chael hi'n anodd cyrraedd eu targedau yn ystod cam cychwynnol y contract a ariannwyd, gyda hybiau newydd yn benodol yn cael anhawster i ymsefydlu ac ennyn diddordeb ymhlith darpar ddefnyddwyr. Cafodd dyfodiad y pandemig COVID-19 rhyw 18 mis ar ôl i'r cyfnod cyllido ddechrau effaith sylweddol ar allu'r Hybiau Menter i gyrraedd y targedau a ariannwyd, yn anad dim gan mai eu rheswm craidd oedd darparu gofod cydweithio a rhwydweithio ffisegol i entrepreneuriaid.

5.22. Awgryma adborth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth nad yw'r DPA a fabwysiadwyd yn adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth sydd ar gael gan yr hybiau, yn enwedig eu gwaith o ran cefnogi cymuned o entrepreneuriaid a rhwydweithio. Er bod contractwyr wedi cytuno i gyflawni yn erbyn y DPA a ariannwyd fel rhan o'r broses dendro, cafwyd galwad i unrhyw DPA yn y dyfodol hefyd gynnwys targedau sy'n adlewyrchu eu cylch gorchwyl 'meddalach' yn well, yn enwedig o ran eu gweithgareddau allgymorth, eu darpariaeth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, a chefnogi rhwydwaith o entrepreneuriaid. Awgrymwyd hefyd y gellid cyflwyno DPA yn y dyfodol ynghylch nifer yr atgyfeiriadau i Busnes Cymru, i annog hyn i ddigwydd ac i gyflawni mwy o synergedd â darpariaeth prif ffrwd.

5.23. Roedd y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cyflawni DPA hefyd yn cael ei hystyried yn gymhleth, yn enwedig ar gyfer y darparwyr hynny nad oeddent wedi ymwneud â chyflwyno unrhyw ddarpariaeth Busnes Cymru ac ERDF yn flaenorol. Ar y dechrau bu'n

[86] Nid yw Hwb Menter Wrecsam yn adrodd ar ddata mynychwyr gweminarau

her i gontractwyr llai profiadol ddeall yr hyn a oedd yn ofynnol ganddynt o ran casglu ac adrodd ar dystiolaeth i ddangos bod allbynnau'n cael eu cyflawni. Roedd contractwyr wedi tanamcangyfrif yr adnoddau a'r wybodaeth yr oedd eu hangen ar gyfer y dasg hon a chymerodd amser i rai wella ansawdd y dystiolaeth a gasglwyd i hawlio eu hallbynnau cyllido. Er mwyn mynd i'r afael â hyn a sicrhau bod tystiolaeth briodol yn cael ei darparu fel rhan o'u hawliadau, darparodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant a chymorth i gontractwyr. Er bod y gofynion monitro yn un o ofynion cyllid yr UE, roedd hefyd yn wir bod y darparwyr a ariannwyd o'r farn bod y gofynion monitro wedi bod yn 'feichus iawn'.

**Llwyddiannau yn ôl proffil demograffig**

5.24. Mae Tabl 5.4 yn dangos proffil demograffig y bobl a gefnogwyd gan yr Hybiau Menter hyd yma.

**Tabl 5.4: Proffil demograffig defnyddwyr yr Hybiau Menter (ar draws pedwar lleoliad, ac eithrio Hwb Menter Wrecsam)**

| | Cofrestriadau unigolion[87] | | Busnesau presennol sy'n cael cymorth sydd ag o leiaf un perchennog sy'n: | | Mentrau a grëwyd sydd ag o leiaf un perchennog sy'n: | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm hyd yma | Fel % o'r cyfanswm hyd yma | Cyfanswm hyd yma | Fel % o'r cyfanswm hyd yma | Cyfanswm hyd yma | Fel % o'r cyfanswm hyd yma |
| Gwrywaidd | 535 | 36% | 90 | 40% | 156 | 43% |
| Benywaidd | 848 | 57% | 126 | 57% | 202 | 55% |
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 65 | 4% | 2 | 1% | 16 | 4% |
| Anabl | 77 | 5% | 9 | 4% | 11 | 3% |
| Siaradwyr Cymraeg | 291 | 19% | 40 | 18% | 114 | 31% |
| Pobl ifanc dan 25 oed | 109 | 7% | 14 | 6% | 43 | 12% |
| Cyfanswm hyd yma | 1,496 | 100% | 223 | 100% | 364 | 100% |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mai 2022)

[87] Mae'r data 'cofrestriadau unigol' yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr unigol sy'n llenwi ffurflenni cofrestru'r Hybiau Menter. Mae'r niferoedd a gofnodwyd ar gyfer pob grŵp yn dynodi nifer y busnesau cofrestredig neu unigolion cofrestredig sydd wedi'u hysbrydoli i greu menter sydd â pherchnogion ym mhob categori priodol. Gallai un busnes fod â pherchennog gwrywaidd a pherchennog benywaidd, yn ogystal â bod yn y naill gategori neu'r llall. Felly ni fydd y categorïau byth yn cyfateb i gyfanswm y cofrestriadau. Noder hefyd bod rhai busnesau wedi dewis peidio â datgelu gwybodaeth ddemograffig drwy ddewis 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

5.25. Mae'n bosibl gwneud y sylwadau a ganlyn ar y data demograffig a adroddwyd gan yr hybiau:

- mae dros hanner y cofrestriadau yn yr Hybiau Menter yn fenywod ac mae gan dros hanner y busnesau sy'n cael cymorth ac yn cael eu creu berchennog benywaidd, sy'n awgrymu bod Hybiau Menter yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at weithgarwch entrepreneuraidd benywaidd
- mae cyfran yr unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sydd wedi cofrestru gyda Hybiau Menter, sef 4 y cant, yn cyd-fynd yn fras â'r 4.9 y cant[88] o bobl yng Nghymru sy'n arddal yr hunaniaeth honno
- mae cyfran y bobl anabl sydd wedi cofrestru gyda Hybiau Menter, sef 5 y cant, yn sylweddol is na'r 22 y cant[89] o bobl yng Nghymru sy'n arddel yr hunaniaeth honno
- mae cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi cofrestru gyda Hybiau Menter, sef 19 y cant, yn is na chyfran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n siarad Cymraeg[90], sef 27 y cant, er bod gan gyfran sylweddol uwch o fentrau newydd a grëwyd (31 y cant) o leiaf un perchennog sy'n gallu siarad Cymraeg, sy'n awgrymu cyfradd drosi gref ymhlith y garfan benodol hon
- mae cyfran y bobl ifanc o dan 25 oed sydd wedi cofrestru â Hybiau Menter, sef 7 y cant, yn gyfran fach iawn o'r holl gofrestriadau a wnaed, ond mae gan gyfran ychydig yn uwch o'r mentrau a grëwyd, sef 12 y cant, o leiaf un perchennog dan 25 oed. Mae hyn efallai'n gwrthgyferbynnu â'r dystiolaeth ehangach a nodir ym Mhennod 4 sy'n awgrymu mai pobl ifanc allai gael y budd mwyaf o ddefnyddio mannau deori.

**Llwyddiannau yn ôl proffil daearyddol**

5.26. Mae data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod dros hanner yr holl unigolion a gefnogwyd gan y pum Hwb Menter yn dod o'r awdurdod lleol lle y mae'r hwb ei hun wedi'i leoli a bod y rhan fwyaf o'r unigolion sy'n weddill yn dod o sir gyfagos. Mae'r gyfran yn uwch ar gyfer yr Hybiau Menter hynny sydd wedi'u lleoli yn y Drenewydd, Caerfyrddin a Wrecsam ond mae'r rhan fwyaf o unigolion a gefnogir gan Hwb Menter Ynys Môn yn dod o ddwy ardal awdurdod lleol (Gwynedd ac Ynys Môn ei hun). Mae'r

88 Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig (llyw.cymru)
89 Statws Anabledd yn ôl Rhanbarth (llyw.cymru)
90 Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2021 | LLYW.CYMRU sy'n dangos bod 514,400 o 1,898,000 o'r boblogaeth oedran gweithio yn siarad Cymraeg

rhan fwyaf o'r unigolion a gefnogir yn Hwb Menter Caerffili yn dod o bedair sir, sef Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Caerdydd a Blaenau Gwent.

5.27. Mae patrwm tebyg, dwysach yn dod i'r amlwg wrth ystyried y data daearyddol ar gyfer mentrau newydd a grëwyd. Mae cyfanswm o 64% o'r holl fentrau newydd a grëwyd[91] wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod lleol lle mae'r hwb ei hun.

**Y defnydd o adnoddau**

5.28. Mae Tabl 5.5 yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyfanswm o £7.468 miliwn ar draws y pum Hwb Menter a oedd i'w cyflawni rhwng mis Medi 2018 a mis Medi 2022[92]. Roedd yr Hybiau Menter wedi defnyddio 83% o'u cyllid dyranedig cychwynnol hyd at fis Medi 2021 (£4.906 miliwn o £5.937 miliwn) ond maent ar y trywydd iawn i wario'r cyllid a ddyrannwyd iddynt am y flwyddyn olaf rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2022. Disgwylir y bydd £6.4 miliwn wedi'i wario ar eu darpariaethau dros gyfnod o bedair blynedd (pump yn achos Hwb Menter Wrecsam) erbyn mis Medi 2022.

**Tabl 5.5: Gwariant yr Hybiau Menter hyd yma yn erbyn y gyllideb (Medi 2018 – Medi 2022)**

| £000oedd | Cyllideb (Medi 18 - Medi 21) | Gwariant Gwirioneddol (Medi 18- Medi 21) | Cyllideb (Medi 21 - Medi 22) | Gwariant hyd yma (Medi 21 - Mawrth 22) |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £1,000 | £971 | £312 | £173 |
| Y Drenewydd | £1,000 | £792 | £259 | £144 |
| Caerffili | £1,000 | £1,054 | £281 | £192 |
| Caerfyrddin | £1,000 | £735 | £338 | £148 |
| Wrecsam | £1,937[93] | £1,354 | £341 | £200 |
| Cyfanswm | £5,937 | £4,906 | £1,531 | £857 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Mai 2022)

5.29. Yn nodweddiadol, mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio gan bob Hwb Menter i gyflogi tri o bobl:

[91] 232 o 365 o fentrau newydd a grëwyd
[92] Ac eithrio yn achos Hwb Menter Wrecsam lle roedd y cyllid yn cwmpasu cyfnod o bedair blynedd o fis Medi 2017 ymlaen.
[93] Roedd y gyllideb hon am gyfnod o bedair blynedd o fis Medi 2017 i fis Medi 2021.

- Rheolwr Hwb Menter gyda chyfrifoldeb am weithrediadau o ddydd i ddydd, datblygu strategaeth, rheoli rhanddeiliaid a chymorth busnes
- Cydlynydd Hwb Menter gyda chyfrifoldeb am hyrwyddo, marchnata, a digwyddiadau'r hwb
- Gweinyddwr Hwb Menter gyda chyfrifoldeb am fonitro ac adrodd, cydlynu digwyddiadau a gweinyddu cydweithio.

5.30. Mae pob Hwb Menter hefyd wedi gallu hawlio cyllid ar gyfer gweithgareddau ychwanegol megis y rhai a gafwyd wrth gynnal digwyddiadau, marchnata, hyfforddi staff, a chostau cyffredinol. Gallai pob Hwb Menter hawlio ffi reoli a gyfrifwyd ar sail adennill costau a'i chapio ar uchafswm o 10 y cant o'r gwariant gwirioneddol. Mae'r trefniadau cyllido ar gyfer Hwb Menter Wrecsam wedi bod ychydig yn wahanol gan y gallai'r hwb hwn hawlio cyllid i dalu costau rhentu'r adeilad hefyd.

5.31. Mae cyfrif syml ar sail y gwariant a'r allbynnau hyd yma yn awgrymu mai'r gost fesul unigolyn sy'n derbyn cymorth yw £5,881 a'r gost fesul menter newydd sy'n derbyn gymorth yw £14,777 [94].

5.32. Mae adborth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod Hybiau Menter wedi'u cyllido'n hael ac yn cael adnoddau hael, a bod tanwariant mewn dau leoliad yn awgrymu bod y costau sy'n gysylltiedig â rhedeg hwb wedi'u goramcangyfrif i ryw raddau. Er cymhariaeth, mae adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod y cyfraniad cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu gofod cydweithio newydd wedi bod yn sylweddol is, sef tua £25,000 fesul lleoliad. Defnyddiwyd yr adnodd hwn i helpu i dalu costau adnewyddu a pheth adnoddau gweinyddol.

[94] Cyfrifir y ddwy gost trwy ddefnyddio gwariant ac allbynnau hyd at Fawrth 2022. Cyfanswm y gwariant ym mis Mawrth 2022 ar Hybiau Menter oedd £5,763m. Hyd at fis Mawrth 2022, roedd 980 o unigolion wedi cael cymorth a 390 o fentrau newydd wedi cael cymorth.

# 6. Gweithredu a chyflawni

6.1. Mae'r bennod hon yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael gan yr hybiau ac yn ystyried canfyddiadau'r gwaith maes o ran eu modelau gweithredu, gan gynnwys sut y maent wedi gweithio gydag eraill.

**Marchnata ac ymgysylltu**

6.2. Roedd yn ofynnol i bob Hwb Menter ddatblygu cynllun marchnata ac roedd disgwyl iddynt ymgysylltu â chymunedau lleol ar draws eu rhanbarth i hyrwyddo eu gwasanaethau a chodi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth.

6.3. Mae'r rhan fwyaf o Hybiau Menter wedi trefnu digwyddiadau penodol ar gyfer grwpiau targed i gyrraedd cynulleidfaoedd penodol yn well. Mae'r grwpiau targed hyn wedi cynnwys:

- pobl ifanc: mae rhwydwaith pobl ifanc yn Hwb Menter Caerfyrddin a rhaglen Future Founders yn Hwb Menter y Drenewydd wedi'u cynnal ar y cyd â phartneriaid fel Syniadau Mawr Cymru a Gwasanaethau Ieuenctid
- menywod: mae rhwydweithiau menywod yn unig wedi'u hwyluso yn Hybiau Menter Caerfyrddin a'r Drenewydd
- cymunedau ethnig: cyflawnwyd prosiect a oedd yn gweithio gyda Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria yn Hwb Menter Ynys Môn a phrosiect a oedd yn gweithio gyda'r gymuned Bortiwgeaidd yn Hwb Menter Wrecsam
- prosiect yn gweithio gyda phobl anabl: megis gweithio drwy grwpiau cymunedol fel y Grŵp Celf Able
- mentrau'n seiliedig ar sectorau: mae Hwb Menter Môn wedi teilwra ei gwrs dechrau busnes 'Miwtini' ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd megis Miwtini Cymunedol ar gyfer busnesau sy'n bwriadu cael effaith gadarnhaol ar y gymuned a Miwtini Bwyd a Diod ar gyfer busnesau yn y sector hwn.

6.4. Ystyriwyd bod eu gwaith sefydlu a chynnal presenoldeb deinamig ar y cyfryngau cymdeithasol yn un o brif gryfderau'r Hybiau. Roedd y cyfranwyr hefyd o'r farn, yn gyffredinol, bod Hybiau wedi gallu ymgysylltu'n effeithiol â chleientiaid sydd â nodweddion gwarchodedig a thynnwyd sylw at sawl enghraifft yn ystod y gwaith maes gan gynnwys y rhai a nodir uchod. Mae Hybiau Menter wedi canolbwyntio ar grwpiau penodol o fewn eu hardal lle y bu cyfle i estyn allan a chydweithio â grŵp neu sefydliad cyfryngol.

6.5. Roedd teimlad cyffredin bod Hybiau Menter wedi gallu cyrraedd cynulleidfa newydd sy'n wahanol i gynulleidfa brif ffrwd Busnes Cymru, a hynny'n bennaf oherwydd eu hunaniaeth leol yn ogystal â'r ffordd yr oeddent yn hyrwyddo eu darpariaeth mewn modd hyblyg wedi'i deilwra. Dadleuodd darparwyr yr Hybiau Menter fod hybiau wedi bod yn llai brawychus i gleientiaid a oedd yn y broses o ddechrau busnes, na fyddent wedi bod yn fodlon nac yn barod i gysylltu â Busnes Cymru ar eu rhif ffôn cenedlaethol 0300. Mae mabwysiadu hunaniaeth ar wahân i Busnes Cymru wedi caniatáu i'r hybiau bortreadu gwasanaeth 'ymgysylltiol a chyfeillgar' sydd wedi denu cleientiaid newydd nad oedd ganddynt o bosibl ddigon o hyder i gysylltu â Busnes Cymru. Nodwyd bod yr hybiau:

- 'yn haws i entrepreneuriaid tro cyntaf gysylltu â nhw [na Busnes Cymru] oherwydd eu bod yn lleol'
- wedi 'creu darpariaeth allgymorth leol sy'n … hygyrch i bobl leol'
- yn gyrff yr oedd pobl yn gallu uniaethu â nhw: 'gallaf weld pobl yn colli diddordeb ac yn meddwl 'nid yw hwn i mi' gyda Busnes Cymru. Mae'r Hybiau'n fwy lleol ac yn fwy personol a gallant fod yn ffordd i mewn i'r rhai nad yw Busnes Cymru yn apelio atyn nhw.'

6.6. Awgrymwyd hefyd bod Hybiau Menter wedi mabwysiadu strategaeth farchnata a recriwtio greadigol sydd yn aml wedi cynnwys segmentu'r farchnad er mwyn targedu cynulleidfaoedd allweddol megis pobl ifanc, menywod a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Adroddwyd hefyd bod hybiau wedi ceisio sicrhau eu bod yn hygyrch i ddefnyddwyr newydd, drwy annog (lle y bo'n bosibl) cerdded i mewn a 'galw heibio' am sgwrs. Fodd bynnag, fel y gwelir yn y data daearyddol a nodir ym Mhennod 5, cydnabuwyd hefyd y byddai cleientiaid yr hybiau ffisegol bob amser yn weddol leol ac ar raddfa fach o ganlyniad.

6.7. Er eu bod yn cydnabod y manteision sy'n gysylltiedig â brand yr Hybiau Menter, cododd nifer o gyfranwyr faterion yn ymwneud â goblygiadau hyn. Ar gyfer y darparwyr hynny a oedd eisoes wedi ymsefydlu cyn cyflwyno'r Hwb Menter h.y. ICE Caerffili ac M-Sparc, credwyd bod eu hunaniaeth yn gryfach na brand yr Hwb Menter. Mewn achosion eraill, credwyd bod hunaniaeth safleoedd lloeren e,e, Gofod a Rennir, yn fwy amlwg ar y stryd fawr na'r brand Hwb Menter.

**Gwasanaethau sydd ar gael gan Hybiau Menter**

6.8. Mae pob un o’r pum Hwb Menter wedi sicrhau bod gofodau cydweithio wedi’u hariannu’n llawn ar gael i ddarpar entrepreneuriaid ac entrepreneuriaid newydd. Mae hyn wedi cynnwys mynediad i ddesgiau poeth, mannau cyfarfod, mynediad cyflym i'r rhyngrwyd, cyfleusterau post ac ateb galwadau, ac, mewn rhai achosion, mynediad i wasanaethau ychwanegol y telir amdanynt fel cymorth gweinyddol. Mae pob Hwb Menter wedi darparu cyfleusterau sylfaenol i ddefnyddwyr gan gynnwys mynediad i gegin a/neu gaffi. Mae rhai hybiau (Wrecsam a Chaerffili) hefyd yn swyddfeydd sy'n gyfeillgar i anifeiliaid anwes.

6.9. Yn ogystal â’r cyfleusterau cydweithio sydd ar gael ym mhob hwb, mae adolygiad o adroddiadau cynnydd misol diweddar yn awgrymu y dylai pob Hwb Menter:

- gynnal gweithdai rhwydweithio rheolaidd megis digwyddiadau rhwydweithio dros frecwast neu sesiynau dysgu dros ginio
- trefnu digwyddiadau cynghori busnes a chymorthfeydd untro sy'n ymdrin â phynciau fel paratoi ar gyfer busnes, ysgogi syniadau, cyllido, allforio, cyfryngau cymdeithasol a marchnata. Mae llawer o sesiynau'n canolbwyntio ar ddechrau gyda llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a sut i ddenu pobl atynt, ymgysylltu â chleientiaid a chreu cynnwys. Cynhelir llawer o'r rhain mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac maent yn cynnwys siaradwyr gwadd. Mae gan rai sesiynau ffocws penodol ar gynaliadwyedd a sut i redeg busnesau gwyrddach
- trefnu cyfres o gyrsiau dechrau sy'n cwmpasu'r agweddau sylfaenol ar ddechrau busnes, gan gynnwys sesiynau bŵt-camp ar gynllunio busnes. Mae rhai o'r rhain yn cael eu cynnal yn wythnosol dros gyfnod o chwech neu wyth wythnos tra bod eraill yn cael eu darparu mewn modd mwy dwys e.e., academi tridiau ar ddechrau busnes. Mae gan rai frand clir e.e., y 'Clwb Dechrau Busnes' yn Hwb Menter Wrecsam, y 'Clwb 5-9' yn Hwb Menter Caerffili a 'Miwtini' yn Hwb Menter Ynys Môn
- trefnu sesiynau cymorth galw heibio i gleientiaid
- trefnu digwyddiadau cymunedol ar gyfer eu haelodau megis cwis cymunedol
- trefnu cyfleoedd masnachu dros dro, yn enwedig yn y cyfnod cyn y Nadolig. Trefnodd sawl Hwb Menter farchnadoedd Nadolig a siopau dros dro a oedd yn addas ar gyfer prawf masnachu.

6.10. Yn wahanol i'r hybiau eraill, mae Hwb Menter Ynys Môn hefyd wedi cynnig mynediad i gleientiaid i ofod creu (o dan y brand 'Ffiws') sy'n darparu cyfarpar megis argraffwyr 3D, gwasg mygiau a gwasg crysau-t i gleientiaid eu ddefnyddio i ddatblygu prototeipiau.

6.11. Heblaw am yr enghraifft hon, mae ystod y ddarpariaeth a gynigir i ddefnyddwyr unigol wedi bod yn gyson o un hwb i'r llall ac wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion penodol cleientiaid lleol. Nododd un Hwb Menter, gan fod angen cyngor ar bobl yn llawer cyflymach nag o'r blaen oherwydd iddynt golli eu swyddi yn annisgwyl o ganlyniad i'r pandemig, eu bod yn gallu ymateb yn gyflym a chyflwyno sesiwn undydd ar 'hanfodion busnes'.

6.12. Nodwyd mai un o brif gryfderau'r dull a ddefnyddiwyd oedd yr hyblygrwydd a roddir i bob hwb i ddiwallu anghenion defnyddwyr unigol a chroesawodd y darparwyr y ffaith nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cyfyngu o ran yr amser y gallant ei dreulio gyda phob cleient. Dywedodd un sefydliad partner y gall hybiau ymateb yn effeithiol i wahaniaethau mewn anghenion cleientiaid:

'Gwelais fod syniad busnes y cwsmeriaid yng Nghaerfyrddin, yn gyffredinol, yn fwy datblygedig ond roedd y mynychwyr yn y Drenewydd yn llai profiadol ac yn ffafrio arddull cyflwyno mwy traddodiadol ar ffurf ystafell ddosbarth.'

**Cydweithio rhwng Hybiau Menter**

6.13. Mae rheolwyr yr Hybiau Menter yn cwrdd yn rheolaidd fel grŵp, wedi'i hwyluso gan Lywodraeth Cymru, a'r farn oedd bod y berthynas rhwng gwahanol hybiau wedi cryfhau dros amser. Mae'r newid i ddarpariaeth ddigidol yn ystod cyfnod y pandemig wedi arwain at fwy o gydweithio rhwng yr hybiau, ac mae wedi cael gwared ar rywfaint o'r gystadleuaeth y credwyd ei bod yn bodoli'n flaenorol.

6.14. Mae'r Hybiau Menter wedi cydweithio ar sawl prosiect sy'n cwmpasu Cymru gyfan gan gynnwys prosiectau sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau carbon a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Aeth rheolwyr y ganolfan hefyd ar ymweliad tramor â Sefydliad Technoleg Massachusetts (MIT) yn Boston, fe wnaethant gyfrannu at bresenoldeb rhithwir yn Wythnos Tech Cymru a threfnu cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystod 2021.

**Cydweithio â phartneriaid eraill**

6.15. Roedd yn ofynnol i bob Hwb Menter weithio gyda Busnes Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru a Syniadau Mawr Cymru yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill megis

sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ac adrodd ar ddata atgyfeirio misol i Lywodraeth Cymru. Mae adborth gan Hybiau Menter yn awgrymu eu bod yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau partner ac mae adolygiad o adroddiadau cynnydd yn dangos eu bod yn cwrdd yn rheolaidd â thrawstoriad eang o sefydliadau gan gynnwys awdurdodau lleol, colegau, prifysgolion, y trydydd sector a chyrff cynrychioliadol o'r sector preifat. Mae pedwar diben i'r trefniadau cydweithio hyn ac maent yn canolbwyntio ar:

- atgyfeirio cleientiaid (e.e., timau Canolfannau Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Cymunedau am Waith/Cymunedau am Waith a Mwy a mentrau cymorth cyflogadwyedd eraill a bydd staff yr Hybiau Menter yn cwrdd â'r cynrychiolwyr hyn yn rheolaidd i drafod atgyfeiriadau a chynnydd cleientiaid)
- prosiectau neu ddigwyddiadau cydweithredol penodol
- helpu i hwyluso'r hwb i ymestyn allan at gymunedau e.e, mae Hwb Menter y Drenewydd yn gweithio gyda rhaglen Cysylltwyr Cymunedol PAVO[94]
- cefnogi grwpiau penodol e.e. Stonewall, Prime Cymru, EYST a Chwarae Teg.

*Ymgysylltu ag awdurdodau lleol*

6.16. O blith y saith awdurdod lleol a gyfrannodd at yr adolygiad, roedd gan ddau berthynas gydweithredol agos â'r Hwb Menter yn eu sir. Roedd y ddau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau, gan ychwanegu 'rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud yn y maes datblygu economaidd ac i'r gwrthwyneb'. Roedd un awdurdod lleol wedi cydweithio â'r Hwb Menter i ddarparu hacathonau ac roedd swyddogion yn mynychu digwyddiadau rhwydweithio personol ac ar-lein yn rheolaidd. Roeddent yn atgyfeirio cleientiaid di-waith yn rheolaidd i'r gwasanaeth am gefnogaeth ac roedd yr Hwb Menter yn cael ei ystyried yn 'fan cychwyn i entrepreneuriaid… oherwydd bod popeth o dan yr un to …[sy'n] golygu y gall pobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt o ddydd i ddydd'. Roedd yr ail awdurdod lleol wedi cydweithio â'r Hwb Menter i sefydlu cyfleoedd masnachu dros dro ar gyfer busnesau lleol yn y cyfnod cyn y Nadolig yn ystod 2020, ac yn yr achos hwn roedd yr hwb wedi rhoi cyngor a chymorth i'r masnachwyr hynny a oedd yn gwerthu eu nwyddau.

6.17. Dywedodd y pump arall (gan gynnwys un oedd â Hwb Menter yn ei ardal) mai ychydig iawn o gysylltiad a gawsant â'r hybiau e.e., roedd un wedi bod yn ymwneud â chlwb

[94] Cysylltwyr Cymunedol (pavo.org.uk)

busnes rhithwir allgymorth ac roedd un arall wedi cydweithio ‘ar un neu ddau o ddigwyddiadau’ ond nid oedd y ddau arall wedi ymwneud â'r hybiau o gwbl. Yn yr achosion hynny lle y bu fawr ddim ymgysylltu, os o gwbl, nodwyd bod yr Hwb Menter yn eithaf pell yn ddaearyddol, gan ei gwneud yn amhriodol cyfeirio cleientiaid ato ac i'r gwrthwyneb. Gwnaed sylwadau eraill am y diffyg ymgysylltu gan gynnwys:

- 'Dwi ddim yn ymwybodol ohono. Dw i'n synnu braidd nad wyf i wedi cael dim byd'
- 'dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gyswllt uniongyrchol yn ein gwahodd i gymryd rhan, neu'n hyrwyddo ei wasanaethau'
- 'yn ddelfrydol, roedd angen presenoldeb o fewn y sir i wneud y mwyaf o hyn'.

*Ymgysylltu â Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) a Sefydliadau Addysg Bellach (SAB)*

6.18. Mae adborth gan Hybiau Menter yn awgrymu bod eu hymgysylltiad â SAB a SAU yn ymwneud â chystadlaethau menter, darparu sesiynau menter i fyfyrwyr coleg a phrifysgol, a threfnu digwyddiadau fel hacathonau. Mae Hybiau Menter hefyd yn cysylltu’n rheolaidd ag arweinwyr menter a chyflogadwyedd yn eu colegau lleol. Mewn un achos, mae Grŵp Sefydliadau sy'n Cefnogi Menter yr Ifanc wedi’i sefydlu gan yr Hwb Menter sydd wedi’i anelu at sefydliadau sy’n cefnogi pobl ifanc i fod yn entrepreneuriaid i rannu gwybodaeth ac annog cydweithio. Mynychir y grŵp gan Syniadau Mawr Cymru, Prifysgol Bangor, Gyrfa Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, awdurdodau lleol a gwasanaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru.

6.19. Canfuwyd bod cydweithio ystyrlon rhwng dau o’r hybiau a SAU, yn arbennig Hwb Menter Ynys Môn a Phrifysgol Bangor (efallai nad yw’n syndod o ystyried bod M-Sparc yn un o is-gwmnïau Prifysgol Bangor) a rhwng Hwb Menter Wrecsam a Phrifysgol Glyndŵr. Yn achos Hwb Menter Ynys Môn, cynhelir digwyddiadau ar y cyd â thîm B-Fentrus Prifysgol Bangor ac mae staff yr hwb yn cefnogi eu cleientiaid drwy ddarparu cyngor a gofod cydweithio. Mae'r trefniant cydweithredol yn ymestyn i adrannau eraill y brifysgol gan gynnwys yr ysgol fusnes a'r cwrs dylunio cynnyrch. Yn achos Hwb Menter Wrecsam a Phrifysgol Glyndŵr, mae clybiau dechrau busnes pwrpasol a rhaglenni sbarduno wedi’u cynnal ar gyfer myfyrwyr y brifysgol ac mae nifer o hacathonau a sesiynau dan glo wedi’u cynnal ar gyfer myfyrwyr e.e, un her oedd i fyfyrwyr ddod o hyd i ateb entrepreneuraidd i annog pobl i ddychwelyd i'r stryd fawr.

6.20. Cafwyd peth awgrym bod diffyg eglurder ynghylch sut y disgwylir i Hybiau Menter a phrifysgolion gydweithio, ac awgrymwyd y gallai cytundebau cyllido fod wedi nodi’n gliriach yr hyn y dylid bod wedi’i ddisgwyl gan bob partner.

6.21. Ategodd yr adborth gan SAB a SAU[95] y canfyddiadau hyn ynghylch graddau'r cydweithio rhwng Hybiau Menter a'r sector:

- mae trefniadau cydweithio cryf rhwng rhai Hybiau Menter a rhai prifysgolion, gydag un trefniant o'r fath yn deillio o'r ffaith bod un hwb wedi'i leoli mewn adeilad sy'n eiddo i'r brifysgol
- nododd ambell un fod ganddo ryw fath o berthynas â'i hwb agosaf ond nad oedd yn un arbennig o ystyrlon ac mae SAB yn tueddu i droi at Syniadau Mawr Cymru am gymorth yn hytrach na'r hybiau
- roedd rhai wedi atgyfeirio myfyrwyr i ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan hybiau
- mae adborth gan y rhai sy'n ymwneud i raddau llai â Hybiau Menter yn tueddu i awgrymu mai pellter daearyddol yw'r prif ffactor sy'n rhwystro mwy o gydweithio e.e., 'mae'r Hwb agosaf 40 milltir i ffwrdd ... mae'r Hwb yn rhy bell oddi wrthym i ymgysylltu'n weithredol ag ef [a ] defnyddio'r gofod ffisegol sydd yno.'

**Ychwanegu gwerth at yr ecosystem cymorth busnes**

6.22. Mae cydweithio rhwng Hybiau Menter a Busnes Cymru yn digwydd ym mhob lleoliad, a chaiff hyn ei gynorthwyo gan y ffaith y gall yr hwb a Busnes Cymru hawlio'r un canlyniad o ran mentrau sy'n dechrau a swyddi wrth adrodd i Lywodraeth Cymru. Mae gallu gwneud hynny yn dileu unrhyw elfen o gystadleuaeth rhwng darparwyr. Hefyd, mae cynghorwyr Busnes Cymru yn aml yn darparu cyrsiau a chymorthfeydd busnes yn aml i gleientiaid yr Hybiau Menter.

6.23. Roedd sefydliadau partner o'r farn bod yr adnodd pwrpasol sydd ar gael i Hybiau Menter i ymgysylltu â sefydliadau rhanddeiliaid ac i wneud gwaith allgymorth mewn cymunedau yn werthfawr. Ystyriwyd bod yr adnodd hwn yn ychwanegu gwerth at yr ecosystem cymorth busnes gan nad yw'n swyddogaeth sy'n cael ei hariannu mewn mannau eraill megis drwy ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru. Dywedodd y cyfranwyr yn aml fod Hybiau Menter wedi gallu sefydlu a chynnal cysylltiadau â'u cymuned fusnes leol yn ogystal â grwpiau cymunedol lleol. Roedd barn gref y dylai'r gwaith allgymorth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a wneir gan yr hybiau barhau yn y dyfodol, er bod rhai yn awgrymu y gallai'r rôl hon o bosibl gael ei hymgorffori yn narpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru:

[95] Wedi'i gasglu drwy waith ymchwil a wnaed gan Ymchwil Arad fel rhan o'r adolygiad o entrepreneuriaeth ieuenctid, sy'n cael ei gynnal ar yr un pryd.

'dylai Busnes Cymru gael rôl benodedig ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ... mae wedi gweithio'n dda iawn ar gyfer yr hybiau.'

6.24. Nid oedd y cyfranwyr yn meddwl bod gwaith ymgysylltu hybiau o reidrwydd wedi arwain at gynnydd nodedig mewn atgyfeirio cleientiaid i ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru. Roedd rhai cyfranwyr wedi disgwyl i'r hybiau chwarae mwy o ran wrth ddod o hyd i gleientiaid newydd ar gyfer Busnes Cymru, ond nid oedd hyn wedi digwydd i'r graddau a ddisgwyliwyd. Awgrymwyd bod llawer o ffactorau i'w cyfrif am hyn, gan gynnwys y ffaith nad oedd cleientiaid Hybiau Menter yn dymuno cael eu hatgyfeirio i ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru yn ogystal â'r nifer llai na'r disgwyl o fusnesau newydd a gefnogwyd ar draws yr Hybiau Menter. Dywedodd un cynrychiolydd Busnes Cymru:

'Mae'r Hybiau'n atgyfeirio cleientiaid atom ni, ond nid yw'r trosglwyddiadau [h.y. nifer y cleientiaid] cymaint â'r disgwyl.'

**Effaith y pandemig**

6.25. Bu'n rhaid i Hybiau Menter ddiwygio eu modelau cyflawni yn sylweddol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Newidiodd pob hwb i ddulliau darparu digidol ac roeddent yn gallu gwneud hynny'n gyflym oherwydd yr hyblygrwydd a roddwyd iddynt drwy drefniadau cyllido Llywodraeth Cymru a'u dull gweithredu 'chwim'. Gwelodd yr hybiau bresenoldeb da iawn yn eu digwyddiadau digidol dros y 18 mis ar ôl dyfodiad y pandemig, ond dywedwyd bod lefelau presenoldeb wedi lleihau ar ôl hynny oherwydd syrffed digidol ar ran cleientiaid. Mabwysiadodd yr hybiau hefyd brosesau gweinyddu digidol yn ystod cyfnod y pandemig, ac yn gyffredinol croesawodd y rhai a gyfrannodd at yr adolygiad y newid i ddefnyddio platfform 'DocuSign' digidol sy'n galluogi cleientiaid i gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol yn ddigidol.

6.26. Nododd llawer o'r cyfranwyr fod nifer y defnyddwyr a oedd yn ymgysylltu'n ddigidol â'r Hybiau yn llawer uwch nag yr oedd yn flaenorol gyda darpariaeth wyneb yn wyneb gan fod Hybiau'n gallu cyrraedd cleientiaid o ardal ddaearyddol ehangach:

'pan darodd covid a phan gynhaliwyd y sesiynau o bell, roedd hyn yn gwneud y ddarpariaeth yn fwy hygyrch i'r rhanbarth ehangach.'

6.27. Daeth y defnydd o ofod cydweithio ffisegol i ben yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau'r llywodraeth pan oedd yn ofynnol i ddefnyddwyr hybiau weithio gartref. Gorfodwyd yr hybiau i gau a chyfyngwyd ar fynediad cleientiaid i adeiladau am gyfnod sylweddol o

amser. Yn achos Hwb Menter Caerfyrddin, caewyd y cyfleuster gan y brifysgol a oedd yn ei leyta am gyfnod o wyth mis.

6.28. Dywedodd yr Hybiau Menter fod y pandemig hefyd wedi effeithio ar eu darpariaeth mewn ffyrdd eraill. Nodwyd yn gyffredin bod y pandemig wedi llesteirio eu cynlluniau a'u perfformiad yn erbyn targedau a ariannwyd. Er enghraifft, cafodd cynlluniau i ailddechrau gweithgareddau wyneb yn wyneb ym mis Ionawr 2022 eu gohirio gan un Hwb oherwydd pryderon ynghylch y cynnydd yn yr achosion o COVID-19 ledled Cymru. Adroddodd Hybiau eraill gyfraddau uchel o bobl yn peidio â mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd personol er iddynt gofrestru ar eu cyfer pan gawsant eu hailgyflwyno.

# 7. Adborth ar wasanaethau'r Hybiau Menter

7.1. Mae’r bennod hon yn ystyried priodoldeb ac ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael drwy Hybiau Menter; gwerth y cymorth i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r gwahaniaeth y mae cael gafael ar gymorth wedi'i wneud. Mae'r bennod yn cyfeirio at ganfyddiadau'r arolwg o ddefnyddwyr a gynhaliwyd ar y we, cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal ag adborth gan gyfranwyr eraill.

**Barn ynglŷn ag ansawdd a phriodoldeb y ddarpariaeth**

7.2. Roedd rhanddeiliaid a sefydliadau partner a fu’n ymwneud â'r Hybiau Menter yn credu eu bod yn darparu gwasanaeth o safon a’u bod yn cael eu rheoli’n dda. Roedd sefydliadau partner yn cydnabod gwerth y ddarpariaeth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, gan ychwanegu bod y cymorth y tu allan i oriau fel y fenter 5-9 yn cael ei groesawu gan y gymuned fusnes yr oeddent yn gweithio gyda hi. Roedd sefydliadau partner hefyd yn gwerthfawrogi’r gymysgedd o gymorth busnes cymdeithasol a ffurfiol a ddarperir gan yr hybiau.

7.3. Amlygodd sefydliadau partner gryfderau allweddol yr Hybiau Menter fel a ganlyn:

- rôl ac ansawdd rheolwyr yr Hybiau. Awgrymodd rhai fod llwyddiant yr Hybiau i'w briodoli'n rhannol i 'bersonoliaeth ac egni' rheolwyr sydd wedi dod â 'naws cadarnhaol' i leoliadau unigol. Ystyriwyd bod y rolau hyn yn allweddol i sicrhau bod mannau'n llwyddiannus ac fe'u disgrifiwyd yn aml fel 'animeiddwyr' ar gyfer yr hybiau. Ystyriwyd hefyd bod rôl rheolwr Hwb yn wahanol iawn i’r rôl a chwaraeir gan gynghorwyr busnes, sy’n gweithio gyda busnesau ar sail un-i-un. Ar y llaw arall, mae rheolwyr hybiau yn aml yn gweithio ar sail un-i-lawer ac yn mabwysiadu rôl ehangach gan ymgysylltu, hwyluso cydweithio, datblygu hyder pobl, a dangos empathi
- dull gweithredu hyblyg na fyddai wedi bod yn bosibl o bosibl pe bai wedi bod yn ofynnol iddynt gyflawni nifer fawr o DPA sy'n ofynnol gan ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru
- argaeledd gofod ffisegol. Nodwyd bod yr hybiau ffisegol wedi rhoi 'gofod busnes gweladwy i entrepreneuriaid ymgysylltu â chynghorwyr busnes arbenigol a rhwydweithio ag entrepreneuriaid o'r un anian.'

7.4. Roedd sefydliadau partner o’r farn bod Hybiau Menter yn bwysig yn yr ecosystem cymorth busnes cyffredinol, ond rhybuddiodd llawer fod y farchnad (fel y trafodwyd

eisoes ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn) yn dod yn fwyfwy 'gorlawn' o ystyried y nifer cynyddol o gyrff o'r sector preifat sy'n dechrau ymwneud â darparu gofod cydweithio.

7.5. Rhybuddiodd sawl sefydliad partner hefyd fod rhai o'r gwasanaethau y mae hybiau'n eu darparu yn dyblygu eraill sy'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru drwy Busnes Cymru, a bod hyn yn ei gwneud yn ddryslyd i fusnesau a chyfryngwyr eraill sy'n atgyfeirio pobl at gymorth. Cyfeiriwyd at gyrsiau dechrau busnes fel maes penodol lle y gwelwyd dyblygu o ystyried bod Hybiau Menter a Busnes Cymru yn cynnig rhyw fath o weithdai dechrau busnes, gan gynnwys y rhai sydd ar gael yn ddigidol.

7.6. Awgrymwyd bod Hybiau o bosibl wedi camu i'r maes cymorth busnes prif ffrwd oherwydd bod yn well gan ddefnyddwyr gael mynediad at y cymorth yn y modd hwn, ond rhybuddiodd eraill y gallai cleientiaid fod yn colli cyfle o ganlyniad:

'Mae pobl yn hoffi'r porth [Hybiau Menter] a dydyn nhw ddim eisiau'r pethau ffurfiol... dw i ddim yn meddwl bod yr Hybiau'n rhwystro hynny o gwbl'

'Os ydych chi'n rhan o deulu Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru, mae'r cyfan yn edrych yn hyfryd. Mae'r cyfan yn cyd-fynd â'i gilydd. Byddwn yn dadlau bod llawer o bobl yn gwneud yr un pethau ond bod bathodyn gwahanol arno.'

7.7. Fodd bynnag, ni nodwyd y dyblygu hwn yn y ddarpariaeth gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau, ac ar y cyfan roedd yr Hybiau Menter o'r farn eu bod yn gwneud cyfraniad ychwanegol cadarnhaol at yr ecosystem cymorth busnes gan eu bod yn darparu pethau mewn ffordd wahanol i Busnes Cymru.

7.8. Mynegwyd dau brif bryder gan y cyfranwyr am waith a dull gweithredu'r Hybiau Menter. Awgrymwyd:

- nad yw'r hybiau bob amser wedi llwyddo i sicrhau presenoldeb a chyrhaeddiad daearyddol eang. Mae rhai hybiau wedi ceisio sicrhau mwy o bresenoldeb rhanbarthol nag eraill, yn arbennig Hwb Menter Ynys Môn sydd wedi gweithredu drwy rwydwaith o swyddfeydd lloeren ar draws gogledd-orllewin Cymru. Mae eraill yn ceisio ymestyn eu cyrhaeddiad daearyddol e.e., pan gynhaliwyd ein gwaith maes roedd Hwb Menter y Drenewydd yn cynnal sioe deithiol i ymweld ag Aberystwyth, Aberhonddu, ac Ystalyfera ac roedd Hwb Menter Sir Gaerfyrddin hefyd yn gweithredu o is-swyddfa yn Hwlffordd.

- nad ystyrir bod hybiau lloeren mor llwyddiannus â'r prif hybiau o ran datblygu cymunedau sy'n cydweithio, gan nad ydynt yn cael eu staffio gan staff llawnamser. Rhybuddiodd un awdurdod lleol 'nad yw'n ymddangos bod gan ofod heb staff yr un manteision… o ran cymuned fusnes gryfach'.


**Diwallu anghenion entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar**

7.9. Mae'r adran hon yn tynnu ar ganfyddiadau arolwg o 171 o ddefnyddwyr yr hybiau a barn 14 o ddefnyddwyr a gafodd eu cyfweld wyneb yn wyneb.

*Y Defnydd o Hybiau Menter*

7.10. Fel y dangosir yn Ffigur 7.1 mae canfyddiadau o'r arolwg defnyddwyr yn awgrymu bod Hybiau Menter wedi'u defnyddio'n bennaf ar gyfer digwyddiadau a gweithdai, gyda thri chwarter y defnyddwyr a arolygwyd (129 neu 75%) yn defnyddio'r hybiau at y diben hwn. Dywedodd ychydig yn llai na hanner y rhai a holwyd eu bod wedi cael gafael ar gyngor busnes drwy'r hybiau. Mae'n nodedig bod ychydig yn llai na dau o bob deg o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi defnyddio'r gofod swyddfa a ddarperir gan yr hybiau, sydd o bosibl ddim yn annisgwyl o ystyried effaith y pandemig, ond mae'n awgrymu'n gryf nad dyma oedd y prif gymhelliant i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ymgysylltu â'u hwb lleol. Roedd defnyddwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gofod swyddfa yn Hwb Menter Caerffili (52%) o gymharu â'r hybiau eraill.

**Ffigur 7.1: Natur gwasanaethau'r Hybiau Menter a ddefnyddiwyd**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 o 171 o ddefnyddwyr Hybiau Menter

7.11. Roedd ychydig yn llai na thri chwarter y defnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg wedi defnyddio gwasanaethau'r Hybiau Menter ar sail rithwir (126 neu 74% o'r ymatebwyr). Roedd hanner y rhai a holwyd (89 neu 52%) wedi defnyddio gwasanaethau yn y prif Hwb Menter tra bod cyfran fach (9% neu 15 o ddefnyddwyr) wedi defnyddio cymorth mewn lleoliad arall yn y rhanbarth. Roedd cyfran fach (13 neu 7%) ohonynt heb ddefnyddio unrhyw un o wasanaethau'r Hybiau Menter. Roedd defnyddwyr Hybiau Menter y Drenewydd a Chaerfyrddin yn fwy tebygol nag eraill o fod wedi defnyddio'r gwasanaethau'n rhithwir, tra bod defnyddwyr Hwb Menter Caerffili yn fwyaf tebygol o fod wedi defnyddio'r gwasanaethau yn y prif Hwb. Defnyddwyr Hwb Menter Ynys Môn oedd fwyaf tebygol o fod wedi manteisio ar gymorth mewn lleoliadau eraill yn y rhanbarth.

7.12. Fel y gellid disgwyl, roedd y defnyddwyr a gyfwelwyd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio Hybiau Menter yn bersonol a chyfeiriwyd at amrywiaeth o resymau pam eu bod wedi defnyddio'r gwasanaeth. Roedd lleoliad a chymuned yr hyb yn apelio at rai ac roedd eraill yn cael eu denu at y ddarpariaeth sydd ar gael yn yr Hybiau Menter:

- 'fy nghymhelliant oedd ymdeimlad o gymuned'
- 'mae'r cyfan mewn un lle'
- 'roedd cyrsiau ar-lein yn ystod y pandemig yn ddefnyddiol iawn'.

7.13. Roedd rhai defnyddwyr a gyfwelwyd wedi dod i gysylltiad â'r gwasanaeth ar hap, eraill drwy gael eu hatgyfeirio ac eraill ar ôl clywed am y cyfle drwy negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft:

'Gwelais y cwrs 12 wythnos yn cael ei hysbysebu ar Facebook. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n fan cychwyn da'.

7.14. Nododd y nifer bach o ddefnyddwyr a gyfwelwyd (13) nad oeddent wedi defnyddio unrhyw un o wasanaethau'r Hybiau Menter amrywiaeth o wahanol resymau dros hynny, ac roedd y sylwadau'n cynnwys:

- '[Dydw i] ddim yn gwybod amdanyn nhw. Dim ond pan fyddaf eisiau newid o weithio gartref y byddaf yn defnyddio M-Sparc'
- 'Does gen i ddim syniad pa wasanaethau maen nhw'n eu cynnig a beth sydd ar gael'
- 'Erioed wedi cael yr amser'
- 'Wedi gorfod gohirio sefydlu busnes'

- 'Rwy'n hollol fyddar… does dim o'r gwasanaethau'n hygyrch i mi'.

*Lleoliad a chyfleusterau*

7.15. Roedd y rhan fwyaf o’r defnyddwyr a holwyd yn ystyried bod lleoliad eu Hwb Menter yn dda iawn (95 neu 56%) neu’n dda (38 neu 22%) ond mae'n werth nodi nad oedd lleiafrif (30 neu 18%) yn gwybod gan eu bod wedi cael cymorth yn rhithwir neu nid oeddent mewn sefyllfa i wneud sylwadau.

7.16. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf o’r defnyddwyr a holwyd yn ystyried bod y cyfleusterau sydd ar gael yn eu Hwb Menter yn dda iawn (98 neu 58%) neu’n dda (31 neu 18%) ond, unwaith eto, ni allai lleiafrif (35 neu 21%) wneud sylwadau ar y cyfleusterau hyn.

7.17. Nodir y prif themâu a godwyd gan ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg mewn perthynas â’r lleoliad a’r cyfleusterau sydd ar gael mewn tri o’r Hybiau Menter[96] yn Nhabl 7.1.

**Tabl 7.1: Adborth gan ddefnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ar leoliad tri hwb a'r cyfleusterau sydd ar gael ynddynt**

| | |
|---|---|
| Caerffili | • Lle 'cyfeillgar', 'croesawgar' sy'n 'helaeth' ac yn 'atyniadol iawn' ac sy'n addas iawn ar gyfer rhwydweithio. Awgrymodd rhai ei fod yn fwy priodol ar gyfer pobl ifanc gan ei fod yn 'fwy addas i ddarparu rhwydwaith cymdeithasol i weithwyr llawrydd ifanc'<br>• Amgylchedd ‘cynhwysol iawn’ a ‘chefnogol’ gyda thîm ‘cymwynasgar a chyfeillgar’ ac aelodau sy’n hapus i gefnogi eraill<br>• Lleoliad da o ran cysylltiadau gyda’r orsaf drenau ond mae parcio'n broblem yn ddiweddar oherwydd y defnydd o gwmni rheoli parcio: 'mae parcio bellach yn erchyll ar ôl y cyfyngiadau newydd' ac 'mae parcio'n ofnadwy'<br>• Caffi da ar y safle ond mae angen adnewyddu'r toiledau<br>• Gellid gwella cyfleusterau drwy osod bythau gwrthsain ar gyfer sgyrsiau a chyfarfodydd rhithwir ar-lein a chyflwyno parthau gwahanol ar gyfer 'gweithio' a 'sgwrsio' |

[96] Mae'r diffyg ymatebion gan ddefnyddwyr a oedd wedi defnyddio swyddfeydd yn Wrecsam ac Ynys Môn yn golygu nad yw'n bosibl darparu dadansoddiad tebyg.

| | |
|---|---|
| Caerfyrddin | • Roedd y defnyddwyr yn ffafrio'r safle yng nghanol y dref o gryn dipyn o gymharu â safle Yr Egin gan ddweud 'mae canol y dref [yn] llawer gwell' ac '[mae canol y dref] yn llawer mwy cyfleus ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'r gymuned fusnes yng Nghaerfyrddin'<br>• Tîm cyfeillgar a chefnogol a ddisgrifiwyd fel 'rhyfeddol' a 'deinamig'<br>• Gellid gwella cyfleusterau drwy gyflwyno 'ystafelloedd preifat'. |
| Y Drenewydd | • Lle croesawgar iawn gyda 'staff cyfeillgar' sy'n frwdfrydig a phroffesiynol<br>• Man gwaith 'gwych' sy'n 'helaeth a chyfforddus' a all gael ei ddefnyddio ar gyfer 'sawl peth' ar yr un pryd<br>• Cyfleusterau parcio da a phellter rhesymol o ganol y dref gan ei fod 'ar gyrion y dref'<br>• Gellid gwella'r cyfleusterau pe bai mannau neu ystafelloedd tawel neu breifat yn cael eu cyflwyno a phe gallai'r lleoliad fod yn gynhesach: nododd rhai fod 'y gofod cyfan yn llawer rhy oer' ac felly na ellir ei ddefnyddio yn ystod misoedd y gaeaf. |

**Addasrwydd a chyfleusterau'r Hybiau Menter**

7.18. Cynigiodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr farn ar yr addasrwydd y pum Hwb Menter a'r cyfleusterau sydd ar gael ynddynt. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y cyfleusterau hanfodol cywir ar gael yn yr hybiau gan gynnwys mynediad i fand eang, a'u bod yn fodern ac yn cael eu rhedeg yn broffesiynol. Cydnabuwyd yn eang bod y mannau yn wahanol iawn i'w gilydd, ac roedd gan bob un ei 'naws' ei hun. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd gan y cyfranwyr roedd y canlynol:

- mae pob un o'r pum lleoliad yn briodol iawn ar gyfer cynnal digwyddiadau a sesiynau rhwydweithio ond credwyd bod eu haddasrwydd ar gyfer cydweithio yn amrywio. Er eu bod yn gweithio'n dda fel mannau cyfarfod, nid ydynt bob amser mor effeithiol fel man gweithio. Er enghraifft, nodwyd bod gan Hwb Menter Caerffili

gymysgedd o fannau agored a mannau tawelach, ond roedd hybiau eraill fel Caerfyrddin a'r Drenewydd yn cynnig mannau agored yn unig. Awgrymwyd y gallent elwa o fuddsoddiad pellach i rannu'r gofod yn fannau llai a gallai rhai hefyd elwa ar fannau i fusnesau sy'n tyfu

- gall pensaernïaeth a delwedd yr adeilad effeithio ar ei apêl a'i ddefnydd. Er enghraifft, disgrifiwyd adeilad Yr Egin sy'n gartref i Hwb Menter Caerfyrddin fel 'amgylchedd rhy slic' a 'brawychus'. Dywedodd un cyfrannwr fod 'pobl yn ei weld fel adeilad corfforaethol ... mae'r dderbynfa fawr yn codi ofn ar bobl'. Roedd adeilad M-Sparc yn cael ei ystyried yn 'adeilad arbennig' o ystyried pa mor drawiadol ydoedd
- mae'r ymdeimlad o 'fwrlwm' o un lleoliad i'r llall yn amrywio ac yn gyffredinol roedd y cyfranwyr yn meddwl ei bod yn bwysig 'pan fyddwch yn ymweld â chanolfan, rydych chi'n hoffi gweld pobl a theimlo ychydig o fwrlwm'. Nodwyd bod rhai, megis Hybiau Menter Caerffili a Wrecsam yn llawn, gan gynhyrchu egni cadarnhaol, tra bod eraill (yn enwedig Hybiau Menter Caerfyrddin a'r Drenewydd) fel arfer yn wacach ac nid oedd yr un math o egni i'w deimlo yno.
- mae'r 'naws' a phroffil y defnyddwyr ym mhob lleoliad yn wahanol. Er enghraifft, nodwyd bod Hybiau Menter Wrecsam a Chaerffili yn lleoedd a oedd yn apelio at bobl ifanc.

**Barn ynglŷn â gwasanaethau eraill a ddefnyddiwyd**


7.19. Roedd defnyddwyr a gyfwelwyd yn cofio iddynt gael mynediad at ystod eang o wasanaethau drwy eu Hwb Menter, gan gynnwys gweithgareddau grŵp fel gweithdai, cyrsiau, seminarau, a chyfleoedd rhwydweithio yn ogystal â gwasanaethau unigol megis cymorth i baratoi cynlluniau busnes, sicrhau cyllid grant, cyngor marchnata a defnydd achlysurol o ofod cydweithio. Fe wnaeth y defnyddwyr hyn awgrymiadau tebyg ar gyfer gwella'r gofodau eu hunain, ac roedd tair prif thema i'r sylwadau:

- mwy o fannau preifat a mannau gweithio tawelach, unigol e.e., 'podiau ar gyfer fideo-gynadledda'
- yr angen i wella cyfleusterau megis cegin, caffi, gwell system wresogi, a chawod
- yr angen i greu 'amgylchedd mwy deinamig' sydd â mwy o 'fwrlwm'.

7.20. Roedd yr adborth a gasglwyd ar ansawdd a defnyddioldeb y gwasanaethau a ddarparwyd gan y defnyddwyr a gyfwelwyd ac a arolygwyd yn dda iawn. Roedd y rhan

fwyaf o'r defnyddwyr a holwyd o'r farn bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr Hybiau Menter yn dda iawn neu'n dda, fel y dangosir yn Ffigur 7.2.

**Ffigur 7.2: Barn ynglŷn ag ansawdd a defnyddioldeb gwasanaethau'r Hybiau Menter**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 o 171 o ddefnyddwyr Hybiau Menter

7.21. Wrth wneud sylwadau ar y gwasanaethau a ddefnyddiwyd, roedd y prif themâu cadarnhaol a godwyd gan y defnyddwyr a holwyd ac a gyfwelwyd yn ymwneud â'r canlynol:

- cymwynasgarwch y staff ac roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol: 'pobl anhygoel'; 'cyngor ardderchog'; 'cefais groeso cynnes iawn gan Angharad a'r tîm', 'mae'r cyngor un-i-un hefyd wedi bod yn wych, gan roi cynlluniau gweithredu a chefnogaeth barhaus i mi yn ôl yr angen' ac 'mae gan reolwr yr hwb gysylltiadau da iawn'
- ansawdd y ddarpariaeth. Roedd y sylwadau'n cynnwys 'cyrsiau rhagorol'; 'trefnus, proffesiynol iawn'; 'cyrsiau a digwyddiadau da iawn'; 'roedd mynediad at lyfrgell fideo yn ddefnyddiol iawn' ac 'yn gyffredinol roedd y rhaglen hon yn llawer mwy perthnasol a defnyddiol na Busnes Cymru'
- manteision cwrdd ag entrepreneuriaid eraill. Roedd y sylwadau'n cynnwys: 'cymuned anhygoel o entrepreneuriaid'; 'mae gallu cysylltu â busnesau eraill i gael syniadau, cyngor a chymorth wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu ein busnes i dyfu'; ac 'mae'r cyfarfod rhwydweithio misol, sydd fel arfer yn cynnwys sgwrs neu

rywbeth tebyg, hefyd yn ddefnyddiol iawn ac yn gyfle i ddod i adnabod menywod eraill mewn busnes. Mae un ohonyn nhw'n dod i wneud y sesiwn tynnu lluniau ar gyfer fy musnes nawr, ac ni fyddai hynny wedi digwydd pe na bawn i wedi ymuno â'r Hwb'

- natur ragweithiol y gefnogaeth ac amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael. Ymhlith y sylwadau roedd: 'mae'r Hwb bob amser yn chwilio am ffyrdd i gefnogi'; 'mae ICE Cymru bob amser yn gofyn pa weithdai rydym eu heisiau ac yn hapus i roi cynnig ar weithdai mwy anarferol hefyd' ac 'amrywiaeth mawr o ddigwyddiadau'

7.22. Cododd nifer bach o ddefnyddwyr a holwyd ac a gyfwelwyd broblemau'n ymwneud â'r gwasanaethau yr oeddent wedi'u defnyddio, ac roedd y rhain yn ymwneud â:

- y ffaith bod yr Hwb yn fwy addas ar gyfer pobl ifanc (Hwb Menter Caerffili yn benodol). Roedd y sylwadau'n cynnwys: 'rwyf wedi bod i un digwyddiad, ac roeddwn i o leiaf 20 mlynedd yn rhy hen ar ei gyfer' ac 'oni bai eich bod rhwng 18-25 ... dyw e ddim yn groesawgar'
- yr angen am fwy o gymorth lefel uchel gan 'arbenigwyr' yn hytrach na chan y rhai sydd newydd ddechrau eu hunain, er mwyn diwallu anghenion busnesau mwy arbenigol
- y ffaith nad yw'r Hwb yn groesawgar nac yn darparu ar gyfer eu hanghenion. Dywedodd un ymatebydd o'r fath i'r arolwg 'fe wnes i fwynhau'r clwb 5-9 a dechrau fy musnes, fodd bynnag; y tu hwnt i'r sesiynau cychwynnol hynny, buan iawn y trodd ICE Cymru yn sefydliad digroeso, cul, rhagfarnllyd, a gwahaniaethol i'r fath raddau nes fy mod i'n teimlo fy mod wedi fy allgáu a doeddwn i ddim am fod yn gysylltiedig â nhw mwyach'.

7.23. Roedd nifer o'r awgrymiadau ar gyfer gwella darpariaeth Hybiau Menter a awgrymwyd gan ddefnyddwyr yn ymwneud â themâu tebyg. Roedd y rhai y cyfeiriwyd atynt amlaf yn ymwneud â:


- sicrhau cydbwysedd rhwng darpariaeth rithwir a darpariaeth bersonol, gydag anghenion gwahanol yn awgrymu y byddai dull hybrid yn cael ei groesawu yn y dyfodol: roedd rhai defnyddwyr eisiau gallu cael mwy o gymorth wyneb yn wyneb, gan alw am 'fwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb', ond roedd eraill eisiau gweld 'cyrsiau o bell' yn parhau oherwydd anawsterau i gyrraedd y lleoliad. Dywedodd un 'fe fynychais y clwb 5-9 ac roedd hi'n anodd teithio yno ac yn ôl oherwydd problemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus'

- gwella'r gwaith o hyrwyddo'r cyfleusterau a'r ddarpariaeth, gwella arwyddion ar adeiladau i 'esbonio beth yw pwrpas y gofod'; codi mwy o ymwybyddiaeth: 'mae angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth'; a rhannu straeon llwyddiant: 'hoffwn i'w gwaith caled gael mwy o gyhoeddusrwydd'
- darparu cymorth mwy priodol ar 'y lefel uchel' i 'fusnesau sy'n tyfu' y credai rhai y byddai angen i'r hybiau ddefnyddio 'ystod ehangach o sgiliau' ymhlith aelodau'r tîm cyflawni
- egluro pwrpas Hybiau Menter o ystyried y problemau a gafodd rhai defnyddwyr mewn un Hwb Menter: 'Mae'n dibynnu [ar] beth yw'r weledigaeth ar gyfer ICE. Ai cynnig cymunedol i weithwyr llawrydd ifanc ydyw? Os felly, mae'n gwneud gwaith gwych ac nid oes angen iddo newid. Ai helpu i ddechrau busnesau a fydd yn tyfu ac yn cyflogi pobl yw'r nod? Os felly, yna mae'n debyg bod angen ei ailwampio'
- lleihau'r gwaith papur y mae angen i ddefnyddwyr ei lenwi
- gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a chynhwysol, yn enwedig i bobl anabl â namau penodol.

**Y gwahaniaeth a wnaed i ddefnyddwyr**

7.24. Mae Hybiau Menter wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i sgiliau busnes a gwybodaeth busnes defnyddwyr a holwyd, yn ogystal â chaniatáu iddynt gwrdd â phobl eraill o'r un anian a rhoi hwb i'w hyder, fel y dangosir yn Ffigur 7.3. Mae’r data hefyd yn awgrymu bod Hybiau Menter wedi cefnogi 39 y cant o’r defnyddwyr a gymerodd ran yn yr arolwg i ddechrau busnes a 37 y cant i dyfu eu busnes.

**Ffigur 7.3: Y gwahaniaeth a wnaed gan Hybiau Menter**




Ffynhonnell: Arolwg OB3 o 171 o ddefnyddwyr Hybiau Menter

7.25. Dywedodd cyfran fach o’r rhai a holwyd (6 y cant) fod y ganolfan wedi eu helpu mewn ffyrdd eraill, ac roedd rhai o’r sylwadau a gynigiwyd yn cynnwys y canlynol:

- 'mae'n rhoi lle tawel i mi wneud fy ngwaith papur ariannol, gwneud galwadau ffôn, a dal i fyny â thasgau 'swyddfa' eraill
- 'fe wnaeth fy helpu i gael ffocws eto ar ôl Covid'
- 'mae wedi darparu gofod cost isel, mewn lleoliad cyfleus i fy nhîm bach gwrdd yn achlysurol nawr ein bod wedi newid i drefniadau gweithio o bell'.

7.26. Pwysleisiodd y defnyddwyr a gyfwelwyd werth y cymorth iddynt a phwysleisiwyd yr hyder a gawsant o allu cael cymorth mewn man diogel gan wybod 'nad oedd unrhyw gwestiwn gwirion yn yr hybiau ... roedd yn lle diogel i drafod pryderon.' O gymharu â chymorth arall a ddefnyddiwyd, ystyriwyd bod y ddarpariaeth drwy'r Hybiau Menter yn fwy 'cyfeillgar' a chynhwysol, a phwysleisiodd rhai y rôl bwysig a chwaraeir gan y gymuned fenter ei hun, nid dim ond y staff, o ran helpu i ddarparu atebion i'w problemau.

7.27. Roedd nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn teimlo na fyddent yn eu sefyllfa bresennol oni bai am y cymorth. Ymhlith y sylwadau a wnaed roedd y canlynol:

- 'fydden ni ddim wedi dechrau heb yr hwb'
- 'byddwn wedi dychwelyd i gyflogaeth oni bai am yr hwb'
- 'fyddwn i ddim wedi cael cymaint o gymhelliant'
- 'fyddwn i ddim wedi llwyddo i sefydlu'r busnes'
- 'Fyddai'r prosiect hwn ddim wedi digwydd'

- 'Rwy'n fwy cynhyrchiol, mae fy llesiant yn dda. Mae bod yma wedi gwneud gwahaniaeth mawr'.

7.28. Amlygodd y cyfranwyr eraill werth presenoldeb lleol a gynigir gan yr Hybiau fel rhywbeth hanfodol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn absenoldeb yr hybiau, credai darparwyr y byddai'r dirwedd entrepreneuraidd yn ei chael hi'n anodd gan y byddai'n dileu cymuned o entrepreneuriaid.

**Y gwahaniaeth a wnaed i adfywio canol trefi**

7.29. Ystyriwyd bod un o'r hybiau, Hwb Menter Wrecsam, wedi helpu i adfywio'r stryd fawr, o ystyried ei leoliad a'i lwyddiant o ran integreiddio i'r gymuned leol. Er bod Hwb Menter y Drenewydd yn agos at ganol y dref, nid oes ganddo bresenoldeb ar y stryd fawr na nifer fawr o ddefnyddwyr (nifer yr ymwelwyr) i gael effaith debyg. Roedd y cyfranwyr yn fwy gobeithiol y byddai'r Hwb Menter lloeren yng Nghaerfyrddin sydd wedi'i leoli ar y stryd fawr yn y dref yn gwneud mwy o gyfraniad at adfywio canol y dref o gymharu â'r prif hwb y tu allan i'r dref ac yn ddiweddar roedd wedi dangos gwerth presenoldeb ar y stryd fawr yn ystod digwyddiad prawf masnachu.

7.30. Er nad ydynt wedi'u lleoli'n uniongyrchol ar y stryd fawr, credwyd bod Hybiau Menter eraill wedi cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at adfywio canol trefi. Er enghraifft, roedd Hwb Menter y Drenewydd wedi darparu cyfleoedd masnachu i fanwerthwyr lleol tra bod Hwb Menter Ynys Môn wedi bod yn rhan o'r fenter Trefi Smart.

Paratowyd adroddiad bach ar effaith[97] gan Town Square Spaces ar ddwy flynedd gyntaf gwasanaethau Hwb Menter Wrecsam ers iddo agor ym mis Mai 2018. Er nad yw canfyddiadau'r astudiaeth wedi'u dilysu gan y tîm ymchwil, nododd:

- bod gan yr Hwb 130 o aelodau
- bod yr adborth gan fusnesau a gefnogwyd yn gadarnhaol, yn enwedig o ran sut yr oedd yr Hwb wedi helpu busnesau i dyfu a chynyddu hyder ymhlith entrepreneuriaid
- bod yr Hwb wedi helpu i newid perthynas pobl â'u tref enedigol, gyda mwy yn gweld Wrecsam fel lle mwy amrywiol, deinamig a diwylliannol ddiddorol
- bod yr aelodau yn rhoi gwerth ar yr ymdeimlad o gymuned yr oeddent yn ei gael yn yr Hwb, a bod yr Hwb wedi helpu i gynyddu cydlyniant cymunedol, yn enwedig rhwng y cymunedau Cymreig a Phwylaidd yn Wrecsam.

[97] Wrexham Impact Report | TownSq (thetownsquare.co.uk)

## 8. Casgliadau a syniadau ar gyfer y dyfodol

8.1. Mae'r bennod hon yn nodi ein casgliadau ynghylch gwaith ac effaith yr Hybiau Menter ac maent wedi'u grwpio'n bedair thema allweddol. Gan ddefnyddio'r adborth a gasglwyd yn ystod y gwaith maes a'r dadansoddiad desg o bolisïau perthnasol ac arferion gorau, mae'r bennod hon hefyd yn nodi ein barn ar fodelau cyflawni posibl yn y dyfodol a'r rôl y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae i gefnogi entrepreneuriaid yn y dyfodol. I gynorthwyo hyn, rydym wedi trefnu ein syniadau o amgylch egwyddorion allweddol ar gyfer y dyfodol.

**Casgliadau allweddol ynghylch effaith yr Hybiau Menter**

**Thema 1: Mae Hybiau Menter wedi gweithio'n dda mewn achosion ble roedd yr holl ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd ar waith.**

8.2. Mae cyflwyno pum Hwb Menter ledled Cymru wedi bod yn ymarfer defnyddiol i nodi beth sy'n gweithio'n dda ac o dan ba amgylchiadau. Y sail resymegol dros gyflwyno Hybiau Menter oedd nad oedd anghenion darpar entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar yn cael eu diwallu drwy'r ddarpariaeth a oedd ar gael ar y pryd. Rhagwelwyd y byddai sefydlu mannau deori (gofod i 'ddarpar entrepreneuriaid') gyda mannau gweithio a rennir a chymorth cofleidiol priodol yn creu ecosystem ffyniannus o amgylch yr entrepreneur. Bwriadwyd i'r Hybiau Menter gael eu lleoli yn y mannau cywir, gyda chysylltiadau da a chael eu bywiogi gan reolwyr yr Hwb a fyddai'n gweithredu fel cysylltydd rhwng y gymuned fenter ac asiantau a darparwyr cymorth allweddol eraill.

8.3. Y ffactorau llwyddiant allweddol sy'n gysylltiedig â Hybiau Menter llwyddiannus yw lleoliad, cyfleusterau, a rôl ymgysylltydd cymunedol. Yn ein barn ni, mae pob un o'r pum Hwb Menter wedi gallu dangos yr olaf o'r nodweddion hyn. Un o gryfderau nodedig y gwasanaeth yw rôl, brwdfrydedd ac ansawdd rheolwyr yr Hybiau Menter a'u timau sy'n bywiogi eu gofod ac yn sicrhau bod cymorth personol wedi'i deilwra ar gael i gleientiaid. Mae tri o'r pum Hwb Menter yn dangos yr holl ffactorau llwyddiant allweddol hyn ac yn cynnig, i raddau amrywiol, y cyfleusterau priodol sydd eu hangen ar ddefnyddwyr. Mae'r tri hwb hyn mewn lleoliadau priodol ac yn darparu amgylchedd addas i ddefnyddwyr weithio ynddo.

8.4. Awgryma'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r adolygiad hwn y bu llai o alw am ddau o leoliadau'r Hwb Menter, sef yr un yn yr Egin yng Nghaerfyrddin a'r un yn adeilad Pryce Jones yn y Drenewydd, yn rhannol oherwydd y pandemig COVID-19 ond hefyd

oherwydd ffactorau fel eu cyfleusterau a'u lleoliad. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, nid ydym yn meddwl y byddai'n briodol i'r lleoliadau hyn barhau fel Hybiau Menter ar ôl 2022. Y prawf eithaf ar gyfer Hwb Menter llwyddiannus yw ei fod yn fan ffisegol atyniadol sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth ac oherwydd amrywiaeth o ffactorau, nid yw'n ymddangos bod y ddau leoliad hyn wedi cyflawni hynny.

8.5. O ran gwella'r gofod sydd ar gael mewn Hybiau Menter yn fwy cyffredinol, y negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r adolygiad hwn yw bod angen i ofod fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer anghenion pobl sy'n chwilio am ofod i gydweithio ac arloesi yn ogystal â mannau tawel a chyfrinachol i gymryd rhan mewn tasgau sy'n galw am ganolbwyntio a sgyrsiau rhithwir. Rhaid i ofod sicrhau bod y pethau sylfaenol yn gywir hefyd, boed hynny o ran cyfleusterau caffi, cysylltiadau trafnidiaeth, cyfleusterau parcio, ac amgylchedd swyddfa er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n darparu amgylchedd cydnaws a chadarnhaol i weithio ynddo. Dylai Llywodraeth Cymru annog Hybiau Menter i gynnig a mabwysiadu'r cyfleusterau hyn lle bo hynny'n ymarferol.

**Thema 2: Mae Hybiau Menter wedi chwarae rhan bwysig o ran ymgysylltu ag entrepreneuriaid na fyddent o reidrwydd wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru ac maent wedi gwneud cyfraniad ystyrlon at eu taith tuag at ddechrau busnes.**

8.6. Mae'r Hybiau Menter wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â charfan ehangach o ddarpar entrepreneuriaid a busnesau cyfnod cynnar na fyddent fel arall wedi ymgysylltu â darpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru. Ffactor allweddol yn hyn o beth fu'r ffordd y mae lleoliadau unigol wedi hyrwyddo ac ymgysylltu â'u cynulleidfa darged mewn modd creadigol wedi'i deilwra, gan gynnwys drwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eu hunain. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw cleientiaid yn arbennig o gyfarwydd â brand yr Hybiau Menter. Yn achos tri lleoliad, mae brand y darparwr neu'r lleoliad h.y., M-Sparc, ICE Cymru, Town Square Space yn fwy adnabyddus, gan atgyfnerthu pwysigrwydd hunaniaeth leol wrth ymgysylltu ag entrepreneuriaid cyfnod cynnar a'u recriwtio.

8.7. At ei gilydd, mae Hybiau Menter wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â darpar entrepreneuriaid o fewn dalgylch daearyddol eu lleoliad, er bod tystiolaeth bod lleoliadau lloeren, lle y maent wedi'u mabwysiadu, wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ddenu cleientiaid o'u dalgylch cyfagos hefyd. Mae'r newid i ddarpariaeth ddigidol, a ysgogwyd yn bennaf gan effaith y pandemig, wedi galluogi Hybiau Menter i gyrraedd dalgylch

daearyddol ehangach gan eu bod wedi cefnogi cleientiaid ar draws mwy nag un awdurdod lleol. Mae cyflwyno cyrsiau rhithwir i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, gan gynnwys sesiynau i gleientiaid o ardaloedd awdurdodau lleol penodol, wedi cael croeso gwresog. Nid yw'r Hybiau Menter wedi llwyddo i sicrhau cwmpas rhanbarthol cynhwysfawr ac nid oedd unrhyw ddisgwyliad y dylent wneud hynny o ystyried na fyddai Hwb Menter o’r enw ‘Caerfyrddin’ neu ‘Y Drenewydd’ byth yn taro deuddeg gyda darpar gleientiaid cyn belled ag Abertawe neu Aberystwyth. Yn gyffredinol, mae cleientiaid yr Hybiau Menter sy’n defnyddio’r cyfleusterau yn bersonol yn parhau i fod yn weddol leol i bob lleoliad ac mae angen cadw hyn mewn cof wrth gyllido unrhyw ddarpariaeth ffisegol debyg yn y dyfodol.

8.8. Mae'r Hybiau Menter wedi llwyddo i sicrhau bod gwasanaethau cymorth entrepreneuraidd ar gael i ddefnyddwyr y tu allan i oriau gwaith safonol. Mae'r hybiau wedi gwneud cyfraniad pwysig at hwyluso digwyddiadau a gweithdai, gyda defnyddwyr yn gwneud defnydd da o’r hybiau at y diben hwn. Dywedodd y defnyddwyr yn gyson eu bod yn gwerthfawrogi’r cymorth wedi’i deilwra o ansawdd uchel a gawsant a'u bod yn cydnabod gwerth lleoliad yr hwb fel lle i gyfarfod a rhwydweithio ag entrepreneuriaid eraill.

8.9. Mae tystiolaeth bod y mannau ffisegol yn ogystal â'r cymorth a ddarperir gan yr Hybiau Menter yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynyddu hyder darpar entrepreneuriaid, gwella eu llesiant, a chynyddu eu gallu i ddechrau busnes. Awgryma'r dystiolaeth hefyd fod y cymorth sydd ar gael drwy’r Hybiau yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i sgiliau a gwybodaeth entrepreneuriaid cynnar.

### Thema 3: Mae i ba raddau y mae Hybiau Menter wedi cyflawni’r amcanion a ariannwyd yn amrywio, ac mae'r perfformiad cyffredinol yn erbyn y DPA a ariannwyd yn wannach na’r disgwyl.

8.10. Mae Hybiau Menter wedi ymgysylltu’n llwyddiannus â charfan fawr o ddefnyddwyr, gyda thros 20,000 o fynychwyr wedi’u cofnodi mewn sesiynau rhithwir. Mae perfformiad yn erbyn eu DPA a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn wannach ac ar draws y pum lleoliad dim ond hanner eu targed ar gyfer busnesau newydd yr oedd yr Hybiau wedi’i gyflawni adeg drafftio'r adroddiad hwn. Mae perfformiad yn erbyn y DPA a ariannwyd yn amrywio'n sylweddol ar draws lleoliadau unigol. Er bod effaith y pandemig i'w gyfrif am rywfaint o’r perfformiad gwannach na’r disgwyl, mae’r gwahaniaeth mewn perfformiad o un lleoliad i’r llall yn awgrymu bod ffactorau eraill, megis maint y galw

posibl, hefyd wedi bod yn bwysig. Mae lleoliadau a oedd eisoes wedi'u sefydlu cyn iddynt ymgymryd â'r ddarpariaeth Hybiau Menter, sy’n elwa o fod wedi profi’r galw am ddarpariaeth yn flaenorol ac sy’n fwy adnabyddus yn lleol, wedi perfformio’n well dros gyfnod y contract yn erbyn y DPA a ariannwyd na rhai mwy newydd. Mae hyn yn awgrymu bod yr elw ar fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus yn well ar gyfer lleoliadau sydd wedi cael cymorth i ymestyn eu darpariaeth yn hytrach na’r rhai sydd wedi cyflwyno modelau peilot newydd. Derbynnir wrth gwrs ei bod yn cymryd amser i sefydlu lleoliadau newydd, yn ogystal â'r cymorth a gynigir a'r galw gan gleientiaid.

8.11. Fodd bynnag, mae’n bwysig pwysleisio nad yw’r DPA a ariannwyd a bennwyd ar gyfer Hybiau Menter wedi adlewyrchu ehangder y gwaith a wneir gan bob lleoliad ac mae dadl gref, pe bai Llywodraeth Cymru yn parhau i’w hariannu yn y dyfodol, i fabwysiadu set ehangach o ddangosyddion sy’n adlewyrchu’n well eu cylch gwaith o ran hwyluso gweithgareddau allgymorth, darparu digwyddiadau a gweithdai i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, atgyfeirio pobl at ddarpariaeth prif ffrwd, cefnogi rhwydwaith o entrepreneuriaid a chefnogi pobl ifanc o dan 18 oed. DPA pwysig arall fyddai'r amser y dylai busnes aros mewn Hwb Menter er mwyn sicrhau nad yw lleoliadau’n annog dibyniaeth ond yn hytrach yn annog busnesau i symud i ofod sy'n eu galluogi i dyfu pan fo’r amser yn iawn i wneud hynny, gan gydnabod y gallai mannau o’r fath fod yn brin yn eu hardal.

### Thema 4: Mae'r Hybiau Menter wedi ychwanegu gwerth at yr ecosystem cymorth busnes, ond nid yw hyn o reidrwydd wedi arwain at fwy o lif o gleientiaid ar gyfer darparwyr prif ffrwd.

8.12. Mae'r Hybiau Menter wedi ychwanegu gwerth at ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru drwy wneud gwaith allgymorth a hwyluso cysylltiadau â busnesau lleol a grwpiau cymunedol – swyddogaethau nad ydynt yn cael eu hariannu’n uniongyrchol drwy ddarpariaeth prif ffrwd Busnes Cymru. Mae negeseuon cryf cyson am y rôl a gyflawnir gan reolwyr yr Hybiau o ran cryfhau'r rhyngweithio cymdeithasol a gweithredu fel sianel rhwng y gymuned cymorth busnes a chynulleidfa darged. Er eu bod yn ychwanegu gwerth ac yn ymestyn yr ecosystem cymorth busnes ledled Cymru, dim ond niferoedd bach o gleientiaid yr Hybiau Menter sy’n cael eu cyfeirio at ddarparwyr prif ffrwd Busnes Cymru gan fod yn well gan gleientiaid gael cymorth busnes drwy eu Hwb Menter.

8.13. Mae tystiolaeth dda bod yr Hybiau Menter yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau partner. Mae pa mor agos yn ddaearyddol yw'r sefydliad partner a'r hwb ei hun yn ffactor

allweddol sy'n dylanwadu ar yr ymgysylltiad. Er bod yr Hybiau Menter yn gweithio'n agos gyda'u SAB lleol, dim ond mewn dau achos y gwelir cydweithio ystyrlon â SAU. Byddai'n werth cryfhau'r cydweithio rhwng y ddarpariaeth ddeori a SAU yn y dyfodol, gan fod tystiolaeth o fannau eraill yn awgrymu bod hyn yn helpu i wella perfformiad a chanlyniadau busnes.

**Dyfodol yr Hybiau Menter**

8.14. Mae’r adran hon yn seiliedig ar bum egwyddor strategol i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

**Egwyddor strategol 1: Mae'r cyflenwad a'r galw ar draws y dirwedd ehangach yn parhau i esblygu gan ei gwneud yn anodd nodi meysydd o fethiant yn y farchnad.**

*Materion yn ymwneud â chyflenwad*

8.15. Yn ddiweddar, bu cynnydd amlwg yn argaeledd mannau gwaith a rennir a hybiau deori eraill ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r mannau gwaith hyn wedi'u crynhoi yn y de ddwyrain er bod nifer fach wedi'u lledaenu'n ehangach ar draws gweddill Cymru. Byddai’n ymarferol disgwyl i awdurdodau lleol gefnogi mwy o fannau gwaith a rennir neu hybiau deori o ystyried y gellir defnyddio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gefnogi busnesau lleol, a fyddai’n cynnwys cymorth i unigolion sy’n dechrau busnesau a chyfleoedd i hyrwyddo rhwydweithio a chydweithio.

8.16. Dim ond Hybiau Menter mewn meysydd lle mae’r farchnad yn methu lle nad yw'r sector preifat neu sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch a'r trydydd sector yn weithredol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu cefnogi a'u cyllido. O ystyried y bydd y dirwedd gyflenwi yn parhau i esblygu dros yr ychydig fisoedd nesaf ac y bydd ond yn dod yn gliriach ar ôl i benderfyniadau ynghylch sut y bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei defnyddio gan awdurdodau lleol, nid yw’n bosibl cynnig unrhyw argymhellion clir ar feysydd o fethiant yn y farchnad ar hyn o bryd. O ystyried yr heriau sy’n gysylltiedig â nodi meysydd posibl o fethiant presennol yn y farchnad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol i fapio lle y gellid cyflwyno unrhyw weithleoedd a rennir a deoryddion a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

8.17. O ystyried hyn, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r cyllid y mae wedi’i ddyrannu ar gyfer Hybiau Menter mewn ffordd fwy hyblyg am y tro yn hytrach na’i ymrwymo i unrhyw leoliadau penodol. Mae cyfle i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei

chyllid mewn ffordd fwy effeithiol yn y dyfodol drwy gefnogi mannau gwaith eraill a rennir ac efelychu'r cydweithio rhyngddynt hwy a Busnes Cymru. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lleoli staff yr Hwb Menter mewn mannau gwaith a rennir nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, dylid cyfeirio cyllid yn y dyfodol at staff, yn hytrach na gofod.

*Materion yn ymwneud â'r galw*

8.18. Mae angen lefel ddigonol o alw gan gleientiaid er mwyn sicrhau Hybiau Menter llwyddiannus. Mae profiad yr Hybiau Menter a ariannwyd wedi dangos bod cefnogi hybiau mewn ardaloedd lle nad oes digon o alw am ofod cydweithio yn arwain at fannau lle ceir diffyg 'bwrlwm' i gefnogi cymuned o entrepreneuriaid. Er bod ymchwil yn awgrymu y bydd gweithio o bell yn parhau a bod y galw am fannau gwaith ‘lleol’ a rennir yn debygol o gynyddu, mae llawer o ffactorau'n parhau i fod yn anhysbys ynghylch sut y bydd y galw’n cynyddu dros amser ac a fydd busnesau’n croesawu model hybrid yn yr hirdymor. Er mai dim ond drwy ddarpariaeth beilot y gellir asesu’r galw cudd am hybiau menter yn gywir, rydym serch hynny yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymchwil barhaus i fapio ardaloedd ble nad oes darpariaeth. Gallai hyn gynnwys monitro'r ddarpariaeth a'r galw am wasanaethau yn barhaus i sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn y dyfodol yn cael eu targedu'n gywir at feysydd lle mae'r farchnad yn parhau i fethu.

**Egwyddor strategol 2: Mae angen blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gwasanaethau sy'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian a'r elw mwyaf ar fuddsoddiad.**

8.19. Mae'r buddsoddiad mewn Hybiau Menter wedi bod yn sylweddol, a disgwylir y bydd £6.4 miliwn wedi’i wario ar eu darpariaethau dros gyfnod o bedair blynedd (pump yn achos Hwb Menter Wrecsam) erbyn mis Medi 2022. Mae hyn yn cymharu â lefel llawer is o gyfraniad ariannol a wnaed gan Lywodraeth Cymru tuag at fannau gwaith a rennir (tua £25,000 fesul lleoliad), er bod y gwasanaethau a ddarperir drwy’r Hybiau Menter yn sylweddol ehangach. O ystyried y bydd llai o gyllid ar gael i Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith Hybiau Menter ar ôl i gyllid yr UE ddod i ben, byddem yn argymell defnyddio adnoddau i gefnogi darpariaeth sy’n ychwanegu’r gwerth mwyaf at gymorth busnes prif ffrwd. Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd drwy'r astudiaeth hon, byddai hyn yn ymwneud ag adnoddau staff er mwyn sicrhau y gellir parhau i ymgysylltu â phartneriaid, gweithgareddau allgymorth, rhwydweithio a chymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes.

8.20. Prawf allweddol wrth benderfynu sut y dylid blaenoriaethu cyllid yn y dyfodol fyddai ystyried beth fyddai'n digwydd i'r pum Hwb Menter pe bai cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei dynnu'n ôl. O ran mannau ffisegol, byddai dau o'r Hybiau Menter (Ynys Môn a Chaerffili) yn dal i fodoli a byddai gofod amgen i'r Egin yn y Gofod a Rennir yng Nghaerfyrddin yn debygol o barhau. Mae'n debyg y byddai Hwb Menter y Drenewydd yn cau (oni bai bod cyfle addas ar y stryd fawr), a byddai llawer o ansicrwydd yn codi yn achos Hwb Menter Wrecsam. Mae'r hwb hwn yn rhan bwysig o strategaeth Town Square Spaces y Dref ar gyfer y dyfodol, felly byddai siawns gref y byddai'n goroesi pe bai'n gallu sicrhau cyllid o ffynhonnell arall. Mae'n dilyn mai'r hybiau sydd fwyaf tebygol o barhau heb unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru yw'r rhai a ddefnyddir fwyaf fel mannau gwaith a rennir h.y., y rhai sydd â chymuned gref o entrepreneuriaid ac sydd â'r 'bwrlwm' mwyaf. Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i ychwanegu gwerth at leoliadau o'r fath drwy gefnogi swyddogaethau ymgysylltu â phartneriaid, gweithgareddau allgymorth, rhwydweithio, a darparu cymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau eu busnes.

**Egwyddor strategol 3: Mae gan Hybiau Menter y potensial i chwarae rhan bwysig o ran helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithio o bell, adfywio canol trefi a chadw pobl ifanc dalentog.**

8.21. Mae ymgyrch glir i gynyddu argaeledd mannau gwaith a rennir ledled Cymru i gefnogi strategaeth gweithio o bell Llywodraeth Cymru ac mae tystiolaeth o hyn eisoes ar lawr gwlad o ran cynyddu'r ddarpariaeth. Mae Hybiau Menter mewn sefyllfa dda i gyfrannu at weithredu'r strategaeth hon gan fod y lleoliadau hyn yn darparu mannau gwaith arbenigol a rennir ar gyfer cymuned benodol o ddefnyddwyr. Awgrymwyd gan y cyfranwyr at yr astudiaeth hon y gallai Hybiau Menter wella eu cyfraniad at y strategaeth hon ymhellach drwy ddenu cynulleidfa ehangach h.y., nid yn unig entrepreneuriaid newydd ond busnesau sefydledig a gweithwyr llawrydd. Awgrymwyd y gallai'r Hybiau 'gael mwy o hyblygrwydd' a chael eu defnyddio at ddiben ehangach a chan garfan ehangach o bobl sydd am eu defnyddio at ddibenion cydweithio. Er y gallai hyn fod yn ymarferol, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith, er y gallai'r cyfleusterau sydd eu hangen ar ddefnyddwyr mannau gwaith a rennir a hybiau menter fod yn debyg, fod y ddarpariaeth gofleidiol ychwanegol a ddarperir gan hybiau menter (o ran hwyluso cymuned o entrepreneuriaid) yn eu gwahaniaethu oddi wrth fannau gwaith cyffredinol eraill a rennir. Dylai Hybiau

Menter ochel rhag dod yn fannau gwaith a rennir sy'n fannau mwy cyffredinol gan y gallai hynny beryglu eu pwrpas sylfaenol.

8.22. Un o gryfderau allweddol yr Hybiau Menter a nodwyd yn yr adolygiad hwn yw eu gallu i ymateb yn gyflym i flaenoriaethau a galwadau penodol Llywodraeth Cymru ar sail gydweithredol. Byddai'n werth cadw'r model hwn ar gyfer y dyfodol ac felly dylai unrhyw drefniadau cytundebol yn y dyfodol sicrhau bod gwahanol gontractwyr yn parhau i gydweithio. Mae'r Hybiau Menter mewn sefyllfa dda i gyflawni blaenoriaethau’r Rhaglen Lywodraethu megis yr agenda lleihau carbon drwy sicrhau bod cymorth i entrepreneuriaid yn ymgorffori'r mater hwn.

8.23. Mae'r Hybiau Menter hefyd mewn sefyllfa dda i gyflawni blaenoriaeth y Rhaglen Lywodraethu o gefnogi canol trefi i ddod yn fwy ystwyth. Hyd yn hyn, dim ond un hwb sydd â phresenoldeb ar y stryd fawr er bod gweithrediadau lloeren yn gweithredu fwyfwy mewn lleoliadau o'r fath. Mae'r adborth yn awgrymu bod y modelau stryd fawr hyn yn gweithio'n dda gan fod pobl yn cerdded heibio a'u bod yn cael eu hystyried yn lleoliadau hygyrch i gleientiaid newydd. Gallai hybiau'r dyfodol chwarae rhan bwysig o ran defnyddio eiddo gwag ar y stryd fawr a byddem yn argymell bod unrhyw gyfleoedd newydd a allai gael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cael eu lleoli mewn eiddo gwag ar y stryd fawr. Mae lle i gydweithio â phartneriaid megis awdurdodau lleol, a allai nodi a chyflenwi’r mathau hyn o eiddo ac i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn yr adnoddau staffio sydd eu hangen i sefydlu a bywiogi'r gofod.

8.24. O ystyried yr heriau sy’n gysylltiedig â phobl ifanc yn allfudo, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu’r amodau lle mae mwy o bobl ifanc yn teimlo’n hyderus ynghylch cynllunio eu dyfodol yng Nghymru. Mae gan Hybiau Menter rôl bwysig i’w chwarae o ran helpu Cymru i ddod yn lle mwy deniadol i bobl ifanc fyw a gweithio ynddo, ac mae’r ffaith bod nifer o’r Hybiau presennol yn cael eu hystyried yn fannau deniadol i bobl ifanc yn dangos bod ganddynt rôl i’w chwarae mewn gwella'r elfennau cymdeithasol a diwylliannol sydd gan leoedd i'w cynnig a lleihau’r 'draen dawn'[98]. Byddem felly’n argymell y dylid bod yn fwy parod i dderbyn y ffaith bod rhai modelau Hwb Menter yn arbennig o ddeniadol i bobl ifanc a’u bod yn manteisio ar y cryfder hwn yn y dyfodol gan fod y galw wedi dangos mai dyma’r gynulleidfa naturiol ar gyfer rhai o’r Hybiau Menter.

[98] IWA View: No Country for Young Folks: Looking for the Full Picture of the Welsh ‘Brain Drain’ - Sefydliad Materion Cymreig

**Egwyddor strategol 4: Mae lle i sicrhau mwy o gydlyniant rhwng unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol a'r ecosystem cymorth busnes ehangach.**

8.25. Mae Hybiau Menter wedi sefydlu cysylltiadau da â'r ecosystem cymorth busnes ehangach ond mae lle i wella'r rhain yn y dyfodol a lleihau dyblygu. Mae rhai o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Hybiau Menter, megis cyrsiau digidol i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, wedi bod yn debyg i'r hyn sydd ar gael drwy Busnes Cymru, er ei fod wedi'i becynnu mewn ffordd wahanol a'i hyrwyddo i gynulleidfa wahanol er mwyn ategu darpariaeth prif ffrwd. Byddem yn argymell bod gwell cymhelliant yn cael ei gynnig i unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod cleientiaid yn pontio'n ddidrafferth o gam cyntaf y daith i ddarpariaeth cymorth busnes mwy prif ffrwd fel yr hyn a ddarperir gan Busnes Cymru a bod DPA mwy ffurfiol yn cael eu mabwysiadu mewn perthynas ag atgyfeirio cleientiaid. Byddem hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn annog cydleoli unrhyw ddarpariaeth a ariennir yn y dyfodol a darpariaeth Busnes Cymru, gan wneud defnydd cynyddol o fannau deori a mannau gwaith a rennir sydd ar gael ledled Cymru Mae achos hefyd dros fabwysiadu mwy o DPA sy'n adlewyrchu'n well natur darpariaeth yr Hybiau Menter, yn enwedig o ran ymgysylltu â chleientiaid a phartneriaid, hwyluso rhwydweithiau busnes a natur y cymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes.

8.26. Ni ddatgelodd y gwaith maes unrhyw gonsensws ynghylch a ddylai unrhyw ddarpariaeth Hwb Menter yn y dyfodol gael ei hymgorffori yn Busnes Cymru ai peidio, gan fod manteision ac anfanteision i wneud hynny. Nodwyd mai'r manteision yw mwy o synergedd a mwy o atgyfeiriadau gan gleientiaid a mai'r anfanteision yw llai o hyblygrwydd a llai o ddulliau recriwtio creadigol. Ar y sail honno, nid ydym yn argyhoeddedig y byddai ymgorffori darpariaeth Hwb Menter yn y dyfodol yn Busnes Cymru yn arwain at unrhyw fanteision sylweddol i gyfiawnhau newid o'r fath.

**Egwyddor strategol 5: Mae angen model darpariaeth hybrid sy'n mabwysiadu darpariaeth ddigidol yn ogystal â darpariaeth bersonol yn y dyfodol.**

8.27. Mae'r adborth a gasglwyd gan ddefnyddwyr a chyfranwyr eraill yn awgrymu bod angen yr elfennau ffisegol o'r Hybiau Menter (h.y., mynediad i ofod cydweithio, lle i rwydweithio ag entrepreneuriaid eraill) yn ogystal â'r gwasanaethau eraill y maent yn eu darparu (h.y. cymorth busnes, cyrsiau i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes a digwyddiadau rhwydweithio). Awgryma'r adborth y dylai'r gwasanaethau eraill hyn fod ar gael yn

bersonol yn ogystal ag yn rhithwir, gan fod gan ddefnyddwyr gwahanol hoffterau gwahanol o ran eu dull ymgysylltu. Adeg y gwaith maes, roedd tystiolaeth gref o syrffed digidol ymhlith defnyddwyr yr Hybiau Menter, ond serch hynny roedd cyfranwyr eraill yn galw am fuddsoddiad parhaus mewn cymorth busnes digidol gan y byddai hyn yn sicrhau y byddai entrepreneuriaid o bob rhan o Gymru yn cael mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes sydd ar gael drwy'r Hybiau Menter. Felly byddem yn argymell, o ran y dyfodol, y dylai unrhyw ddarpariaeth ddigidol i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fod ar gael ledled Cymru. Drwy sianelu'r ddarpariaeth hon drwy'r Hybiau Menter, mae perygl o'i chyfyngu i ddefnyddwyr o ardaloedd a wasanaethir gan yr hybiau, felly rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd eraill o gyflawni hyn ar gyfer Cymru gyfan.

**Crynodeb o'r argymhellion**

Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

i. dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio unrhyw gyllid y mae'n ei ddyrannu i Hybiau Menter yn y dyfodol mewn ffordd fwy hyblyg yn hytrach na'i ymrwymo i leoliadau penodol. Yn y dyfodol, dylid cyfeirio'r cyllid tuag at staff, yn hytrach na gofod, i sicrhau ei fod yn darparu'r gwerth ychwanegol mwyaf am arian

ii. dylid defnyddio cyllid yn y dyfodol i gefnogi darpariaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan ddefnyddwyr, gan gynnwys allgymorth ac ymgysylltu cymunedol, rhwydweithio, a chymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes

iii. dylid defnyddio cyllid yn y dyfodol i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran gweithio o bell, adfywio canol trefi a chadw pobl ifanc dalentog

iv. dim ond mewn meysydd lle mae'r farchnad yn methu y dylai Llywodraeth Cymru gyllido Hybiau Menter newydd. Er y gall fod yn heriol nodi meysydd o fethiant yn y farchnad o ystyried natur esblygol y dirwedd gyflenwi ac ansicrwydd ynghylch sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei defnyddio gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth Cymru, serch hynny, fonitro'r ddarpariaeth a'r galw er mwyn sicrhau bod cyllid ac adnoddau yn y dyfodol yn cael eu targedu'n gywir tuag at feysydd lle mae'r farchnad yn parhau i fethu

v. dylid darparu gwell cymhellion ar gyfer unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol, gan gynnwys drwy DPA, i sicrhau bod cleientiaid sy’n dymuno cael eu hatgyfeirio o gam cyntaf y daith i ddarpariaeth Busnes Cymru yn pontio'n ddidrafferth i'r ddarpariaeth honno

vi. yn y dyfodol, dylai DPA adlewyrchu’n well natur darpariaeth bresennol yr Hybiau Menter, yn enwedig o ran ymgysylltu â chleientiaid a phartneriaid, hwyluso rhwydweithiau busnes a'r cymorth i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes

vii. dylai Llywodraeth Cymru annog cydleoli unrhyw ddarpariaeth a ariennir yn y dyfodol a darpariaeth Busnes Cymru, a gwneud mwy o ddefnydd o fannau deori a mannau gwaith a rennir sydd ar gael ledled Cymru

viii. dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o gydweithio rhwng y ddarpariaeth ddeori a SAU yn y dyfodol

ix. yn y dyfodol, dylai unrhyw ddarpariaeth ddigidol i'r rhai sydd yn y broses o ddechrau busnes, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fod ar gael ledled Cymru